



CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG 2020

CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020

Cyflwynwyd i'r Senedd o dan adran n 2 Deddf Lluoedd Afrog 2011

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Cyfamod Parhaus rhwng Pobl y Deyrnas

Unedig a Llywodraeth Ei Mawrhydi

– a hefyd –

Pawb sydd neu a fu'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron a'u
Teuluoedd

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Ein Lluoedd Arfog sy'n cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran y Llywodraeth, gan aberthu agweddau ar eu rhyddid sifil, wynebu peryglon, ac weithiau dioddef anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd.

Mae teuluoedd hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi gweithrediad effeithiol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hyn, mae gan y genedl gyfan ddyletswydd foesol i aelodau o'r Gwasanaeth Morol, y Fyddin a'r Awyrlu, ac i'w teuluoedd.

Maen nhw'n haeddu ein parch a'n cefnogaeth, a chael eu trin yn deg.

Ni ddylai unrhyw un sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, p'un ai fel milwyr rheolaidd neu wrth gefn, rhai sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig yng nghyswllt rhai a ddioddefodd anafiadau a phrofedigaeth.

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bawb mewn cymdeithas: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat a gweithredoedd unigolion yn cefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod rhai a gyflawnodd ddyletswydd filwrol yn uno'r wlad a dangos gwerth eu cyfraniad. Nid oes ffordd well o fynegi hyn na thrwy ategu'r Cyfamod hwn.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn Covenant-Mailbox@MOD.GOV.UK

ISBN 978-1-5286-2281-3

CCS0620796990 12/20

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i

Ailgylchu. Dyluniwyd gan Design 102.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.



CYNNWYS

RHAGAIR.....	3
CRYNODEB GWEITHREDOL	7
SYLWADAU	13
PENNOD 1 – LLYWODRAETHU	29
PENNOD 2 – GWEITHGARWCH GAN YMDDIRIEDOLAETH CRONFA'R CYFAMOD.....	33
PENNOD 3 – IECHYD A GOFAL IECHYD.....	37
PENNOD 4 – ADDYSG.....	47
PENNOD 5 – LLETY.....	57
PENNOD 6 – CWESTAU AC YMGYSYLLTU BARNWROL	65
PENNOD 7 – BYWYD TEULUOL	69
PENNOD 8 – CYMORTH PONTIO A CHYMORTH GYDOL OES	77
PENNOD 9 – BUSNES A'R GYMUNED.....	83
DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR Y STRATEGAETH AR GYFER EIN CYN-FILWYR.....	95
ATODIAD A – TABL YN NODI CYNNYDD GYDA'R YMRWYMIADAU PRESENNOL.....	101
ATODIAD B – METRIGAU CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG.....	111

RHAGAIR

gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn

Eleni, mae ein Lluoedd Arfog unwaith eto wedi camu i'r adwy i gynorthwyo ein gwlad drwy'r pandemig COVID-19, o adeiladu Ysbytai Nightingale y GIG i ddarparu profion ar draws y DU. Mae ein cyn-filwyr wedi, ac yn parhau i fod wrth galon yr ymdrech wirfoddol mewn llawer o gymunedau. Mae partneriaid ar bob lefel yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol wedi parhau i gynorthwyo'r rhai a fu ac sy'n parhau i wasanaethu, a'u teuluoedd. O ganlyniad, ni fu Cyfamod y Lluoedd Arfog erioed mor bwysig. Rydym felly'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Senedd fel tystiolaeth o'r gwaith hwnnw.

Mae bodloni ymrwymadau'r Cyfamod yn golygu gweithio'n holistig i gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog, ym mhob cam o fywyd. Gartref, ni fyddai llwyddiant ein Lluoedd Arfog wedi bod yn bosib heb gefnogaeth eu teuluoedd, ac mae darparu'n well ar eu cyfer hwy wedi bod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth yn 2020 a thu hwnt. Ym mis Medi, lanswyd y peilot ar gyfer ein rhaglen gofal plant 'cofleidiol' yn RAF High Wycombe ac RAF Halton. Bydd teuluoedd gyda phlant rhwng 4 ac 11 oed yn gallu derbyn arian i dalu am ofal plant cyn ac ar ôl ysgol, gan roi'r dewis i unrhyw gymar a phartner gael gweithio'n fwy hyblyg. Bydd mwy o leoliadau yn dilyn a bydd y cynllun peilot yn cael ei ymestyn yn Ionawr 2021 i deuluoedd y Lluoedd Arfog a bostiwyd i Catterick a Plymouth. Mae deall amrywiaeth teuluoedd y Lluoedd Arfog, a'r anghenion sydd ganddynt, wedi'i gydnabod ymhellach drwy'r argymhellion a wnaed gan Andrew Selous AS yn ei adroddiad Living in Our Shoes. Bwriadwn weithio'n agos â'n partneriaid yn y llywodraeth, ac mewn sectorau eraill, i weithredu ei argymhellion drwy ein Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Teuluoedd y Lluoedd Arfog.

Yn fwy cyffredinol, yn ogystal â'r ffaith bod yr MOD wedi buddsoddi £123m yn ystod y flwyddyn mewn Llety Teuluoedd Milwrol, mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo £200m arall i wella llety'r MOD. Rydym hefyd wedi ymestyn cynllun Cymorth Prynu Tai'r Lluoedd tan fis Rhagfyr 2022 i roi mwy o gyfle i bersonél milwrol a'u teuluoedd gael prynu cartrefi eu hunain.

Yn y gweithle, mae cefnogaeth busnesau'n hanfodol i sicrhau bod gan filwyr wrth gefn a theuluoedd Lluoedd Arfog yr hyblygrwydd i weithio a gwasanaethu. Mae mwy o gyflogwyr nag erioed yn ymrwymo i ddarparu gwaith i gyn-filwyr a rhai sy'n gadael gyrfaoedd milwrol, gan greu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd sifil. O ganlyniad, erbyn diwedd mis Medi roedd dros 5,800 o gyflogwyr wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a gwobr Aur wedi'i roi i 127 o gwmnïau o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn.

Mae sicrhau bod anghenion gofal iechyd personél milwrol a chyn-filwyr yn cael eu bodloni yn parhau i fod yn hollbwysig. Ym mis Ebrill lanswyd HeadFIT, adnodd pwysig i gynorthwyo ffitrwydd meddwl personél mewn gwasanaeth, sydd ar gael i bawb. Yn y cyfamser fe wnaeth Adolygiad o Adferiad Personél Amddiffyn 42 o argymhellion ynghylch Llwybrau Adfer i'r dyfodol ar gyfer personél sâl, neu wedi eu hanafu neu glwyfo. Hefyd, mae nifer y meddygfeydd a achredwyd fel rhai Cyfeillgar i Gyn-Filwyr wedi mwy na threblu i dros 800.

Mae'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn sbarduno gweithrediad y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr gan sicrhau bod y DU yn cymryd y camau angenrheidiol i fod y lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr. O'r Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr, i beidio â gorfod talu yswiriant gwladol am gyfnod, o fwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil i ymchwil bwrpasol i asesu effaith Covid-19 ar gyn-filwyr a sefydlu'r Bwrdd Cynghori Cyn-filwyr, mae'r Llywodraeth yn darparu ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd gan sicrhau nid yn unig bod y Cyfamod yn eu cynorthwyo ond gan fynd y filltir arall i gwrdd ag ymrwymiad cymdeithas iddynt.

Y flwyddyn nesaf bydd yn ddegfed pen-blwydd ar greu Cyfamod y Lluoedd Arfog a gweithredu'r ymrwymiad yn ein Maniffesto i wreiddio'r Cyfamod mwyfwy mewn cyfraith. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn offeryn hanfodol i helpu i atal yr anfantais a brofir gan gymuned y Lluoedd Arfog oherwydd natur unigryw eu Gwasanaeth. Bwriadwn barhau i gyflwyno gofal plant cofleidiol i deuluoedd milwrol gan ddatblygu'r pecyn hyfforddiant Sgiliau Bywyd i helpu personél milwrol ymhellach i bontio i fywyd sifil. Cefnogwn gyn-filwyr a rhai fydd yn gadael y Lluoedd i ddod o hyd i waith drwy ehangu'r Cynllun Gwarant Cyfweiliad i ymgeiswyr cymwys ar draws y Gwasanaeth Sifil a lansio'r Cynllun Heggwr Talu Yswiriant Gwladol fel y gall llawer mwy o gyn-filwyr gynnig eu doniau unigryw i gyflogwyr. Hefyd, am y tro cyntaf, bydd cyn-filwyr o Gymru a Lloegr yn gallu cofnodi eu gwasanaeth yn y Cyfrifiad (a'r Alban i ddilyn yn 2022), gan sicrhau bod data a thystiolaeth wrth galon y cymorth gwell gydol oes fydd ar gael, nawr ac yn y dyfodol.

Hoffem ddiolch i'n cydweithwyr yn y Llywodraeth, y Gweinyddiaethau Datganoledig, awdurdodau lleol a'n partneriaid ledled y DU sy'n parhau i gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'n ymdrech gydweithredol gan gymdeithas gyfan y DU. Mae eleni unwaith eto wedi dangos cymuned y Lluoedd Arfog a'n cyn-filwyr ar eu gorau. Mae'n ddyletswydd arnom felly i'w cynorthwyo. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n gilydd wrth i ni gyflawni ein dyletswydd.



Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS – Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn



Y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS – Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet



Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn ystod Diwrnod Pabïau Llundain 2019



Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn cyfarfod y cyn-filwr Sicaidd Darbara Singh Bhullar a'i deulu yn yr Arboretwm Coffa Cenedlaethol yn ystod dathliadau i gofio 75 mlynedd ers Diwrnod VJ.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Dyma nawfed adroddiad blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog ers ei gyflwyno yn Neddf Lluoedd Arfog 2011. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a'r 30 Medi 2020 a lle mae ffigurau'n ymwneud â chyfnod gwahanol, er enghraifft blwyddyn ariannol, nodir hynny. Gan ymateb i adborth bod adroddiadau blaenorol yn rhy hir neu gyffredinol, mae adroddiad eleni'n sôn yn benodol am weithgareddau newydd neu lwyddiant rhaglenni penodol dros gyfnod yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwaith gan Lywodraeth y DU ar faterion a gedwir yn ôl, a gwaith gan y gwledydd datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae Atodiad A yn rhoi diweddariad ar ymrwymadau a wnaed mewn adroddiadau blaenorol sydd heb eu cyflawni eto. Nid yw rhai o adroddiadau blaenorol sydd eisoes wedi eu cyflawni'n cael eu cynnwys. Mae Atodiad B yn cynnwys data o fetrigau Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Ers ei sefydlu, mae llywodraeth ar bob lefel wedi cyflwyno nifer o raglenni buddiol i wreiddio Cyfamod y Lluoedd Arfog a darparu cymorth gweladwy i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Er mwyn creu adroddiad mwy cryno, nid yw'r gweithgareddau parhaus hyn yn cael eu hailadrodd yma ond gallwch ddarllen amdanynt mewn adroddiadau blynyddol blaenorol.

Mae cefndir y cyfnod adrodd hwn yn dra gwahanol i gefndir yr wyth adroddiad blaenorol o gofio bod pandemig COVID-19 wedi dechrau hanner ffordd trwy'r cyfnod hwn. Mae llawer o sefydliadau wedi cynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog yn benodol, a lle mae hynny'n gysylltiedig â darparu Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae'n cael ei gynnwys. Dim ond lle mae'n uniongyrchol berthnasol y mae cyfraniad y Lluoedd Arfog i ymateb y llywodraeth i COVID-19 wedi'i gynnwys.

Uchafbwyntiau darparu dros gyfnod yr adroddiad

Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod

I ddeall mwy wrth gyflwyno rhaglenni grantiau yn y dyfodol, bu'r Ymddiriedolaeth yn ymgynghori ac o ganlyniad bydd rhaglenni blwyddyn ariannol 2020/21 yn darparu grantiau bach a chanolig i leihau ynysu yng nghymuned y Lluoedd Arfog ac yn cefnogi prosiectau o faint canolig drwy gyrrff mentora i wella cynaliadwyedd a chydweithrediad.

Drwy'r rhaglen Removing Barriers to Family Life, dyfarnwyd £7.2m i 60 o brosiectau ar draws y DU sy'n cynorthwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog. Drwy'r rhaglen Positive Pathways, ym mlwyddyn ariannol 2019/20 ariannwyd 114 o brosiectau ar draws y DU i wella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr.

Drwy Gronfa Canolfannau Cymuned y Cyn-filwyr, gwnaed 67 o grantiau gwerth £2.85m, ar gyfer gwaith trwsio, ailwampio ac addasiadau mynediad.

Dyfarnodd y rhaglen Veterans Should Not Be Forgotten £2m i 119 o brosiectau er mwyn rhoi cymorth syth bin i gyn-filwyr gyda llai o gyswllt cymdeithasol yn ystod COVID-19. Mewn ymateb i COVID-19, lansiodd y rhaglen COVID Impact, gwerth £6m i gyd, i gynorthwyo elusennau'r Lluoedd Arfog a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol, gyda 102 yn derbyn grantiau.

Iechyd a gofal iechyd

Lansiodd HeadFIT sy'n wefan yn cynnwys cyfres o adnoddau fideo, sain a thestun i gynorthwyo iechyd meddwl a hybu rheolaeth pobl o'u hiechyd meddwl. Daeth yr Adolygiad o Adferiad Personél Amddiffyn i ben gan wneud 42 o argymhellion ynghylch Llwybrau Adferiad i'r dyfodol ar gyfer personél sâl neu wedi eu hanafu neu glwyfo.

Cafodd Gwobr Partneriaeth Iechyd Milwrol a Sifiliaid y Health Service Journal, sy'n datlun rhagoriaeth mewn gofal iechyd a gwella iechyd cymuned y Lluoedd Arfog, ei dyfarnu am y tro cyntaf i Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sunderland.

I ateb materion polisi hirdymor, sefydlodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Weithgor Teuluoedd Milwrol gyda chynrychioliaeth o'r pedair gwlad, NHS England, NHS Improvement, y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) a Ffederasiynau'r Teuluoedd.

Treblodd nifer y meddygfeydd a achredwyd fel rhai Cyfeillgar i Gyn-Filwyr i dros 800.

Mae NHS England ac NHS Improvement wedi parhau i ddarparu gwasanaethau penodol i gyn-filwyr yn ystod COVID-19, drwy gyfryngau digidol.

Lansiodd Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr Cymru sy'n gydweithrediad o arbenigwyr ag arbenigedd yng nghanolfannau trydyddol Cymru a diddordeb yng ngofal cyn-filwyr a delio â phroblemau'n ymwneud ag amser cyn-filwyr yn y Lluoedd.

Addysg

Bu'r Gynghrair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog yn arwain prosiect traws-DU o'r enw Year of the Service Child i ystyried sut i roi lleisiau plant y Lluoedd Arfog wrth galon y broses o ddatblygu polisi ac ymarfer, gan ryddhau'r adroddiad 'Listening to learn: the voices of service children

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Plant Lluoedd Arfog gan yr MOD, Cymorth Addysg Plant Lluoedd Arfog Cymru, Ymddiriedolaeth Addysg y Royal Caledonian, Service Children in State Schools a'r Gynghrair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog, i adnabod a rhannu ymarfer da ar draws y DU.

Mae'r MOD wedi newid y polisi ar dalu ffioedd dysgu o dan Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog fel y bydd myfyrwyr nawr yn derbyn yr un faint o arian i astudio yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yr MOD wedi gweithio'n agos â'r Adran Addysg a Chyllid a Thollau EM i sicrhau bod rhieni sy'n dychwelyd i Loegr o Gymru, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a gwledydd tramor yn gallu gwneud cais am gôd gofal plant 30 awr unigryw cyn cyrraedd yn ôl yn Lloegr.

Mae'r MOD wedi ymestyn y Gronfa Cymorth Addysg i flwyddyn ariannol 2020/21.

Lansiodd Cymorth Addysg Plant Lluoedd Arfog Cymru gyfres o adnoddau newydd i gynorthwyo ysgolion, teuluoedd a phlant y Lluoedd er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiadau plant y Lluoedd o ganlyniad i wasanaeth eu rhieni.

Llety

Ar ben buddsoddiad canol blwyddyn yr MOD o £123m ar gyfer llety teuluoedd milwrol, mae'r llywodraeth hefyd wedi ymrwymo £200m i wella llety'r MOD (£122m ar gyfer llety teuluoedd milwrol a £78m ar lety byw eich hun) i helpu i adfywio economi'r DU yn dilyn pandemig COVID-19.

Mae'r MOD wedi diwygio'r polisi llety i ddileu'r gofyniad bod yn rhaid i bersonél milwrol fod wedi cwblhau mwy na 4 blynedd o wasanaeth cyn gallu gwneud cais i gyd-fyw mewn llety Teuluoedd Milwrol sydd dros ben.

Lansiodd rhaglenni Model Llety'r Dyfodol peilot yn y Garsiwn yn Aldershot ac yn RAF Wittering.

Mae cynllun Cymorth Prynu Tai'r Lluoedd Arfog wedi'i ymestyn tan fis Rhagfyr 2022.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ganllawiau statudol newydd i wella mynediad at dai cymdeithasol i bersonél milwrol, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad Cartrefi Cyntaf yn cadarnhau y bydd amod cysylltiad lleol y cynllun Cartrefi Cyntaf yn cael ei hepgor i'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr am bum mlynedd ar ôl gadael y Lluoedd. Bydd hefyd ar gael i weddwon personél milwrol a fu farw, os achoswyd eu marwolaeth yn llwyr neu'n rhannol gan eu Gwasanaeth.

Cwestau ac ymgysylltu barnwrol

Cofnododd yr Uned Cwestau Amddiffyn fod 67 o gwestau wedi eu cynnal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaeth Crwner Llywyddol Gogledd Iwerddon ddatganiad yn disgrifio ei chynllun i ymdrin â'r 43 o gwestau rhestredig o fewn pum mlynedd.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus yr MOD ar fesurau gwarchodaeth gyfreithiol arfaethedig i bersonél Lluoedd Arfog a chyn-filwyr a fu'n gwasanaethu y tu allan i'r DU. Fe wnaeth yr ymateb i'r ymgynghoriad oleuo datblygu mesurau a gafodd eu cynnwys yn y Bil Gweithrediadau Tramor (Personél Milwrol a Chyn-filwyr), a gyflwynwyd i'r Senedd.

Bywyd teuluol

Dechreuodd raglen beilot Gofal Plant Cofleidiol yr MOD wneud taliadau i deuluoedd yn y safleoedd peilot cyntaf yn RAF High Wycombe ac RAF Halton.

Cyhoeddwyd yr adroddiad Living In Our Shoes sy'n adolygiad annibynnol o'r cymorth a roddir i deuluoedd Milwrol, wedi'i gomisiynu gan yr MOD a'i arwain gan Andrew Selous AS.

Cymorth pontio a chymorth gydol oes

Cyhoeddwyd JSP100 sef y Polisi Pontio Holistig Amddiffyn i gynorthwyo personél yn gadael bywyd milwrol, a'u teuluoedd, i addasu i agweddau eraill ar bontio i fywyd sifil.

Ynghyd â'r Polisi Pontio Holistig Amddiffyn, sefydlwyd hefyd y Gwasanaeth Pontio Milwrol (Defence Transition Service) i helpu rhai sy'n cael y drafferth fwyaf wrth bontio i fywyd sifil.

Lansiwyd yr ap Veterans Gateway a ddatblygwyd gan Ganolfan Ymchwil Teuluoedd Milwrol a Chyn-filwyr y Gogledd ym Mhrifysgol Northumbria ac Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod.

Lansiodd yr MOD hefyd SERVE (Service for Experienced, Rejoiner and Volunteer Engagements), llwyfan digidol newydd i hysbysebu cyfleoedd i filwyr wrth gefn, ail-ymunwyr ynghyd â chyfleoedd ehangach ar draws y Lluoedd Arfog, gan helpu cyn-filwyr i aros mewn cysylltiad â'r Lluoedd.

Busnes a'r gymuned

Cododd nifer y cyflogwyr a lofnododd Gyfamod y Lluoedd Arfog i 5,802 erbyn diwedd Medi.

Rhodddwyd gwobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr i 127 o fusnesau o wahanol sectorau yn cynnwys cwmnïau o bob maint, o fusnesau BBaCh i gwmnïau FTSE100, cynghorau ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Drwy rwydweithiau busnes a chymunedol Cyfamod y Lluoedd Arfog, rhodddwyd cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog yn ystod COVID-19 gan gynnwys cynorthwyo cyflogwyr milwyr wrth-gefn, hybu gwasanaethau a dosbarthu gwybodaeth.

Yn ystod wythnos y Lluoedd Arfog, rhedodd Dîm Cyflogwyr a Phartneriaethau Cenedlaethol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ymgyrch ar draws y DWP i hybu cyfleoedd yn y Lluoedd Arfog rheolaidd ac wrth-gefn.

Fel rhan o'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gweithredu cyflogaeth newydd i helpu i wella'r cymorth cyflogaeth a roddir i'r Lluoedd Arfog.

CRYNODEB O'R YMRWYMIADAU A WNEIR YN YR ADRODDIAD HWN SYDD I'W DARPARU AR ÔL CYFNOD YR ADRODDIAD

Gofal iechyd

Yn yr hydref 2020:

- Bydd NHS England yn lansio ymarfer ymgysylltu i weld sut orau i gynorthwyo anghenion iechyd a lles teuluoedd y Lluoedd Arfog, ble bynnag y maen nhw'n byw yn Lloegr
- Bydd y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl Cyn-filwyr yn lansio prosiectau 'pathfinder' rhanbarthol i brofi'r model gwasanaeth arfaethedig
- Bydd y peilot achredu iechyd meddwl cyn-filwyr yn dechrau, a fydd yn cynnwys 10 o dimau iechyd meddwl cyn-filwyr o sefydliadau yn y sectorau statudol ac anstatudol (gan gynnwys sefydliadau elusenol)

Addysg

Ym mis Hydref 2020, bydd y Gynghair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog yn lansio'r pecyn Thriving Lives, adnodd ymarferol sy'n helpu ysgolion i wella eu cymorth i blant y Lluoedd Arfog.

Erbyn diwedd 2020, bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Plant Lluoedd Arfog y DU yn ysgrifennu adroddiad yn nodi ymarfer da ar draws y DU ac argymhell prosiectau cydweithredol posib ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr Adran Addysg yn ymateb i'r ymgynghoriad ar wneud newidiadau arfaethedig i'r Cod Derbyn i Ysgolion, oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol at blant y Lluoedd Arfog.

Bywyd teuluol

Ym mis Hydref 2020 lansiodd yr MOD y rhaglen beilot Partner Career Support.

Ym mis Ionawr 2021, bydd rhaglen beilot Gofal Plant Cofleidiol yr MOD yn lansio peilotiaid pellach ar gyfer safle Ardal Lyngesol Plymouth a Garsiwn Catraeth.

Cymorth pontio a chymorth gydol oes

Yn yr hydref 2020 bydd y Polisi Pontio Holistig Amddiffyn yn cael ei adolygu, blwyddyn union ar ôl ei gyflwyno.

Busnes a'r gymuned

Yn yr hydref 2020, bydd y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn cael ei adolygu i adnabod mesurau i gynorthwyo cynaliadwyedd hirdymor ynghyd â gweithredu newidiadau mewn pryd ar gyfer gwobrau 2021.

SYLWADAU

gan aelodau allanol o Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod

Sylwadau ffurfiol Ffederasiynau'r Tri Llu

Rhagarweiniad

Mae Ffederasiynau'r Teuluoedd yn cydnabod bod eleni wedi bod yn flwyddyn wirioneddol unigryw a dylid cydnabod bod cymuned y Lluoedd Arfog unwaith eto wedi camu i'r adwy i gynorthwyo'r wlad. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn cydnabod yn ffurfiol a dathlu cyfraniad y teuluoedd di-wasanaeth milwrol wrth i lawer ohonynt chwarae rhan flaenllaw yn yr ymateb i bandemig Covid-19, fel gweithwyr allweddol iechyd, addysg, gofal cymdeithasol ac yn y sector manwerthu.

Gofal iechyd

Deall anghenion iechyd teuluoedd y Lluoedd Arfog

Bu Ffederasiynau'r Teuluoedd yn gweithio'n agos â'r GIG dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau dealltwriaeth well o'r trafferthion unigryw sydd gan deuluoedd milwrol gyda derbyn gofal gan y GIG. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhaglen Ymgysylltu â Theuluoedd Milwrol NHS England ac NHS Improvement ynghyd â chomisiynu Prifysgol Anglia Ruskin i wneud ymchwil i'r heriau penodol a wynebir gan gohort symudol.

Gobeithiwn y bydd y ddau brosiect yma'n rhoi dealltwriaeth well o'r heriau a wynebir a chaniatáu argymhellion gweithredol defnyddiwr-gyfeillgar ar gyfer y GIG ar draws y DU, y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â theuluoedd Milwrol, gan arwain at ganlyniadau gwell.

Problemau iechyd meddwl

O gofio'r pwysau sylweddol ar y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CYPMHS) a'r oedi cyn derbyn gofal, rydym yn parhau i boeni bod plant y Lluoedd Arfog o dan anfantais barhaus oherwydd diffyg ymwybyddiaeth.

I ddechrau bu Ffederasiynau'r Teuluoedd yn gweithio gyda'r MOD, yr Adran Addysg (DFE), NHS England ac NHS Improvement ar ddatblygu'r rhaglen Transforming Children and Young People's Mental Health i hyrwyddo'r problemau unigryw a wynebir gan blant y Lluoedd, a nodwn y diweddariad i'r cynllun peilot hwn yn Nhabl Ymrwymadau'r Cyfamod. Edrychwn ymlaen at ail-ymgysylltu â'r asiantaethau hyn a gyda'r Timau Cymorth Iechyd Meddwl newydd, i sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaeth dealltwriaeth well o fywyd milwrol a'r effaith y gall ei gael ar iechyd meddwl ein plant a phobl ifanc.

Addysg

Ymgynghori ar y Cod Derbyn i Ysgolion

Ar ôl lleisio pryderon ers blyneddau am ddyrannu lle mewn ysgolion i blant y Lluoedd, roeddem yn falch o gyfrannu i'r Ymgynghoriad diweddaraf ar wneud newidiadau i'r Cod Derbyn i Ysgolion. Mae Ffederasiynau'r Teuluoedd yn awyddus i weld canlyniad cadarnhaol i'n teuluoedd drwy Gôd diwygiedig lle mae'r broses derbyn i ysgolion yn ystyried eu statws symudol. Byddai newidiadau eraill, fel cynnwys amserlen glir ar gyfer y broses o wneud cais a chydabod uned neu gyfeiriad preifat, hefyd yn gymorth i deuluoedd Milwrol ac yn sicrhau mwy o gysondeb ar draws y wlad.

Partneriaethau Awdurdod Lleol yr MOD (MODLAP) Rydym yn cydnabod bod y ffocws i awdurdodau lleol eleni wedi bod ar ymateb i'r pandemig sy'n parhau development over the next ond

caem weld cynnig y consortiwm MODLAP yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y 12 mis nesaf i wneud Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) yn symudol, gan ddileu rhai o'r rhwystrau i addysg plant gyda SEND o deuluoedd personél symudol.

Y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog

Mae'r cynnydd yn y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog (SPP) yn gam yn y cyfeiriad iawn ond arhoswn yn bryderus na fydd rhai ysgolion yn gwario eu taliadau SPP yn effeithiol bob tro. Dymunwn weld mwy o atebolrwydd i ddangos sut y mae'r cyllid hwn yn cynorthwyo plant milwrol a mwy o wybodaeth am yr effaith lesol.

Cyllid ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch

Byddem yn croesawu adolygu'r trafferthion sydd gan bartneriaid di-wasanaeth ac oedolion dibynnol gyda chael mynediad at gyllid myfyrwyr, lle mae angen cyllid i symud ar draws ffiniau'r pedair gwlad. Mae'r rheolau presennol ar gyllid yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau teuluol hyn gysylltu â'r ardal lle oedd y person milwrol yn byw pan ymunodd. Nid yw hyn yn gweithio bob tro oherwydd materion fel lleoliad y darparwr hyfforddiant, a byddai'n well gennym weld pob achos yn cael sylw unigol.

Llety

Model Llety'r Dyfodol (FAM)

Edrychwn ymlaen at y dystiolaeth o'r tri chynllun peilot FAM gan obeithio fod holl elfennau'r cynllun wedi eu profi'n drylwyr i sicrhau bod cyflwyniad y rhaglen yn y dyfodol yn addas i'r pwrpas a barn teuluoedd wedi'i ystyried. Byddwn yn parhau i annog yr MOD i gyfathrebu'n glir ar FAM gan sicrhau eu bod yn cyfleu realiti'r rhaglen yn gywir.

Llety Teuluoedd Milwrol (SFA)

Roedd yn dda deall bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn buddsoddi £122m ychwanegol mewn Llety Teuluoedd Milwrol, fel rhan o'r hwb ariannol, a gobeithiwn y bydd hyn yn ateb rhai o bryderon hirsefydlog y teuluoedd ynghylch safon a modernedd eu tai.

Er bod ehangu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer SFA dros ben, i gynnwys personél milwrol mewn perthynas hirdymor, hefyd i'w groesawu, pwyswn ar yr MOD i fonitro'r effaith ar deuluoedd yn y sefyllfa hon sy'n cael eu postio i ardaloedd lle nad oes stoc dai dros ben. Byddem hefyd yn croesawu adolygiad pellach o'r polisi presennol i ystyried pa dystiolaeth sy'n rhaid i gyplau ei chyflwyno i ddangos eu bod mewn perthynas hirdymor gydnabyddedig, yn enwedig rhai nad ydynt wedi gallu rhannu cartref o'r blaen neu sydd heb gyfrifon banc ar-y-cyd.

Llety Byw Eich Hun (SLA)

Bydd y buddsoddiad pellach o £78m mewn Llety Byw Eich Hun yn helpu i oresgyn llawer o'r problemau hirdymor gyda'r rhan yma o'r Ystâd Amddiffyn. Fodd bynnag, dymunwn gael sicrwydd ynghylch sut a phryd y bydd yr uwchraddio hyn i lety SLA yn digwydd, yn enwedig oherwydd bod problemau parhaus gyda dŵr poeth a gwres mewn rhai tai wedi achosi gofid ychwanegol yn ystod y pandemig, gyda theuluoedd yn poeni am yr effaith bosib ar iechyd eu hanwyliaid.

Partneriaid wedi gwahanu ac ysgaru

Rydym wedi pwyso ar y llywodraeth ers blynyddoedd i eithrio partneriaid sydd wedi gwahanu ac ysgaru / partneriaid sifil o'r amod cysylltiad lleol wrth wneud cais am dai cymdeithasol. Roeddem felly'n falch o weld argymhellion y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn annog awdurdodau lleol i dderbyn yr eithriad hwn, er y byddem wedi croesawu ei roi mewn cyfraith i sicrhau cymorth cyson i'r bobl hyn, sy'n aml yn fregus.

Gan ddilyn ymlaen o gyhoeddi'r argymhellion hyn, roeddem felly'n siomedig iawn o weld na chafodd yr un eithriad ei gynnwys yng nghynllun blaenllaw Cartrefi Cyntaf y Llywodraeth, sy'n golygu bod y grŵp hwn yn llai abl i brynu cartref, er eu bod yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog.

Bywyd teuluol

Adroddiad Selous

Roedd Adroddiad Selous 'Living in our Shoes' yn cydnabod yn ffurfiol llawer o'r pryderon y mae Ffederasiwn y Teuluoedd wedi sylw atynt ers rhai blynyddoedd. Byddwn nawr yn edrych ymlaen at weithio gyda'r MOD i adolygu'n llawn yr argymhellion a wneir yn yr Adroddiad ac ystyried sut ddylanwad fydd ganddynt ar y Strategaeth Teuluoedd newydd.

Gofal plant

Mae'r peilot Gofal Plant Cofleidol yn rhoi cymorth da i deuluoedd milwrol. Carem hefyd weld mwy o hyblygrwydd fel bod teuluoedd yn gallu defnyddio'r talebau gofal plant i gynnal eu cyflogaeth, er enghraifft i dderbyn gwasanaeth dros y gwyliau. Yn olaf, dymunwn wahodd yr MOD i ystyried y dystiolaeth o arolygon gofal plant Ffederasiynau'r Teuluoedd i sicrhau yr ystyrir yr amrediad cyfan o faterion a brofir gan deuluoedd.

Cyflogaeth

Mae llwyfan cyflogaeth Ffederasiynau'r Teuluoedd, Forces Families Jobs, wedi mynd o nerth i nerth yn ei flwyddyn gyntaf; gan ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'n haelodau teuluol, gyda chymorth yr MOD.

I'r dyfodol, carem weld mwy o waith yn cael ei wneud i ddileu anfanteision eraill gan bartneriaid di-wasanaeth, er enghraifft os na fedrant ddychwelyd i weithio ar ôl absenoldeb mamolaeth oherwydd bod eu partner milwrol wedi eu postio i ardal arall.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod peilot y Rhwydwaith Cydweithio Milwrol yn llwyddiannus oherwydd gwyddom fod yr hybiau hyn yn achubiaeth i bartneriaid sy'n gweithio. Er bod sawl ffynhonnell gymorth ar gael i bartneriaid gyda chyflogaeth, sydd i'w groesawu, gall y darparwyr lluosog hyn brofi'n gymhleth i deuluoedd. Byddem yn croesawu mwy o arweiniad a chydlynau ar hyn gan yr MOD a'r Grŵp Llywio Cyflogaeth Partneriaid er mwyn sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth glir a hygyrch â theuluoedd am yr hyn sydd ar gael.

Teuluoedd sy'n Byw Dramor

Yn sgîl parhad y pandemig, dangoswyd bod angen cymorth mwy penodol i deuluoedd a bostiwyd dramor. Clywsom fod teuluoedd eisoes yn teimlo'n ynysig oherwydd diffyg cymorth lles ond mae hyn wedi'i waethygu gan COVID-19 a'r heriau ychwanegol i deuluoedd tramor o ymdopi ag amryw o wahanol gadwyni rheoli. Mae'n siomedig na chyfeiriwyd at hyn yn yr Adroddiad am eleni.

Cymorth gydol oes

Personél di-DU

Mae Ffederasiynau'r Teuluoedd yn teimlo'n hollol rwystredig unwaith eto bod cyn lleied o ffocws yn yr Adroddiad hwn ar gymorth i bersonél milwrol di-DU a'u teuluoedd. Ni wneir unrhyw ymrwymiad gwirioneddol i wella gwasanaethau i'r teuluoedd hyn a dim amserlen ar gyfer unrhyw ffrydiau gwaith.

Rydym wedi bod yn codi'r problemau a wynebir gan bersonél di-DU ers naw blynedd bellach ac yn siomedig bod llawer o'r pryderon a leisiwyd i'r MOD yn parhau. Dymunwn felly gael cyfle i fynychu cyfarfodydd Gweithgor Personél Di-DU y Tri Llu yn y dyfodol i sicrhau y defnyddir y dystiolaeth gan deuluoedd yn effeithiol i roi sylw i'r problemau parhaus hyn. Byddem hefyd yn falch o ddeall yn well pwy sy'n eiriol dros y materion hyn yn yr MOD.

Mae hyn yn bryder mawr i'n sefydliadau a byddwn yn parhau i godi'r materion hyn hyd nes iddynt gael eu cydnabod yn ffurfiol a'u hadrodd yn llawn yn Adroddiad Blynnyddol y Cyfamod.

Pontio

Mae adolygiad o'r Polisi Pontio Holistig Amddiffyn, JSP100, i sicrhau ei fod yn cydnabod y cymorth sydd ei angen ar deuluoedd pan fydd eu person milwrol yn pontio i fywyd sifil, yn amserol iawn wrth nesáu at flwyddyn ers lansio. Fel y dangosodd ymchwil Ffederasiynau'r Teuluoedd yn 2018, mae hyn yn allweddol i sicrhau bod y person milwrol yn pontio'n effeithiol a byddwn wrth law i gynorthwyo'r Gweithgor i weithredu'r polisi hwn.

Edrychwn ymlaen hefyd at ddysgu mwy am effaith y Gwasanaeth Pontio Milwrol ar bersonél milwrol a'u teuluoedd.

Mynediad at fudd-daliadau

Carem weld ffocws ar gyngor budd-daliadau i deuluoedd sy'n wynebu problemau unigryw, yn enwedig rhai a bostiwyd dramor. Rydym yn parhau i ddelio â'r problemau sydd ganddynt, er enghraifft ni wŷr y teuluoedd yn aml y gellir parhau i hawlio Credyd Cynhwysol dramor, a thrafferthion newid i gyfeiriad BFPO.

Rydym wedi datblygu perthynas weithio dda gyda thimau polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau a byddem yn croesawu cyfle i ddatblygu'r un berthynas gyda'r Arweinwyr Polisi yn HMRC, er mwyn codi ymwybyddiaeth o fywyd milwrol a thynnu sylw at yr anfanteision anfwriadol y gall polisiâu weithiau eu creu i deuluoedd y Lluoedd Arfog.

Deddfwriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog

Edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am y Cyfamod mewn Deddfwriaeth dros y 12 mis nesaf, oherwydd rhagwelwn y bydd yn cael cryn effaith, ar ein teuluoedd milwrol a hefyd ar y rhai fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r newidiadau a weithredir.

Busnes a'r gymuned

Mae'n wych bod y Cyfamod wedi'i lofnodi gan fwy o fusnesau nag erioed a gwerthfawrogwn hefyd gymorth y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM) yn datblygu a hyrwyddo'r porth Forces Families Jobs. Dymunwn hefyd nodi ein gwerthfawrogiad o'r nifer gynyddol a wobrwyr o dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr, llawer ohonynt o'r sector cyhoeddus.

Roedd yn dda clywed am rôl y Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog yng Nghymru, sydd nawr yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Ymddengys bod y swyddogion hyn yn cael effaith fawr yn eu hardaloedd lleol a byddem yn hoffi ystyried cyflwyno'r rhaglen hon mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig o gofio y bydd llawer o swyddi'r Swyddogion Cyfamod Awdurdod Lleol, oedd ar gontractau cyfnod penodol ac wedi eu hariannu gan y Gronfa Gyfamod, efallai'n dod i ben cyn bo hir.

Casgliad

Rydym yn croesawu sefydlu'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr ac yn deall mai dyma pam efallai fod llawer o gynnwys yr Adroddiad eleni'n canolbwyntio ar ddatblygiadau yng nghyswllt cyn-filwyr. Fodd bynnag, o gofio bod adroddiad 'Living in Our Shoes' Selous bellach wedi'i gyhoeddi, gwaith pwysig sy'n gyrru adolygiad yr MOD o'r Strategaeth Teuluoedd, rhagwelwn y bydd adroddiad 2021 yn rhoi ffocws ar ganlyniadau hynny i'n teuluoedd milwrol.

Rhagarweiniad

Mae'r gefnogaeth ehangach a roddir i Gymuned y Lluoedd Arfog, a thrwy ddarparu'r Cyfamod yn benodol, yn bartneriaeth rhwng llywodraeth a Sector Elusennau'r Lluoedd. Mae'r gyd-berthynas ryng-ddibynnol gymhleth hon yn unigryw'n rhyngwladol ond mae'r strwythur anffurfiol yn golygu bod y cymorth yn fregus. Yn ein sylwadau'r llynedd, roedden ni'n nodi'r rhwystrau oedd yn effeithio ar gyfraniad y sector elusennau. Mae'r rhain yn cynnwys: mesurau cyni, sydd wedi lleihau darpariaeth y llywodraeth tra bod maint a chymhlethdod y galw gan fuddiolwyr wedi cynyddu; y gost uwch angenrheidiol o lywodraethu elusennau sy'n mynd ag arian oddi ar y darparu; a phroffil is y lluoedd arfog. Mae'r heriau hyn nawr wedi eu gwaethygu'n sylweddol gan bandemig COVID-19.

Mae sylwadau Cobseo ar adroddiad eleni'n adlewyrchu barn y Cydffederasiwn ar ddarparu'r Cyfamod dros y 12 mis diwethaf, ond hefyd yn edrych ar effaith bosib COVID-19 yn y tymor hir.

COVID-19

I lwyr ddeall effeithiau COVID-19 ar y sector, ym mis Mai cynhaliodd Cobseo arolwg o'i aelodau (wedi'i noddi gan FiMT a'i gyflawni gan y Cyfarwyddwr Newid Cymdeithasol). Roedd y canlyniadau'n drawiadol: roedd hyd at 60% yn llai o godi arian; dywedodd 30% y byddent yn debygol o fod wedi gwario eu harian wrth gefn o fewn 12 mis; roedd 18% o'r elusennau'n darogan y byddai'n rhaid iddynt gau neu uno o fewn blwyddyn a'r rhan fwyaf yn rhagweld lleihad yn eu gwasanaethau. Mae capasiti'r sector yn wirioneddol bwysig yng nghydestun darparu'r Cyfamod oherwydd, fel y dywedodd awdur adroddiad 'Sector Insight' y DSC a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn y datganiad i'r wasg ar y pryd: 'Nid 'ychwanegiad' neu 'braf cael' yw gwasanaethau elusennau'r Lluoedd Arfog – maen nhw'n greiddiol i ansawdd bywyd miliynau o bersonél a chyn-bersonél milwrol a'u teuluoedd. Pe byddent yn diflannu dros nos, byddai'n rhaid i'r wladwriaeth ysgwyddo cyfran fawr o'r baich ariannol – ond mae effaith negyddol y pandemig yn risg wirioneddol i'r gwasanaethau hyn yn y tymor agos a chanolig.'

Roedd yr arolwg hefyd yn adnabod barn eang y byddai, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio, ton arall o alw. Mae'n debyg y bydd y cynnydd hwn mewn galw'n cyd-ddigwydd â diwedd cymorth y llywodraeth, sy'n rhaid ei wario cyn diwedd Hydref. Bydd tystiolaeth ychwanegol ar gael gan arolwg pellach o aelodau Cobseo, fydd yn adrodd ar ddechrau Tachwedd. Mae adroddiad y DSC hefyd yn nodi'r lefel ragorol o gydweithrediad a chydweithio ar draws sector elusennau'r Lluoedd. Mae'r ymdrech hon yn cael ei dwysáu drwy gynnal Adolygiad Strategol o'r Sector i'r pwrpas o wella effeithlonrwydd a chael pob punt bosib i reng flaen y darparu. Yn y cyfnod hollol ddigyffelyb hwn, bydd y sector yn gwneud ei orau i helpu ei hun ond mae'n debyg y bydd angen cymorth pellach gan lywodraeth i gynnal y cyfraniad elusennol, sy'n hanfodol i ddarparu'r Cyfamod.

Cydllynu Traws-Lywodraethol. Rydym yn croesawu sefydlu'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr (OVA) a'r ffocws o ganlyniad ar weithredu ar faterion Cyfamod sy'n effeithio ar gyn-filwyr. Yn ddealladwy, mae capasiti'r OVA wedi prnhau wrth i adnoddau gael eu dwyn ymaith i ddelio â blaenoriaethau Covid-19 a Brexit. Er bod ymdrechion y newyllyn staff i'w canmol, rydym yn croesawu'r staff newydd a benodwyd yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen at weld eu heffaith, yn enwedig gyda darparu Strategaeth ein Cyn-filwyr ymhellach. Dymunwn hefyd weld amcanion a metrigau clir i roi sylwedd i nod dywededig y Prif Weinidog o wneud y DU y wlad orau yn y byd i fod yn gyn-filwr. Yn y cyfamser, rhaid croesawu'r camau penodol a chlir a gymerwyd eleni, a ddisgrifir yn y Diweddariad Blynnyddol gyda'r Adroddiad hwn. Sylwyd fod rhai o ymdrechion yr OVA a hefyd Dim Cyfamod yr MOD wedi diflannu i'r mwllwch pan gawsant eu codi ymhellach yn Swyddfa'r Cabinet. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys yr ymdrechion i adfywio'r Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol (MCVB) a Grŵp Cyfeiriol y Cyfamod (CRG). Y ddau bwyllgor hwn yw'r prif gyfrwng o ddal adrannau ar draws y llywodraeth yn atebol am ddarparu'r Cyfamod. Daw awdurdod y CRG gan yr MCVB ac nid yw'r Bwrdd hwn wedi cyfarfod ers dwy flynedd a dim cynlluniau i wneud ychwaith. Bydd y CRG yn cyfarfod cyn bo hir am y tro cyntaf ers dros 10 mis.

Mae cymharu Sylwadau Cobseo ar Adroddiad Cyfamod 2020 a'n sylwadau ni ar adroddiad 2019 yn awgrymu nad oes llawer wedi newid. Yn ein barn ni, mae'r cynnydd siomedig hwn yn uniongyrchol oherwydd y diffyg gafael pendant o fewn llywodraeth ganolog.

Ystyriaeth arbennig

Mae'r Adroddiad eleni'n parhau i nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a chydweithwyr gweinidogol eraill yn ystyried sut orau i symud ymlaen â'r mater o Bensiynau i Weddwon Rhyfel – dyma'r chweched flwyddyn yn olynol yr ydym yn dal i aros am ateb. Roeddem yn nodi'r llynedd bod y Pwyllgor Amddiffyn wedi pwyso am drafodaethau brys â'r Trysorlys i gywiro'r hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel 'anghyfiawnder erchyll' ac ailadroddwn yr alwad hon unwaith eto. Mae gweithredu ar addewid y Cyfamod i roi ystyriaeth arbennig i rai mewn profedigaeth yn eithriadol bwysig, ac mae aros blwyddyn arall eto i hyn gael ei ddatrys yn annerbyniol. Amcangyfrif cyntaf Cymdeithas y Gweddwon Rhyfel oedd bod oddeutu 300 o Weddwon Rhyfel heb gael cyfiawnder. Chwe blynedd yn ddiweddarach, mae'r Gymdeithas yn amcangyfrif bod hyn i lawr i lai na 200.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r cymorth cyffredinol i rai mewn profedigaeth o dan y Cyfamod yn parhau i wella ac rydym hefyd yn croesawu bod gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil i aelodau ymadawedig o'r Lluoedd Arfog, os achoswyd eu marwolaeth yn llwyr neu'n rhannol drwy wasanaethu, yn cael eu cynnwys yn yr eithriad o'r amod cysylltiad lleol ar gyfer y Cynllun Cartrefi Cyntaf i aelodau o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr o fewn 5 mlynedd i adael gwasanaeth milwrol.

Argraffiadau

Roedd adroddiad Arglwydd Ashcroft yn 2017, wedi'i ategu gan arolygon YouGov ddiwedd 2018, yn nodi argraff y cyhoedd bod cyn-filwyr wedi cael niwed corfforol neu feddyliol o wasanaethu. Ers hynny mae'r mater wedi bod yn destun trafod helaeth, i ddechrau gan yr MCVB ac yna gan y CRG, ond heb lawer wedi'i benderfynu. Mae'r argraff negyddol barhaus hon o effaith gwasanaeth milwrol nid yn unig yn effeithio ar gyfleoedd i gyn-filwyr gael byw bywyd ystyrlon a llwyddiannus ar ôl gadael y Lluoedd, yn enwedig o ran gwaith, ond hefyd yn tanseilio eu parodrwydd i ofyn am gymorth a chefnogaeth pe bai angen. Fe wnaethom awgrymu'r llynedd mai'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr fyddai yn y constrained progress, but we would now request that this is given the significant priority it deserves. The commitment 'to make sure

the United sefyllfa orau i arwain ymgyrch argraffiadau. Rydym yn cydnabod bod y cyfyngiadau ar adnoddau yn ystod y pandemig wedi atal cynnydd ar hyn ond gofynnwn nawr i hyn gael y flaenoriaeth bwysig y mae'n ei haeddu. Mae'r ymrwymiad i sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr yn ychwanegu mwy o impetws fyth i'r angen taer i ddatrys y camargraff hwn, fel rhan o ymgyrch ehangach i ddangos sut a pham fod hyn yn bod.

Gofal cymdeithasol

Mae angen mynediad at ofal cymdeithasol ar gyfran helaeth o gyn-filwyr, sy'n adlewyrchu eu proffil oed a hefyd anghenion parhaus cyn-filwyr iau oed gweithio sydd ag anafiadau ac anabledau cysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol. Tynnwyd sylw o'r blaen at broblemau hirsefydlog o ran argaeledd amrywiol a chost gofal cymdeithasol o ansawdd da i gyn-filwyr yn eu hardal leol. Gyda'r pwysau ar gyllid statudol yn waeth o hyd, a gofal da i bob un o'n cyn-filwyr yn dod yn gynyddol anoddach ei gael, mae pandemig COVID-19 yn sicr wedi dirywio'r sefyllfa a hefyd wedi gwaethygu ynysu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio yma ac acw at adsefydlu a'r DMRC, ond nid yw'n sôn o gwbl am y ffaith bod angen cymorth gofal cymdeithasol parhaus ar gyn-filwyr. Mae parhau i hepgor sôn yn yr Adroddiad am ateb anghenion gofal cymdeithasol cyn-filwyr yn arwyddocaol, a rhaid rhoi sylw i hyn.

Gwladolion o'r tu allan i'r DU

Fel yr adroddwyd y llynedd, rydym yn parhau i groesawu ffocws cynyddol yr MOD ac eraill ar y problemau a wynebir gan wladolion di-DU sy'n cael eu recriwtio i'r tri Llu, a'u teuluoedd. Edrychwn ymlaen at weld cynnwys ymrwymadau pellach i ateb anghenion y cohort hwn yn nhraciwr ymrwymadau Cyfamod y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, nodwn gyda phryder y lleihad sylweddol yn lefel yr ymrwymiad a ddisgrifir yn adroddiad blynyddol 2020 o'i gymharu â diwedd 2019 ac mae'r cynnydd gyda datrys llawer o'r amryw bryderon a godwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn boenus o araf o hyd. Ychydig iawn sydd wedi newid ar y ddaear i lawer o bersonél di-DU a'u teuluoedd sy'n parhau i wynebu problemau, pwysau a rhwystrau unigryw drwy gydol eu gyrfa filwrol a thu hwnt, gan arwain at anfantais o'i gymharu â phersonél sy'n gwasanaethu ochr yn ochr â'r gwladolion hyn. Mae'r sylw a'r ffocws mwy ar ffioedd fisa yn Adroddiad eleni, er nad yw'n cyfeirio at ein pryderon parhaus am effaith y trothwy lleiafswm incwm, i'w groesawu ond

eto ni arweiniodd at unrhyw ryddhad clir i gyn-filwyr a'u teuluoedd sy'n wynebu ffioedd uchel wrth adael y Lluoedd. O reference to our ongoing concerns over the impact of the minimum income threshold, is welcome but yet to produce any tangible relief for veterans and their families facing high fees on discharge. As a result the burden of this situation continues to fall onto service personnel, their families and the charitable sector, and needs to be resolved as a matter of urgency.

Materion Allweddol yn ôl Penawdau'r Adroddiad

Adran 1 - Llywodraethu

Troi'r Cyfamod yn Gyfraith. Mae nod y Llywodraeth o gyfuno'r ymrwymadau yn y Cyfamod i'w ganmol; fodd bynnag, poenwn y gallai'r ffordd arfaethedig ymlaen, a chanlyniadau anfwriadol, gydgrynhoi i danseilio eu bwriadau da. Yn benodol, byddai Aelodau Cobseo am sicrhau bod cwmpas y ddeddfwriaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r tair egwyddor sydd wrth galon Cyfamod y Lluoedd Arfog ac yn ddigonol i sicrhau y rhoddir sylw i nifer o'r meysydd anfantais posib. Mae pryder ehangach hefyd pe bai safon gyfreithiol yn cael ei gosod sy'n is na'r ymrwymadau gwirfoddol presennol, y gallai hyn greu'r argraff o Gyfamod dwy haen ac, yn ymarferol, arwain at leihau gwasanaethau i'r hyn sy'n gyfreithiol ofynnol. Sefydlwyd Gweithgor ar-y-cyd rhwng yr MOD a Cobseo i roi sylw i'r pryderon hyn a bydd yn parhau i dracio a dylanwadu ar ddatblygiadau wrth i'r broses ymgyngori fynd yn ei blaen.

Y Bil Gweithrediadau Tramor (Personél Milwrol a Chyn-filwyr). Cefnogwn fwrriad y llywodraeth i ddod â'r Bil Gweithrediadau Tramor ymlaen. Roedd poenydio aelodau anrhydeddus o'r Lluoedd Arfog gan rai o'r proffesiwn cyfreithiol, yn dilyn yr ymdeithiau milwrol yn Afghanistan ac Irac yn enwedig, yn warthus ac ni ddylid gadael iddo barhau na chael ei ailadrodd. Nodwn fod gan rai amheuan am y bil, gan gynnwys pryderon y gallai gwaith i gyflwyno'r bil arwain at ddarostwng rhai o'n hymrwymadau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae pryder hefyd y bydd y terfyn amser o chwe blynedd yn gwahaniaethu rhwng personél milwrol (a chyn-filwyr) a sifiliaid cyffredin o ran gallu erlyn y llywodraeth. Gallai hyn fod yn anfantais o dan y Cyfamod.

Rydym yn cydnabod bod y rhain yn amheuan dilys a phwyswn ar y llywodraeth i barhau i ymgyngori er mwyn gwella'r Bil. Fodd bynnag, yr angen diymwad yw sicrhau bod personél milwrol wedi eu gwarchod rhag harasio plagus yn y dyfodol. Nodwn hefyd fod y llywodraeth wedi ymrwymo i roi gwarchodaeth i gyn-filwyr a fu'n gwasanaethu yng Ngogledd Iwerddon ac edrychwn ymlaen at weld y ddeddfwriaeth honno.

Adran 2 – Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod Cymorth Ariannol. Mae'r AFCT wedi gweinyddu'r arian sydd ar gael iddynt, drwy ystod o raglenni, yn dryloyw a thrylwyr; nid lleiaf y rhaglenni Positive Pathways a Removing Barriers to Family Life. Roedd y gronfa Veterans Should Not be Forgotten a Chronfa Effaith Covid-19 yn arbennig o amserol a chawsant eu croesawu. Fodd bynnag, roedd meini prawf y ddwy raglen olaf, oedd yn gofyn bod y cyllid yn cael ei wario erbyn diwedd Hydref, wedi bod yn rhwystr i fudiadau ymgeisio heb unrhyw resymeg glir drosto. Er bod y cyllid a ryddhawyd gan y Canghellor yn benodol i Sector Elusennau'r Lluoedd mewn ymateb i Covid-19 (£6m) wedi cael ei groesawu, ni fydd yn cael effaith barhaol ar ymdrechion y Sector i gynorthwyo buddiolwyr, a thrwy hynny, y Cyfamod. Yn ôl Adroddiad Trosolwg Sector y DSC, roedd gwariant blynyddol Sector Elusennau'r Lluoedd o gwmpas £985m ac amcangyfrifwn y gallai incwm y Sector i gynnal y gwariant hwn fod gymaint â 30% (£330m) yn llai dros y flwyddyn o fis Mai 2020 ymlaen. Nodwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn y bydd angen cymorth pellach gan y llywodraeth.

Llywodraethu'r AFCT. Mae gwaith yr AFCT yn gymhleth ac yn gofyn ymrwymiad a diwydrwydd gan ei dîm staff bach. Felly mae'n siomedig bod statws yr Ymddiriedolaeth, a fu'n destun trafodaeth ers dros 18 mis, yn parhau heb ei ddatrys. Barn Cobseo yw bod annibyniaeth yn hanfodol i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu gweld i fod. Byddem yn gryf o blaid y gwerth ychwanegol a roddid o gael personél milwrol a gweision sifil o bob un o'r pedair gwlad ar y bwrdd, ochr yn ochr ag aelodau annibynnol. Dylai unrhyw gadeirydd yn y dyfodol ddarparu'r un lefel o hygredd ac arbenigedd perthnasol â'r cadeirydd presennol. Sut bynnag, mae angen penderfyniad cyn gynted â phosib er mwyn canolbwyntio'n llawn ar ennill cefnogaeth i'r Cyfamod.

Adran 3 - Iechyd a Gofal Iechyd

Rydym yn cydnabod yr heriau anferth a gyflwynir gan y pandemig i'r GIG a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd statudol i gymuned y Lluoedd Arfog, a thalwn deyrnged

ymdrechion aruthrol pawb sy'n cynorthwyo ein personél, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Erys heriau mawr o hyd a gwyddom y bydd rhai o'r newidiadau a gynigiwn yn y sylwadau canlynol yn anochel yn dibynnu ar gapasiti'r GiG i ddarparu wrth i'r pandemig hwn barhau.

Cysondeb y Darparu. Yng nghyd-destun darparu'r Cyfamod yn deg ar draws y DU, credwn fod angen gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gweithwyr gofal a meddygon teulu i sicrhau dull cyson o ddarparu i'n cyn-filwyr i gyd. Rydym yn croesawu'r ymdrechion newydd i achredu Meddygon Teulu Cyfeillgar i Gyn-filwyr yn dilyn y cyfnod clo, ond bydd angen targedau mwy uchelgeisiol maes o law. Carem hefyd weld metrigau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol i ddangos ymrwymiad i ddarparu gofal tecach i gyn-filwyr ar draws y DU; i helpu i ddileu'r 'loteri cod post' o ddarpariaeth gofal iechyd; ac i helpu i ddal darparwyr i gyfrif.

Sâl, Wedi eu Hanafu neu Glwyfo (WIS). Yn ôl Cyfamod y Lluoedd Arfog a Chyfansoddiad y GiG, dylid rhoi mynediad blaenoriaeth (lle bo'n glinigol briodol) i gyn-filwyr, ond mewn gwirionedd mae hyn yn anghyson ac mae diffyg eglurder ynghylch dehongli'r polisi gan lywodraeth, clinigwyr a'r GiG. O ganlyniad, mae cyn-filwyr yn parhau i gael problemau gyda chael llawdriniaeth am anafiadau cymhleth a gawsant yn ystod eu gwasanaeth. Mewn rhai achosion, arweiniodd at oedi sylweddol gydag atgyfeirio a thriniaeth a hynny'n ei dro'n cael effaith o ran iechyd meddwl a meddyginiaeth lladd poen. Os yw'r diffiniad o 'blaenoriaeth triniaeth' i aros yr un fath, fel y nodar adroddiad, mae angen ymgyrch ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth o'r term ymhlith cyn-filwyr a chlinigwyr, er mwyn sicrhau darpariaeth fwy cyson ar draws y DU. Yn y cyswllt hwn, cefnogwn fwiad y gweithgor ar 'flaenoriaeth triniaeth' i barhau ei waith ynghyd â gwaith y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr, sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaeth gweithredol, cyngor ac arweiniad ar draws Lloegr, a nawr yng Nghymru hefyd. Byddai mesur ei ffaith yn yr Adroddiad maes o law hefyd i'w groesawu.

Adran 7 - Teuluoedd

Rydym yn croesawu'r Gweithgor Teuluoedd Milwrol traws-DU, sydd â chynrychioliaeth o holl wledydd y DU, NHS England, NHS Improvement, yr MOD a Ffederasiynau'r Teuluoedd, i roi sylw i faterion polisi hirdymor. Awgrymwn fod teuluoedd cyn-filwyr a gafodd eu rhyddhau ar seiliau meddygol yn y 12 mis diwethaf hefyd yn cael eu cynrychioli i sicrhau

bod darlun llawn o fywyd milwrol yn cael ei gyfleu.

Cronfa Symudedd Cyn-filwyr a'r Gronfa Gwrandawriadau Cyn-filwyr. Cafodd y ddwy gronfa hon, a sefydlwyd gyda grantiau gan y llywodraeth, effaith sylweddol ar fywydau miloedd o bobl dros y 5 mlynedd diwethaf ond bydd y cyllid / grantiau i gyd wedi cael eu gwario erbyn diwedd 2020. Gofynnwn am ystyried cyllid pellach drwy Gronfeydd Meddygol y Cyn-filwyr er mwyn parhau i dargedu cymorth at y meysydd iechyd allweddol hyn.

Gofal wedi'i Bersonoleiddio i Gyn-filwyr (gan gynnwys IPC4V). Mae lansiad hyn wedi'i groesawu'n gynnes ac mae aelodau Cobseo'n parhau i gynorthwyo cyn-filwyr i ddefnyddio pecynnau gofal wedi eu personoleiddio, lle bo'n briodol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu cydnabod mwy ar y cymorth newid bywyd a roddir gan y rhaglen ar-y-cyd hon a pha mor bwysig yw bod elusennau cyn-filwyr yn gweithio gyda gwasanaethau'r GiG, y Gwasanaeth Pontio Milwrol a'r Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr, o ran darparu cymorth ac er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwelliannau a wnaed i ansawdd bywyd y rhai a effeithiwyd arnynt.

Prostheteg. Mae Blesma'n monitro'n fanwl effaith y pandemig ar wasanaethau prostheteg y GiG i gyn-filwyr a gollodd aelod o'r corff oherwydd gwasanaeth milwrol. Mae Canolfannau Aelodau Corff y GiG yn parhau i wynebu lleihad sylweddol mewn gwasanaeth, gan roi cymorth brys i gyn-filwyr i gynnal eu symudedd. Bu'n rhaid i'r Gwasanaeth adleoli staff i feysydd eraill i ateb y galw am fwy o IPC (mesurau Atal a Rheoli Haint) a phellhau cymdeithasol drwy gydol yr argyfwng. Wrth i'r llywodraeth (a'r gwledydd datganoledig) weithio tuag at ddychwelyd yn raddol a diogel i waith arferol, mae Blesma'n rhagweld ôl-waith achosion trwm ac y bydd angen darparu cymorth ychwanegol sylweddol.

Iechyd Meddwl. Rydym yn croesawu'r saith cynllun peilot ar gyfer y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl arfaethedig i rai sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, o gofio cymhlethdod yr angen sy'n debygol o godi, a pha mor fyr yw cynlluniau peilot, bydd angen ymdrechion i ddeall yr effaith ar gyn-filwyr a'u teuluoedd o ddatblygu ac yna cyflwyno'r gwasanaeth hirdymor fydd ar gael. Yn ôl elusennau, mae'r effaith ar gleifion cronig yn gwaethygu wrth i heriau Covid-19 barhau a bydd angen ystyried hyn wrth i'r gwasanaeth ddatblygu.

Mae'r Adroddiad hefyd yn cyfeirio at brosiectau eraill i wella'r cymorth i gyn-filwyr gyda salwch meddwl ond mae angen metrigau a thargedau clir i ddangos y canlyniadau. Bydd metrigau gwell hefyd yn hwyluso adnabod unrhyw fylchau posib. Ar sail data'r Adroddiad, mae amseroedd aros TILS a CTS hyd at fis Mawrth 2020 yn parhau i syrthio'n brin o'r targedau gydag amseroedd aros y Gwasanaeth Triniaeth Gymhleth yn sylweddol waeth, ac nid yw sicrwydd o adnoddau ychwanegol i gywiro hyn wedi arwain at unrhyw welliant amlwg eto. Yng ngoleuni hyn, gwyddom hefyd fod rhai cyn-filwyr a anafwyd wedi cael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog cyn derbyn asesiad llawn o'u hanghenion iechyd meddwl, na diagnosis ffurfiol. Mae angen i hyn newid a bydd angen gweithredu i sicrhau bod personél yn cyflwyno eu hunain a bod gan rai sydd angen cymorth iechyd meddwl penodol arnynt ddigon o gyfle i'w dderbyn cyn cael eu rhyddhau.

Hunan-laddiad. Mae'r deunydd ar gyfathrebu sut i leihau hunan-laddiad i'w groesawu, ynghyd ag ystod o gynlluniau peilot rhanbarthol yn edrych ar Gudd-wyllo Mewn Amser (Bron) Real achosion o hunan-laddiad / ceisio hunan-laddiad. Ynghyd â'r estyniad i'r astudiaeth 'arhydol' o gyn-filwyr gan Goleg Kings a'i ehangu i gynnwys diweddarau parhaus er mwyn gallu monitro hunan-laddiadau mewn amser real, mae'r prosiectau hyn yn arwydd o gynnydd. Fodd bynnag arhoswn yn bryderus y gellid gwneud mwy i wella'r data ar hunan-laddiad cyn-filwyr, gan gynnwys drwy gasglu data priodol gan Grwneriaid, fel y gallwn ddeall y grwpiau 'mewn perygl' yn well ac, ar sail hynny, darparu cymorth pellach drwy dargedu ymyriadau'n well.

DMRC Stanford Hall. Yn 2019 roeddem yn falch o glywed y byddai astudiaeth gwmpasu'n cael ei gwneud i ystyried ehangu mynediad at DMRC i gyn-filwyr ag anafiadau milwrol sy'n bodloni amodau gweithdrefn atgyfeirio'r Clinig Asesu Prostheteg Cymhleth (CPAC). Er yn deall bod y pandemig wedi newid blaenoriaethau, pwysleisiwn fod angen ceisio datrys hyn yn ddioed ac ehangu mynediad lle bo hynny'n briodol i gyn-filwyr ag anafiadau ac anghenion adsefydlu cymhleth parhaus. Gallai ehangu'r mynediad hwn hefyd effeithio ar y cohort o gyn-filwyr a gollodd fraich neu goes ac sydd ond yn derbyn peth ffisiotherapi ôl-lawdriniaeth ar hyn o bryd (er enghraifft, lle cawsant lawdriniaeth i atgyweirio'r aelod gweddilliol); gyda sesiynau'n para ond am gyfnod ac oedi cyn derbyn adsefydlu, ac effaith hyn o ganlyniad ar eu hiechyd a'u lles. Gallai dull holistig o adsefydlu, wedi'i ddarparu yn DMRC ac yn lleol mewn Canolfannau Aelodau Artiffisial gan ffisiotherapyddion profiadol mewn cynorthwyo trychedigion, gael effaith go iawn. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r gweithgor a sefydlwyd i adolygu opsiynau ar y ffordd ymlaen.

Mesothelioma. Tynnodd astudiaeth ddiweddar iawn gan yr elusen Mesothelioma UK (yr Astudiaeth Profiadau Mesothelioma Milwrol – MiMES) sylw at effaith asbestos ar gyn-filwyr ac y gallai rhai a gafodd ddiagnosis o'r afiechyd fod dan anfantais ariannol o'i gymharu â phobl eraill yn y gymuned sy'n cael yr un diagnosis, o ran derbyn iawndal. Daw'r astudiaeth i'r casgliad, ymhlith pethau eraill, fod taliadau iawndal i'r lluoedd arfog wedi eu capio ac nad ydynt yn ystyried oed, amcan-golled a dibynyddion fel gyda iawndal i ddinasyddion sifil. Ni ellir ychwaith hawlio iawndal i'r lluoedd arfog ar ôl marwolaeth. Gofynnwn fod yr anfantais hyn yn cael eu hadolygu a chael sylw blaenoriaeth.

Adran 5 - Llety

Yr Ymgyrch Dim Cyn-Filwyr Digartref. Nid yw'r adroddiad ychwaith yn sôn am yr heriau a wynebir gan ddarparwyr tai cymorth na'r problemau cymhleth o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd. Er nad yw nifer y cyn-filwyr sy'n cysgu ar y stryd, yn ystadegol, yn anghymesur â'r nifer yn y boblogaeth yn gyffredinol, mae cymhlethdod y problemau gan gyn-filwyr yn haeddu sylw ac atebion pellach.

Grantiau Cyfleusterau Anabl Awdurdod Lleol Mae sgôp o hyd i ddarparu mwy o Grantiau Cyfleusterau Anabl awdurdodau lleol a hynny'n fwy amserol. Ar hyn o bryd gall gymryd blynyddoedd i weithredu'r grantiau hyn, sy'n rhy hir ynddo'i hun, ond i gyn-filwyr oedranus gall olygu bod rhai'n marw cyn gweld gweithredu'r addasiadau tai sydd ei angen arnynt.

Adran 6 – Cwestau ac Ymgysylltu Barnwrol
Siambr Pensiynau Rhyfel ac Iawndal y Lluoedd Arfog (WPAFCC). Yn ein sylwadau'r llynedd, nodwyd fod y WPAFCC yn methu'n gyson â chwedd â'i dangosyddion KPI. Mae'r rhai sy'n dod gerbron y Tribiwnlysoedd, ym mhob un o'r pedair gwlad, ymhlith yr aelodau mwyaf bregus o'r Lluoedd Arfog ac yn haeddu gwasanaeth prydol ac effeithlon. Ar ôl i'r gwasanaeth wella ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r sefyllfa wedi llithro'n ôl. Y rhesymau yw cyfuniad o waith achos anghyflawn, diffyg cymorth a dim digon o adnoddau staff. Dywedasant y llynedd fod camau cywiro'n cael eu cymryd gan y gwledydd datganoledig, Veterans UK a sector Elusennau'r Lluoedd. Flwyddyn ers hynny, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn annerbyniol a phwyswn am fwy o gyd-ymdrech. Ers pedair blynedd bellach rydym hefyd wedi pwysu am ddarparu 'Apelio Uniongyrchol'. Mae rhai sy'n apelio i'r WPAFCC yn gwneud hynny drwy sefydliad yr ymatebydd, h.y. yr MOD. Ym mhob maes arall (e.e. cyflogaeth), gellir apelio'n uniongyrchol i'r Tribiwnlys perthnasol. Mae diffyg apelio uniongyrchol yn achosi oedi ac yn rhoi'r argraff nad yw'r WPAFCC yn annibynnol. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi llwyddo i gyflwyno Apelio Uniongyrchol ond aeth blwyddyn arall heibio heb gynydd yng Nghymru a Lloegr. Pwyswn yn gryf iawn ar y llywodraeth i roi blaenoriaeth ddeddfwriaethol i hyn.

Cwestau Etifeddol Gogledd Iwerddon. Mae'r rhaglen 43 o gwestau a ohirwyd neu'n aros i'w gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, ac ymchwiliad PCNI i'r oddeutu 1,200 o farwolaethau o ganlyniad i'r helyntion, wedi arwain at gynydd chwim yn nifer yr ymchwiliadau a gynhelir ar yr un pryd; llawer yn ymwneud â chyn-filwyr. Rydym yn croesawu'r strwythurau gwell i gynorthwyo cyn-filwyr, fel penodi Swyddogion Ymweld â Chyn-filwyr, oherwydd mae'r Fyddin a'r DJEP yn gallu deall gofynion y crwner yn well a rhoi mesurau pellach yn eu lle i ateb anghenion cyn-filwyr. Fodd bynnag, arhoswn yn bryderus, er y trafodaethau presennol, fod tri mater penodol yn parhau i fod heb eu datrys yn foddhaol: cyllid – sy'n cael ei gwrdd ar hyn o bryd gan elusennau catrodolcurrently by regimental charities – to ensure additional veteran welfare and – i sicrhau bod lles a

chymorth bugeiliol ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd mewn gweithgarwch ar gael i gyn-filwyr, gan gynnwys bod angen pontio'r bwlch rhwng darpariaeth statudol a'r anghenion taer sydd gaen rai â salwch meddwl; mae angen goresgyn y cyfyngiadau ar rannu data rhwng asiantaethau i sicrhau na effeithir yn ddiangen ar effeithiolrwydd y systemau cymorth newydd; ac mae angen gwaith pellach i ddatblygu cynllun cyfathrebu effeithiol a chydlynus fel bo'r gymuned cyn-filwyr yn llwyr ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, a rôl Veterans UK fel asiantaeth fwyaf blaenllaw'r llywodraeth.

Adran 8 – Cymorth Pontio a Gydol Oes Pontio Holistig. Rydym yn croesawu cyhoeddi'r 'Polisi Pontio Holistig Amddiffyn' (JSP100) ond caredu dynnu sylw at y diffyg ffocws i'r broses rhyddhau ar seiliau meddygol, ac i rai sy'n gadael y gwasanaeth oherwydd anaf neu salwch. Nid oes sôn am y broses rhyddhau ar seiliau meddygol er bod bylchau sylweddol yn y cymorth presennol, a dim atebion i'r heriau a wynebwr gan gyn-filwyr sâl neu wedi eu hanafu neu glwyfo i ddelio â phrosesau meddygol ac ariannol gor-gymhleth.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr OVA a'r MOD i ymgysylltu â chyn-filwyr lleiafrifol i geisio atebion i'w problemau. Er hynny, mae'r adroddiad yn dawl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar adeg pan fo'r materion hyn yn llygad y cyhoedd mwy nag erioed. A hithau'n 20 mlynedd ers codi'r gwaharddiad ar wasanaeth gan bersonél LGBT+, mae sefydlu'r elusen newydd Fighting with Pride (FWP) wedi'i groesawu'n gynnes ar draws sector Elusennau'r Lluoedd. Ar yr un pryd, mae'r ymgyrch Black Lives Matter wedi taflu golau newydd ar faterion BAME ac eleni mae Cobseo wedi creu grŵp clwstwr o gyn-filwreded sy'n dod ag ystod eang o elusennau, staff academiaidd a chynrychiolaeth o OVA a'r MOD at ei gilydd i dynnu sylw at faterion sy'n neilltuol i gyn-filwreded a cheisio gwella'r cymorth iddynt, nid lleiaf ar iechyd meddwl; gyda chymorth ariannol gan NHS England ar gyfer astudiaeth gwmpasu ymchwil, sydd wedi dechrau.

Un o nodweddion unigryw'r 'gwaharddiad' LGBT+ oedd bod cenedlaethau cyfan o gyn-filwyr LGBT+ wedi eu heffeithio gan galedi, ynysu ac unigrwydd byw bywydau cudd, a'r canlyniadau a ddaeth o gael eu darganfod. I lawer, mae effaith cael eu diswyddo, neu gael eu gorfodi i ddiswyddo, yn parhau. Mae Cobseo ac elusennau blaenllaw, gan gynnwys SSAFA, wedi ymrwmo i gefnogi gwaith i roi sylw i diversity, equality and inclusion are explicitly supported, and that effaith

barhaus anghyfiawnder hanesyddol ar iechyd a lles cyn-filwyr a sicrhau bod amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu cefnogi'n benodol a bod anfantais, lle mae'n dal i fodoli, yn cael ei dileu.

Cymorth i Gyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol. Rydym yn croesawu dwy raglen beilot arloesol sydd yn yr Adroddiad: Rhaglen HMPPS i greu Hÿb Cyn-filwyr yng Ngharchar Holme House, a Rhaglen Regroup y GIG sy'n darparu llwybr i gynorthwyo cyn-filwyr o gael eu harestio gan yr heddlu i gael eu goruchwyllo gan y gwasanaeth prawf. Mae angen cymorth ar gyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol nid lleiaf oherwydd bod cyn-filwyr weithiau'n gyndyn o ddatgelu eu gwasanaeth milwrol neu o dderbyn y cymorth a roddir i sifiliaid gan deimlo na fydd pobl yn deall eu profiad bywyd. Mae hyn yn eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â sifiliaid a golygu nad oes cymorth iddynt mewn gwirionedd. Mae'r cymorth a roddir i gyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol yn lleihau aiddroeddu a gwella bywydau teuluoedd cyn-filwyr a'u cymunedau. Edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau peilot hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Adran 9 – Busnes a'r Gymuned Ymgysylltu. Mae Strategaeth ein Cyn-filwyr wedi adnabod, os yw gwasanaethau effeithiol i'w darparu i gyn-filwyr, bod angen i'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol weithio gyda'i gilydd. Mae sefydlu Hÿb Cyfathrebu DRM / Cobseo, a'i phresenoldeb ar wefan yr MOD, wedi bod yn gam tuag at wella llif y wybodaeth rhwng elusennau, y gymuned fusnes a'r llywodraeth ond mae cryn waith ar ôl i'w wneud i bontio'r bwlch rhwng elusennau a busnesau a sicrhau bod y sector preifat yn deall rôl sector Elusennau'r Lluoedd. Mae datblygu'r dudalen we'n gam da er mwyn cael y cynnwys i gyd mewn un lle, ond mae angen hyrwyddo a mesurau allanol pellach i sicrhau bod gymaint o fusnesau â phosib yn ymwybodol o fanteision cyflogi cyn-filwyr.

Hunan-gyflogaeth. Yn 2017 newidiwyd Canllawiau'r Cyfamod i fusnesau i gynnwys canllawiau ar sut y gall busnesau gynorthwyo cyn-filwyr, eu partneriaid neu filwyr wrth gefn i fod yn hunan-gyflogedig neu'n berchen ar fusnes. Dim ond un cyfeiriad sydd yn yr adroddiad at hunan-gyflogaeth neu fod yn berchen ar fusnes a dim o gwbl at beth y mae busnesau a lofnododd y Cyfamod yn ei wneud i ddilyn y canllawiau a chynorthwyo'r sector twf hwn. O ystyried effaith y pandemig ar gyflogaeth, a'r tebygolrwydd y bydd oversight which needs to be addressed. I lawer mwy o gyn-filwyr wedi gorfod ystyried hunan-gyflogaeth fel gyrfa hyfyw, mae hyn yn esgeulustod sydd angen rhoi sylw iddo.

Casgliad

Mae cyfnod adroddiad blynyddol y Cyfamod am eleni wedi bod yn eithriadol. Yn ddealladwy oherwydd blaenoriaeth y pandemig, ychydig iawn o gapasiti sydd ar ôl i ddelio â busnes arall y llywodraeth ac felly mae llawer o'n sylwadau wedi eu hailadrodd o adroddiad 2019. Os ydym am symud ymlaen yn ystyrlon dros y 12 mis nesaf, bydd angen mwy o weithredu gan bob rhan o lywodraeth, ac yn enwedig gan Swyddfa'r Cabinet, drwy'r MCVB a'r CRG. Mae sector Elusennau'r Lluoedd yn cyfrannu'n helaeth i ddarparu'r Cyfamod a Strategaeth ein Cyn-filwyr ond mae maint y cyfraniad hwnnw yn y fantol oherwydd y pandemig. Os gwelwn leihad fel yr ofnir mewn gwasanaethau elusennol, bydd yn effeithio'n sylweddol ar ein cyn-filwyr mwyaf bregus. I ddarparu'r Cyfamod yn effeithiol, rhaid i'r llywodraeth naill ai gwrdd â'r gofynion yn llawn ei hun neu helpu sector Elusennau'r Lluoedd i gynnal lefel y ddarpariaeth bresennol.

Sylwadau'r Llang Brydeinig Frenhinol

Rhagarweiniad

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol yn croesawu Adroddiad Blyneddol y Cyfamod ar gyfer eleni a'r diweddariadau ynddo. Rydym yn cydnabod bod pwysau Covid-19 wedi effeithio'n aruthrol ar gyfran helaeth o'r cyfnod adrodd dan sylw ynghyd ag effaith hyn ar gynlluniau i gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog. Wedi dweud hynny, rydym yn falch o groesawu'r cynnydd sylweddol a wnaed mewn rhai meysydd pwysig y tynnodd y Llang sylw atynt mewn adroddiadau blaenorol ac eraill.

Yn gyntaf oll yw'r cytundeb gan lywodraethau a Senedd-dai i gynnwys cwestiwn ar statws cyn-filwyr yn y Cyfrifiad nesaf. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth o'r boblogaeth gyn-filwyr yn sylweddol, a sut orau i'w cynorthwyo, ac rydym yn ddiolchgar am gymorth pawb a gyfrannodd at y newid trobyntiol hwn. Ein hunig siom oedd y penderfyniad i beidio â chynnwys y cwestiwn yng Ngogledd Iwerddon. Nodwn hefyd bryder rhanddeiliaid yn Yr Alban fod y Cyfrifiad wedi'i ohirio yno am flwyddyn.

Llywodraethu

Rydym yn croesawu gwaith y Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn cadw ffocws ar faterion sy'n effeithio ar y Lluoedd Arfog a gwrthio gwaith ymlaen ar draws llywodraeth. Rydym yn siomedig bod Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod ond wedi cwrdd ddwywaith ers Gorffennaf 2019 ac nad oes ganddynt rag-amserlen gyfarfodydd, a hefyd gyda pha mor brin fu cyfarfodydd y Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol a'r cyfarfodydd ffurfiol cysylltiedig rhwng Gweinidogion a phartneriaid elusennol ers 2018. Er bod Covid-19 heb os wedi cael effaith, gobeithio y rhoddir sylw ar fyrder i'r diffyg cyfle ffurfiol i sicrhau atebolrwydd ac adborth.

Mae ymrwymiad y llywodraeth i ymgorffori'r Cyfamod mewn deddfwriaeth bellach yn un sydd â'r potensial i arwain at newidiadau mawr i weithrediad ac effaith y Cyfamod. Arhoswn yn eiddgar am y cynigion a byddwn yn awyddus i sicrhau bod popeth a gyflawnodd y Cyfamod ym mhob maes polisi'n cael ei warchod a'i ehangu drwy'r ddeddfwriaeth.

Gofal iechyd

Yn ystod eleni cawsom gyfle i fod yn rhan o weithgor gyda'r llywodraeth a'r GIG ar driniaeth flaenoriaeth. Rydym yn parhau i fod â phryderon am y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yr anghysondeb a'r

methiant i fesur gweithrediad ynghyd â diffyg eglurder ynghylch sut y mae'r llywodraeth, clinigwyr a'r GIG yn dehongli'r polisi. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad parhaus i fonitro a gwella hyn; fodd bynnag, nodwn y daw Atodiad yr adroddiad i gasgliad fod hwn yn bwnc 'wedi'i gwblhau / a ddaeth i ben' – statws yr anghytunwn â fo gan fod ansicrwydd ac amrywiadau o ran ei weithrediad yn parhau. Nodwn hefyd, gyda phryder parhaus, y diffyg darparu ar yr ymrwymiad hirsefydlog i wella'r broses o drosglwyddo cofnodion meddygol, prosiect sydd bellach flynyddoedd ar ei hôl hi.

Roedd adroddiad 2018 yn cynnwys ymrwymiad y byddai'r DHSC, Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac NHS England yn codi ymwybyddiaeth y Cyfamod o wasanaethau camddefnyddio alcohol i gyn-filwyr a bwydo mewn i Strategaeth Alcohol y llywodraeth. Poenwn yr ymddengys nad oes sôn bron o gwbl am alcohol yn yr adroddiad a byddem yn croesawu diweddariad a chynnydd ar yr addewid hwn.

Fel i ni nodi'r llynedd, mae'n bryd cyflawni Adolygiad Pum-Mlyneddol o Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog. Edrychwn ymlaen at gadarnhad y bydd hwn ar waith cyn gynted â phosib ac at ymgysylltu'n gynnar arno.

Addysg

Rydym yn croesawu'r cymorth parhaus a roddir i ysgolion drwy ymestyn y Gronfa Cymorth Addysg, a Chronfa Gymorth Plant Lluoedd Arfog Cymru. Ar y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog (SPP), carem ei weld yn cael ei ymestyn i'r blyneddodol cynnar a disgyblion 16-18 oed fel bo'r cyfnodau addysg hollbwysig hyn hefyd yn elwa.

Llety

Mae trafferthion partneriaid i bersonél milwrol sydd wedi gwahanu ac ysgaru gyda derbyn tai cymdeithasol yn fater a godwyd gyntaf yn 2016 felly roeddem wrth ein bodd o weld hyn yn cael sylw yn Lloegr eleni drwy'r canllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol. Byddem nawr yn pwysu'n daer ar weld hyn yn digwydd yng ngweddill y DU er mwyn sicrhau cysondeb i gymuned y Lluoedd Arfog ble bynnag y maen nhw ac nad yw'r anfantais a gafodd ei chydabod drwy fod angen cyflwyno canllawiau newydd yn parhau y tu allan i Loegr.

Cwestau ac ymgysylltu barnwrol

Yn adroddiad blyneddol y llynedd, roeddem wedi nodi pryderon am gynigion y llywodraeth i gyflwyno terfyn amser newydd o ran pryd y gallai cymuned y Lluoedd Arfog ddod â hawliau sifil yn erbyn yr MOD. Er yn croesawu bwriad y Bil Gweithrediadau Tramor (Personél Milwrol a Chyn-filwyr), ailadroddwn ein pryderon am hyn a bod angen osgoi torri unrhyw ran o'r Cyfamod, yn ystod ei daith drwy'r Senedd.

Bywyd teuluol

Roedd yr adroddiad 'Living in Our Shoes' ar anghenion teuluoedd y Lluoedd Arfog yn rhoi trosolwg cynhwysfawr ar lawer o'r pethau sy'n poeni teuluoedd, gan gynnwys nifer o bynciau a godwyd gan bartneriaid allanol mewn Adroddiadau Blyneddol blaenorol. Edrychwn ymlaen at weld ymateb y llywodraeth ac at gyhoeddi cynllun ac amserlen ar gyfer gweithredu ei argymhellion.

Eleni unwaith eto, mae unigrwydd ac ynysu wedi dod i'r amlwg oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Roedd hyn wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth Cyn-filwyr ond nid yw yn y diweddariad ar gynnydd y strategaeth yn yr adroddiad felly gobeithiwn y caiff flaenoriaeth uchel wrth symud ymlaen â'r cynllun. Felly hefyd, er yn croesawu cynnwys cwestiynau ar unigrwydd ac ynysu yn Arolwg Agweddau Parhaus Teuluoedd Milwrol 2019, carem er hynny weld data cymharol yn cael ei gasglu drwy'r Arolygon Agweddau Parhaus eraill.

Cymorth pontio a chymorth gydol oes

Roeddem yn croesawu'r Polisi Pontio Holistig Amddiffyn a'r camau a gymerwyd i wella'r broses bontio. Rydym yn parhau i ddweud y dylid diystyru profion modd ar iawndal milwrol er mwyn gallu derbyn

gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, fel sy'n digwydd yng ngweddill y DU ers 2017.

Nodwn y bydd iawndal milwrol yn cael ei ddiystyru o dan Gredyd Cynhwysol (UC), ond o gofio na fwriedir gweithredu UC yn llawn tan 2024, yn y cyfamser carem weld hyn yn cael ei ddiystyru'n llawn ar gyfer Pensiynwyr Rhyfel sy'n hawlio Lwfans Cymorth Gwaith. Carem hefyd weld datrys pob anghysondeb diystyru iawndal arall er mwyn sicrhau nad yw'r arian hwn byth yn cael ei drin fel incwm arferol.

Mae'r Llang ac eraill wedi parhau i ymgyrchu dros ddileu'r ffioedd fisa ar gyfer Caniatâd Amhenodol i Aros sy'n ofynnol i'w talu gan bersonél milwrol a theuluoedd o'r tu allan i'r DU sydd am aros yn y wlad lle'r oeddent yn gwasanaethu ar ôl gadael y Lluoedd. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol eang i'r cynnig hwn ac rydym yn croesawu bod yr adroddiad yn cydnabod yr anfantais hon yn benodol, a hefyd y trafodaethau gyda ac oddi mewn i'r llywodraeth ar y mater. Er hynny, mae'r mater wedi'i godi'n gyson yn Adroddiadau Blyneddol y Cyfamod ers 2016 a phob blwyddyn mae rhai a wasanaethodd ein gwlad yn wynebu talu ffioedd uchel a mynd i ddyled. Mae natur y mater hwn bellach yn ddigon hysbys a chydabyddedig felly carem ei weld yn cael ei ddatrys heb oedi pellach.

Rydym yn poeni nad oes diweddariad, unwaith eto, yn yr adroddiad ar argymhellion Adolygiad Phillips ar gyn-filwyr a'r system cyfiawnder troseddol.

Busnes a'r gymuned

Effeithiodd yr ansicrwydd oherwydd Covid-19 ar bob rhan o economi'r DU ac, yn anochel, ar gyn-filwyr a'u teuluoedd. Gwelodd y Lleng gynnydd yn y nifer sy'n gofyn am gymorth ariannol brys. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen mesurau i sicrhau bod cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn dod o hyd i gyflogaeth a'i chadw. Rydym felly'n croesawu, fel y mae'r adroddiad yn ei ddisgrifio, y cynnydd mewn cymorth gan sefydliadau a lofnododd y Cyfamod.

Fodd bynnag, dim ond un o'r ffyrdd y gall sefydliadau a lofnododd y Cyfamod gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog yw cymorth gyda chyflogaeth. Byddem yn croesawu ehangu mwy ar fesurau effeithiolrwydd i gynnwys cofnodi ac annog cynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog gan sefydliadau fel darparwyr gwasanaeth, yn ogystal â thrwy eu rôl fel cyflogwyr.

Effeithiodd Covid-19 ar gymuned y Lluoedd Arfog mewn nifer o wahanol ffyrdd. Ar yr un llaw chwaraeodd y Lluoedd rôl allweddol yn yr ymdrech genedlaethol, naill ai drwy weithredu, gwaith lles neu wirfoddoli yn ystod y pandemig. Ar y llaw arall, mae proffil oed y gymuned yn ei gwneud yn arbennig o fregus i'r clefyd hwn, gyda thua un o bob chwech o rai dros 70 oed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Gwelodd eleni gryn bwysau ar wasanaethau cyhoeddus ond hefyd ar sector Elusennau'r Lluoedd, ac efallai y bydd angen edrych eto yn y blynyddoedd nesaf ar y model darparu ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog ac addewidion y Cyfamod. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn barod i weithio â'i holl bartneriaid i sicrhau y gellir gweithredu'r addewidion hynny.

PENNOD 1 - LLYWODRAETHU

Llywodraethu ar draws y DU

Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n gydlynus i ateb anghenion cymuned y Lluoedd Arfog, gyda'r MOD a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn gweithio'n agos ag adrannau'r Llywodraeth, y gwledydd datganoledig a'r sector elusennau.

Bydd y Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol (MCVB) yn ail-ymgynnull i fwrw trosolwg ar agenda'r Cyfamod a Chyn-filwyr a bydd yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd. Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod, o hyd, yw'r cyfarfod ar lefel uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau llywodraethu da o'r Cyfamod. Mae'n eistedd wrth galon y llywodraeth i hwyluso, monitro ac adrodd ar y gwaith a wneir gan y Llywodraeth i gyflawni ymrwymadau'r Cyfamod, er mwyn gwella canlyniadau bywyd cymuned y Lluoedd Arfog. Ar lefel weithio, mae amrywiol grwpiau sy'n sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau i gymuned y Lluoedd Arfog wedi eu cynrychioli ar ochr llywodraethu'r Cyfamod.

Y flwyddyn nesaf bwriadwn achub ar y cyfle, yn dilyn sefydlu'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i wreiddio'r Cyfamod mwyfwy mewn deddfwriaeth, i adolygu sut y llywodraethir y Cyfamod er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol.

Llywodraethu yn Yr Alban

Mae gan Lywodraeth Yr Alban Weinidog Cyn-filwyr dynodedig sy'n atebol i Senedd Yr Alban a bu'n rhoi diweddariad blynyddol i'r Senedd ers 2017, ar argymhelliad Comisiynydd Cyn-filwyr Yr Alban. Mae'r diweddariad yn cynnwys cyhoeddi adroddiad yn disgrifio'r cymorth a roddir i gymuned y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ar draws Yr Alban.

Yr Alban oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Cyn-filwyr. Mae rôl annibynnol ac anstatudol y Comisiynydd Cyn-filwyr bellach wedi gwreiddio'n ddwfn ac ym Mehefin 2020 cyhoeddodd asesiad 'cryno' o'r cynnydd a wnaed ar weithredu 63 argymhelliad y comisiynydd blaenorol. Bydd adroddiad cynnydd pellach mwy manwl i ddod cyn diwedd 2020.

Yn Nhachwedd 2019 cyhoeddodd y comisiynydd bapur 'cefnidir' ar bontio gan fwriadu cyhoeddi papur cyflogaeth, sgiliau a dysgu erbyn gwanwyn 2020. Bydd nawr yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Mae Llywodraeth Yr Alban yn rhan o Grŵp Cydlynu Strategaeth Cyn-filwyr y DU. Drwy'r Grŵp hwn mae Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig yn gallu cydlynu darparu Strategaeth ein Cyn-filwyr ar draws y DU.

Llywodraethu yng Nghymru


Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith yn ei le i annog cydweithredu, adnabod materion o bwys a rhannu ymarfer gorau yng Nghymru, gan sicrhau cysylltiadau agos â Llywodraeth y DU a phartneriaid. Yng Nghymru, mae fforymau milwrol lleol a rhanbarthol yn rhoi ffocws mewn cymunedau i gynorthwyo asiantaethau i ddarparu ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. Cefnogir y rhain yn agos gan Swyddogion Cyswllt a Phencampwyr y Lluoedd Arfog.

Ar lefel Cymru gyfan, mae Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn gyfrifol am drosolwg a lleisio barn strategol ar ran cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Brigâd 160 (Cymru), Ffederasiynau'r Teuluoedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), elusennau ac asiantaethau statudol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cynhadledd

flynyddol i roi cyfle i ddarparwyr rannu ymarfer gorau. Mae fforymau pwysig eraill yn cynnwys rhwydwaith CLILC y Lluoedd Arfog lle mae pencampwyr awdurdod lleol yn trafod datblygiadau a materion o bwys a'u rhannu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol. Ynghyd â'r cyfarfod Pencampwyr Byrddau Iechyd Lleol a chyfarfod Elusennau Cymru Gyfan, sy'n fforwm ar-y-cyd i'r sector elusennau gael trafod blaenoriaethau gweithredol a strategol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu a darparu'r Cyfamod ar draws y DU drwy fynychu Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod, Grŵp Darparu'r Cyfamod a chyfarfod y Gwledydd Datganoledig. Parheir i ymgysylltu â'r OVA ar y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr drwy gyfarfodydd a chydweithrediad rheolaidd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynorthwyo proses Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod.

Llywodraethu gan Lywodraeth Cymru



Mae Llywodraeth Cymru yn rhan o Grŵp Cydlynu Strategaeth Cyn-filwyr y DU lle mae llywodraethau Cymru, Yr Alban a'r DU yn cydlynu darparu Strategaeth ein Cyn-filwyr ar draws y DU.

Cyd-destun a llywodraethu yng Ngogledd Iwerddon

Mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gryfhau ei threfniadau llwyddiannus i sicrhau y gweithredir y Cyfamod. Mae Brigâd (Wyddelig) Pencadlys 38 yn goruchwylio anghenion personél milwrol a'u teuluoedd. Mae RFCA Gogledd Iwerddon a'r Swyddfa Cymorth i Gyn-filwyr (VSO) yn goruchwylio'r agweddau eraill ar gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae Comisiynydd Cyn-filwyr ar gyfer Gogledd Iwerddon bellach wedi'i benodi, gan gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU yn y cytundeb New Decade, New Approach. Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU hefyd wedi talu am ddwy swydd arall i'r VSO. Mae'r VSO yn delio â rhwng 4-5 o achosion newydd y mis ac eleni wedi cynnwys achos cyfreithiol cymhleth o gymuned cyn-filwyr y Gymanwlad a Thramor yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Comisiynydd a'i ysgrifenyddiaeth yn anstatudol ond mae'r VSO yn gorff statudol. Fodd bynnag bydd y ddau'n gweithio ochr yn ochr, gyda'r Comisiynydd yn monitro, hyrwyddo ac eiriol dros fuddiannau cyn-filwyr, a'r VSO yn parhau i gydlynu darparu gwasanaethau cymorth.

PENNOD 2 – GWAITH YMDDIRIEDOLAETH CRONFA'R CYFAMOD

Mae Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod yn cynorthwyo Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddarparu rhaglenni cyllid sy'n creu newid go iawn i gymunedau'r Lluoedd Arfog yn y DU. Mae'n gofalu am £10m blynyddol Cronfa'r Cyfamod ac yn dosbarthu cyllid ychwanegol gan Drysorlys EM i gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog drwy'r Gronfa Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr a'r £3m sy'n cael ei ddyfarnu gan Drysorlys EM i ganolfannau cymunedol cyn-filwyr.

Cronfa'r Cyfamod

Defnyddiwyd cyllid Cronfa'r Cyfamod i ariannu prosiectau lleol sy'n cynorthwyo cymunedau'r Lluoedd Arfog drwy raglen Grantiau Lleol Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r rhaglen wedi bod yn rhedeg ers 2015 gan ddyfarnu £11.6m i brosiectau lleol. Er mwyn goleuo rhaglen grantiau ar gyfer y dyfodol, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymarfer ymgynghori agored gan gyhoeddi'r canlyniadau ym mis Mai.2 I gyd, derbyniwyd 265 ymateb gan unigolion a sefydliadau, y rhan fwyaf gan unigolion o gymuned y Lluoedd Arfog neu sefydliadau lleol. Roedd 91% o'r rhai wnaeth ymateb yn cytuno bod ynysu cymdeithasol yn fater allweddol i'w ddatrys wrth roi grantiau yn y dyfodol. Iechyd meddwl, y ffaith bod gan gyn-filwyr risg uwch o fod yn ynysig, a chymorth i deuluoedd y Lluoedd Arfog, oedd y tri phrif fater ym marn ymatebwyr, a bod angen cymorth yn enwedig ar gyn-filwyr o bob oed a'u gofalwyr, ac ar deuluoedd y Lluoedd gan gynnwys plant y Lluoedd Arfog.

O ran rhaglenni ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, bydd Cronfa'r Cyfamod yn gwneud grantiau bach a chanolig i leihau ynysu yng nghymuned y Lluoedd Arfog ac yn rhoi cymorth i brosiectau canolig drwy sefydliadau mentora i wella cynaliadwyedd a chydweithredu. Bydd rhaglenni Cronfa'r Cyfamod hefyd yn cynorthwyo cymunedau'r Lluoedd Arfog a wynebodd heriau oherwydd Covid-19.

Rhoddwyd grantiau sylweddol i brosiectau sy'n cynorthwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog drwy'r rhaglen Removing Barriers to Family Life. Ym mis Chwefror, dyfarnwyd £7.2m i 60 prosiect ar draws y DU sy'n cynorthwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog, gan gynnwys teuluoedd personél mewn gwasanaeth, pobl ifanc a theuluoedd cyn-filwyr a rhai gyda chyfrifoldebau gofal. Cefnogwyd ystod o brosiectau, o gynorthwyo cyflogaeth partneriaid a datblygu'r hybiau cyd-weithio sy'n agor yn neu gerllaw amrywiol ganolfannau milwrol, i gynorthwyo'r teuluoedd hynny sy'n pontio allan o'r Lluoedd neu sy'n cael eu gwasgaru drwy ddyfodiad Model Llety'r Dyfodol, a'r gwahanol heriau a ddaw o hynny. Bydd rhai prosiectau'n canolbwyntio mwy ar deuluoedd a gofalwyr cyn-filwyr ac eraill yn cynorthwyo plant a phobl ifanc teuluoedd milwrol, gan roi sylw i anghenion unigryw'r oedranau hyn a chryfhau gwydnwch teuluoedd. Gyda'r grantiau cynharach a wnaed o dan y rhaglen Families in Stress yn 2017 a 2018, mae £11.8m wedi'i ddyfarnu i brosiectau sy'n cynorthwyo teuluoedd y Lluoedd Arfog drwy raglenni strategol targed. Mae cyllid yr Ymddiriedolaeth i deuluoedd, drwy'r ddwy raglen hon, yn cael ei werthuso gan y Gyfarwyddiaeth Newid Cymdeithasol (DSC) ac i'w gyhoeddi erbyn haf 2021.

Cronfa Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr Yng Nghyllideb 2018, dyfarnodd y Canghellor £10m i'r Ymddiriedolaeth i gefnogi prosiectau sy'n gwella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr. Ym mis Mawrth 2020 dyfarnwyd £10m arall i'r Gronfa Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr

Fel rhan o'r Gronfa Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr wedi'i hariannu gan y Trysorlys, yn 2019 lanswyd y rhaglen Positive Pathways. Hyd yma dyfarnwyd dros £7.5m, i gyd er mwyn gwella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr. Ym mlwyddyn ariannol 2019/20, ariannodd y rhaglen 114 o brosiectau drwy'r DU, gyda chymysgedd o weithgareddau'n amrywio o hwylio i eco-therapi, o gadwraeth i wnïo a llawer wedi eu dyfeisio i gynnwys cyn-filwyr yn y camau cynllunio a darparu. Bydd y rhaglen yn parhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Ar y cyd â'r cymorth ariannol a ddaw gyda grant, gall pob prosiect sy'n derbyn grant hefyd dderbyn cymorth a mentora pellach drwy'r partneriaid strategol. Grŵp o sefydliadau profiadol yw'r rhain a gafodd gyllid i gynorthwyo'r rhaglen hon yn benodol ar sail cyfoeth eu profiad a'u gwybodaeth o'r sector.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur effaith y grantiau. Gyda'r rhaglen Positive Pathways, defnyddiwyd dull

ar-lein newydd o asesu effaith grantiau drwy fesur gwelliannau i les cyn-filwyr. Mae'r dull yn cael ei gyflwyno ar draws mwy o raglenni'r Ymddiriedolaeth.

Cronfa Canolfannau Cymunedol Cyn-filwyr

Yng Nghyllideb 2018 dyfarnodd y Canghellor £3m ar gyfer adnewyddu a gwelliannau i adeiladau cymunedol a ddefnyddir gan gyn-filwyr, drwy'r rhaglen Canolfannau Cymunedol Cyn-filwyr. Roedd y rhaglen yn gweithio ar sail potyn ariannol arbenigol i ymgeiswyr o elusennau'r Lluoedd gydag adeilad oedd angen ei ailwampio. Roedd arian ar gael i wella toeau, meysydd parcio, toiledau, gwaith trydanol, ffenestri ac i wneud adeiladau'n fwy ynni-effeithlon, i gyd i sicrhau bod yr adeiladau gwerthfawr hyn yn aros yn addas i bwrpas ac yn parhau i gynnig rhywle i gyn-filwyr gael cymdeithasu, cyfrannu at weithgareddau lleol a threchu ynysu neu unigrwydd. Cynigiwyd y grantiau mewn dwy ran – hyd at £30,000, a rhwng £30,000 a £150,000. Gwnaed 67 o grantiau i gyd, gwerth £2.85m, ar gyfer gwaith trwsio, ailwampio ac addasiadau mynediad, a'r rhan fwyaf o'r gwaith i'w cwblhau yn 2020/21.

Cronfa Canolfannau Cymunedol Cyn-filwyr yn Dulwich, Llundain

Derbyniodd Cangen Dulwich o'r Llang Brydeinig Frenhinol £150,000 i greu amgylchedd cyfeillgar i anabledd yn eu canolfan fel bod mwy o bobl yn gallu cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp. Fel y dywedodd Paula Neale o'r gangen:

"Rydyn ni'n gyffrous iawn ac yn gwerthfawrogi'n ofnadwy cael y cyfle i wella'r cyfleusterau i gyn-filwyr sy'n defnyddio ein canolfan; diolch o galon i Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod. Cynigiwn brofiad cymunedol cyfeillgar a chroesawus i gyn-filwyr ac maen nhw'n cael teimlad o berthyn ac yn gallu gofyn i unrhyw un o'r aelodau am gymorth heb deimlo'n annifyr. Nid ffisegol yn unig yw'r gwelliannau. Bydd y goleuadau newydd yn eu helpu i fod yn fwy annibynnol, bydd y llawr newydd yn gwneud iddynt deimlo'n saffach wrth godi i ddawnsio heb fod ofn disgyn, ac mae'r gegin newydd yn golygu y gallwn ddarparu bwyd poeth – efallai'r unig bwyd poeth y byddant yn ei gael. Gall [cyn-filwyr] fwyta a sgwrsio gyda'i gilydd yn lle bwyta ar eu pen eu hunain [gartref]. Mae gennym gyn-filwr D-Day sy'n 95 oed ac sy'n gallu dod i'n cangen a'n clwb i'w gadw'n ifanc, ynghyd â diferyn o'r ddiad gadarn! Mae'n gallu dal i fyny â hen ffrindiau a chyfarfod ein haelodau sy'n cynyddu ei gylch o gyfeillion. Diolch i chi unwaith eto am y cyllid ac am y cyfle anhygoel hwn i wella bywydau pobl."

Ymateb i Covid-19

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r heriau sylweddol yn sgîl Covid-19 drwy roi mwy o amser i enillwyr grantiau gael cwblhau neu addasu eu prosiectau er mwyn gallu eu darparu mewn ffyrdd Covid-19 ddiogel, fel y bo'n briodol.

Ym mis Mawrth, gyda chyllid gan y Gronfa Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr, lansiodd yr Ymddiriedolaeth y rhaglen Veterans Should Not Be Forgotten i roi cymorth ar unwaith i gyn-filwyr bregus yn profi llai o gyswllt cymdeithasol. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos â'r Association of Drop-In Centres, Age UK a Cobseo i sicrhau bod gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'r cyn-filwyr mwyaf bregus gyfle i wneud cais am hyd at £20,000 i gynnig cymorth sydd taer ei angen. Ym mis Mai, dyfarnwyd ychydig dros £2m i 119 o brosiectau.

Ym mis Mai hefyd, yn defnyddio arian Cronfa'r Cyfamod, lanswyd Forces Communities Together. Arian i brosiectau chwe mis yw hwn a allai ddigwydd yn ystod y cyfyngiadau cymdeithasol a chynorthwyo rhai na fedrant gael mynediad at wasanaethau neu nad oes ganddynt lawer o gyswllt dros y cyfnod ynysu. Ym mis Awst rhoddwyd grantiau i 100 o sefydliadau.

Ym mis Mai, lansiodd yr Ymddiriedolaeth y rhaglen COVID Impact fel rhan o'r pecyn cymorth brys sy'n cael ei oruchwylio gan yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Dyfarnodd y rhaglen hon £6m mewn cyllid gan yr MOD, y Swyddfa Materion Cyn-filwyr a'r Trysorlys i gynorthwyo elusennau'r Lluoedd Arfog a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC) sy'n darparu gwasanaethau i gyn-filwyr, teuluoedd y Lluoedd Arfog ac eraill o gymuned y Lluoedd. Ym mis Mehefin, dyfarnwyd cyllid i 102 o elusennau a chwmnïau CIC.

PENNOD 3 – IECHYD A GOFAL IECHYD

Gofal iechyd ar draws y DU

HeadFIT

Yn dilyn partneriaeth gyda'r Sefydliad Brenhinol, mae'r MOD wedi cyd-ddatblygu HeadFIT, gwefan sy'n cynnwys cyfres o adnoddau fideo, sain a thestun i gynorthwyo ffitrwydd meddwl a hybu rheolaeth dda o iechyd meddwl yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, ac i gydnabod y gallai effeithio ar les meddwl rhai unigolion, cafodd cyflwyniad HeadFIT ei gyflymu a lansiwyd y wefan ym mis Mai. Bwriedir gwerthuso'r wefan a chwblhau'r defnydd ohoni cyn diwedd 2020 a bydd yr MOD yna'n adolygu sut orau i ddatblygu HeadFIT i'r dyfodol.

Adolygiad o Adferiad Personél Amddiffyn

Cynhaliwyd yr Adolygiad o Adferiad Personél Amddiffyn rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020 gyda'r nod o ddeall yn fwy holistig pa Lwybrau Adferiad Milwrol sydd ar gael i bersonél sâl neu wedi eu hanafu neu glwyfo, gwerthuso a yw'r llwybrau hynny'n parhau i fod yn addas i bwrpas a gwneud argymhellion ynghylch eu dyfodol. Fe wnaeth 42 o argymhellion ynghylch polisi, darparu, cydlyniaeth a nodau'r llwybrau i'r dyfodol. Cafodd y rhain eu cadarnhau ym mis Ebrill gan y Tîm Arweinyddiaeth Pobl Filwrol ac mae gwaith ar sut i'w darparu mewn partneriaeth â'r trydydd sector bellach ar droed. Disgwylir i'r prosiect fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2022.

Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog

Ym mis Chwefror, cytunodd y Grŵp Arbenigwyr Meddygol Annibynnol (corff cynghori cyhoeddus anadrannol wedi'i noddi gan yr MOD sy'n rhoi cyngor ar agweddau meddygol a gwyddonol ar Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog) y byddai'n cynnal adolygiad pellach o anafiadau oerfel di-rewi (fel ewinrhew) yn dilyn yr un a wnaed yn 2017. Fe'i cyhoeddir fel rhan o chweched adroddiad yr IMEG. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried y dystiolaeth newydd ar bathogenesis, ffactorau risg genetig, rheolaeth a dulliau clinigol gyda'r nod o edrych eto ar ddisgrifiadau a dyfarniadau iawndal. Cafodd blaen-raglen waith y Grŵp Arbenigwyr Meddygol Annibynnol ei chytuno gan Min(DPV) yn Chwefror 2020. Mae'r flaen-raglen waith yn cynnwys pynciau eraill fel Mân Anafiadau Ymennydd Trawmatig, Anhwylderau Cyhyrsgerbydol a dadansoddiad o ddyfarniadau Iechyd Meddwl o dan AFCS.

Atal hunan-laddiad

Mae Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Atal Hunan-laddiad Milwrol yn gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion yr adolygiad amddiffyn o atal hunan-laddiad ymhlith personél milwrol. Mae Amddiffyn bellach yn aelod gweithredol o'r Gynghair Atal Hunan-laddiad Genedlaethol.

Gwnaed cynnydd da iawn gyda chyfeirio teuluoedd at gymorth profedigaeth o ganlyniad i hunan-laddiad ac mae Ystadegau Amddiffyn yn parhau i fonitro cyfraddau hunan-laddiad gan bersonél milwrol.

Ar ddiwedd 2020 crewyd swydd Amddiffyn newydd i ddarparu'r argymhelliad heb ei weithredu – creu a gweithredu'r Gofrestr o Hunan-laddiadau Milwrol. Nod y gwaith yw creu databas o wybodaeth y gellir ei ddefnyddio i roi dealltwriaeth ddyfnach o amgylchiadau hunan-laddiad a thywys y gwaith o ddatblygu Strategaeth Atal Hunan-laddiad.

Gofal iechyd yn Lloegr

Dyfarniad Partneriaeth Iechyd Sifiliaid a Milwrol y Health Service Journal

Yn Nhachwedd 2019, cynhaliwyd Dyfarniad Partneriaeth Iechyd Sifiliaid a Milwrol cyntaf y Health Service Journal. Roedd yn gyfle unigryw i gydnabod a dathlu rhagoriaeth mewn gweliannau iechyd a gofal iechyd ar draws y DU i gymuned y Lluoedd Arfog. Enillwyd y dyfarniad gan Grŵp Comisiynu Clinigol NHS Sunderland am estyn allan at gyn-filwyr a'u teuluoedd, milwyr wrth gefn a chadet-oedolion gwirfoddol. Cafodd Gynghrair Gofal Iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr gymeradwyaeth uchel iawn. Bydd dyfarniadau eleni'n parhau i ddigwydd ond, oherwydd Covid-19, cawsant eu gohirio tan fis Mawrth 2021.

eRedbook i blant y Lluoedd Arfog

Ni throsglwyddir cofnodion iechyd plant y Lluoedd fel mater o drefn pan fydd eu rhieni'n cael eu postio dramor, gan roi parhad y cofnodion a'r 'Redbook' papur ar gynnydd plant yn y fantol pan fydd teuluoedd yn symud i, o neu oddi mewn i Loegr. Nod Cynllun Hirdymor y GIG yw digideiddio cofnodion iechyd plant y boblogaeth gyfan yn Lloegr ac mae SSAFA (Elusen y Lluoedd Arfog) wedi parhau i dderbyn cyllid gan NHS England ac NHS Improvement i ddarparu Redbook electronig (eRedbook) fel peilot yng Nghyprus. Mae'r peilot hwn nawr wedi'i ddisodli gan safle peilot newydd yng Ngogledd Sir Efrog lle bydd eRedbook yn cael ei optimeiddio ar gyfer teuluoedd milwrol symudol i ddeall sut orau i'w cynorthwyo drwy'r dechnoleg newydd hon.

Gwella cymorth i deuluoedd y Lluoedd Arfog Yn ôl Cynllun Hirdymor y GIG "Byddwn yn ehangu ein cymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd wrth bontio allan o'r Lluoedd Arfog, pryd bynnag y gwnaethant adael y Lluoedd". Mae'n cydnabod y gall teuluoedd y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr brofi problemau iechyd, lles a defnyddio gwasanaethau'r GIG oherwydd amgylchiadau bywyd milwrol. Mae'r DHSC wedi sefydlu Gweithgor Teuluoedd Milwrol traws-DU, sydd â chynrychiolaeth o holl wledydd y DU, NHS England,

Ffederasiynau'r Teuluoedd, i roi sylw i faterion polisi hirdymor. Bydd y gweithgor yn bwysig i gynorthwyo gweithrediad Strategaeth Teuluoedd yr MOD a'r ymateb i'r adroddiad Living in Our Shoes dan arweiniad Andrew Selous AS.

Gan adeiladu ar adborth gan deuluoedd y Lluoedd Arfog, mae NHS England yn lansio ymarfer ymgysylltu i weld sut orau i gynorthwyo anghenion iechyd a lles y teuluoedd hyn, ble bynnag y maen nhw'n byw yn Lloegr. Roedd i fod i lansio ym Mai 2020 ond oherwydd Covid-19 bydd nawr yn lansio yn yr hydref 2020.

Y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl Cyn-filwyr Yn y flwyddyn ddiwethaf, symudodd NHS England ymlaen ar gynlluniau i lansio gwasanaeth newydd i gyn-filwyr gyda phroblemau iechyd meddwl, mewn argyfwng iechyd meddwl ac sydd angen gofal neu driniaeth frys ac argyfwng arnynt. Bydd y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl (HIS) newydd hwn yn ychwanegol i'r Gwasanaeth Pontio, Ymyrryd a Chyswllt Iechyd Meddwl (TILS) i gyn-filwyr a'r Gwasanaeth Triniaeth Gymhleth Iechyd Meddwl (CTS) i gyn-filwyr.

Mae'r HIS yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws Lloegr. Yn yr hydref 2020, bwriedir dechrau drwy lansio treialon 'pathfinder' rhanbarthol i brofi'r model gwasanaeth o roi gofal argyfwng a chymorth therapiwtig i gleifion mewnol, cymorth gyda chydlyn gofal ar draws gwahanol sefydliadau, a chymorth a gofal i deuluoedd a gofalwyr lle bo'n briodol. Bydd y treialon 'pathfinder' yn rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2022 gyda gwersi a ddysgir yn goleuo'r model gwasanaeth terfynol fydd yn ei le erbyn Ebrill 2022.

Cynghrair Gofal Iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr

Mae Cynghrair Gofal Iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr yn grŵp o ddarparwyr GIG sy'n gweithio i wella gofal y GIG i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae ysbytai Ymwybodol o Gyn-filwyr (Veteran Aware) yn arddangos y gofal iechyd gorau i gyn-filwyr ynghyd ag ymrwymiad i'r Cyfamod drwy gwrdd â chyfres o safonau. Llwyddodd 54 o ddarparwyr drwy'r DU i gwrdd â'r safonau hyn ac ennill achrediad Ymwybodol o Gyn-filwyr, yn cynnwys ysbytai gofal aciwt ac ymddiriedolaethau cymunedol ac iechyd meddwl.

Llwyddodd Cynghrair Gofal Iechyd Cyfamod y Cyn-filwyr i sicrhau cyllid yn ddiweddar i benodi saith arweinydd rhanbarthol llawn amser i weithio gyda Veteran Aware thimau'r GIG, Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn ac elusennau'r Lluoedd i gyflwyno'r safonau Ymwybodol o Gyn-filwyr i fwy o ddarparwyr

iechyd a gofal. Mae'r safonau hefyd wedi eu datblygu ar gyfer timau cenedlaethol a rhanbarthol y GIG, systemau iechyd lleol a darparwyr eraill fel hosbisau ac ymddiriedolaethau ambiwlans. Mae nifer o sefydliadau o bob math eisoes ar y ffordd i ennill achrediad Ymwybodol o Gyn-filwyr.

Achrediad Meddygfeydd Cyfeillgar i Gyn-filwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y meddygfeydd a enillodd achrediad fel rhai cyfeillgar i gyn-filwyr wedi mwy na threblu i dros 800. Mae angen i feddygfeydd achrededig fodloni meini prawf penodol, gan gynnwys penodi arweinydd clinigol ar faterion cyn-filwyr yn y feddygfa, adnabod ac amlygu cyn-filwyr ar eu system TG, derbyn hyfforddiant ar faterion y Lluoedd Arfog, gwella dealltwriaeth holl staff y feddygfa o anghenion iechyd cyn-filwyr a chael sgôr o 'dda' neu well gan y Comisiwn Ansawdd Gofal. Mae NHS England a NHS Improvement, a'r Coleg Ymarferwyr Cyffredinol Brenhinol, yn parhau i symud ymlaen ar gyflwyno'r achrediad hwn gan flaenoriaethu ardaloedd gyda nifer uchel o gyn-filwyr a chaniatáu i feddygfeydd sydd â diddordeb i gofrestru cyn gweithredu'r rhaglen yn yr ardal. Erbyn 2022 disgwylir y bydd dros 25% o feddygfeydd yn Lloegr wedi cofrestru ac y bydd gan bob grŵp comisiynu clinigol o leiaf un feddygfa achrededig yn eu hardal.

Peilot Achredu Iechyd Meddwl cyn-filwyr

Mae'r Grŵp Cyswllt a'r Coleg Seiciatryddion Brenhinol yn gweithio i sefydlu safon achredu ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr, wedi'i ariannu gan NHS England ac NHS Improvement am y ddwy flynedd gyntaf. Wrth ymuno, bydd darparwyr gwasanaeth:

- yn cael cyfle i wella ansawdd eu gwasanaethau drwy hunan-adolygiad ac adolygiad gan wasanaethau cymharol, yn defnyddio cyfres o safonau cytunedig sector-benodol
- yn gweithio tuag at ennill achrediad fydd yn cynnwys nod ansawdd cydnabyddedig y cynghorir cyn-filwyr a theuluoedd i chwilio amdano

- yn dysgu am a rhannu ymarfer gorau sector-benodol
- yn rhwydweithio ar draws y sector

Mae'r cynnydd a wnaed wedi cynnwys sefydlu grŵp cynghori o glinigwyr arbenigol o'r sector i roi cyngor ar gynnwys y safonau ansawdd a'u cymhwysiad. Mae'r safonau ar gyfer y peilot cyntaf i'w cytuno'n derfynol yn fuan iawn. Bydd y rhain yn cael eu profi gan 10 tîm iechyd meddwl cyn-filwyr gan sefydliadau o'r sectorau statudol ac anstatudol (gan gynnwys elusennol), cyn cyflwyno'r cynllun yn llawn. Bydd y peilot yn dechrau yn yr hydref 2020 ac ar ôl dodi ben bydd y safonau'n cael eu hadolygu, eu haddasu lle bo angen a'u cytuno'n derfynol cyn cyflwyno'n llawn yn yr hydref 2021, pryd y bydd ar gael i'r holl wasanaethau iechyd meddwl cyn-filwyr.

Y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr

Mae'r Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr (VTN) wedi parhau i ddarparu gwasanaeth, cyngor ac arweiniad i gleifion (a theuluoedd), meddygon teulu ac arbenigwyr ysbyty drwy Loegr. Mae rhannu profiadau clinigol (gan gynnwys ar draws y gwledydd datganoledig), wedi cynorthwyo dysgu clinigol, datblygu llwybrau clinigol ac ymarfer. Mae arbenigeddau'r gwasanaeth wedi bod ar gael i sifiliaid (e.e. i blismyn a anafwyd ar ddyletswydd ac i'r cyhoedd a anafwyd mewn digwyddiadau terfysgaeth). Mae'r VTN yn treialu sesiynau asesu iechyd corfforol / meddwl cymhleth ar-y-cyd, gan nodi'r berthynas gymhleth yn aml rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol seiliedig ar drawma.

Rhaglennu Lleihau Hunan-laddiad Cyn-filwyr Mae rhaglennu lleihau hunan-laddiad wedi eu gweithredu yn y GIG yn Lloegr ac yn yr MOD. Mae'r ddwy raglen hon hefyd wedi eu cydlynu ac yn gweithio tuag at rannu data a dysgu. Mae'r gwaith gyda Phrifysgol Manceinion yn parhau ac yn cael ei gyd-ariannu gan yr MOD, NHS England ac NHS Improvement. O ran cyn-filwyr, cafwyd dau ddatblygiad pwysig:

- Mae ystod o ddeunydd cyfathrebu lleihau hunan-laddiad wedi'i ddatblygu ar sail templed cenedlaethol ac wedi'i addasu gyda data rhanbarth-benodol ar gyfer Lloegr gyfan.

- Mae cynlluniau peilot rhanbarthol yn edrych ar gudd-wyllo mewn amser (bron) real achosion o hunan-laddiad / ceisio hunan-laddiad. Mae nifer ohonynt nawr yn ystyried casglu data ar wasanaeth milwrol blaenorol (p'un ai'n gysylltiedig â'r digwyddiad neu beidio). Bydd hyn yn gwella ein dealltwriaeth o'r digwyddiadau prin ond trychinebus hyn er mwyn dysgu gwersi cynnar, cynnig cymorth profedigaeth ac atal hyn rhag troi'n 'haint' mewn cymunedau a theuluoedd

- Yn dilyn diddordeb parhaus gan weinidogion a'r cyfryngau mewn hunan-laddiad ymhlith personél milwrol a chyn-filwyr yn y DU, mae'r MOD wedi ymuno â NHS England ac NHS Improvement i gomisiynu diweddariad i'r ymchwil a gyhoeddwyd yn 2009 gan Brifysgol Manceinion. Gyda 10 mlynedd ychwanegol o ddata ar gael, teimlwyd ei bod yn bryd edrych eto ar y canfyddiadau, yn enwedig o gofio bod yr ymgyrchoedd yn Irac ac Afghanistan wedi dod i ben ers rhai blyneddau.

Bydd yr ymchwil newydd yn sefydlu a oes newidiadau wedi bod yn y boblogaeth cyn-filwyr ac yna defnyddio'r ymchwiliad cyfrinachol i hunan-laddiadau a chwestau crwneriaid i adnabod ffactorau sy'n rhagflaenu hunan-laddiad. Bydd y canlyniadau'n helpu'r MOD (yn achos marwolaethau mewn gwasanaeth) a'r OVA (yn achos cyn-filwyr) i weld pa ymyriadau a allai wneud gwahaniaeth drwy wella ein dealltwriaeth o ffactorau hunan-laddiad.

Ymateb i Covid-19

Mae NHS England ac NHS Improvement wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y rhai sydd angen gwasanaethau'r GIG arnynt wedi gallu eu derbyn mor hawdd a diogel â phosib. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau penodol i gyn-filwyr fel y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr, TILS a CTS. Tan gyfnod clo Covid-19, roedd cynnydd parhaus wedi bod yn y defnydd o TILS a CTS a'r amseroedd aros wedi dechrau lleihau. Dros y cyfnod clo, dywedodd rai fod y sefyllfa wedi gwaethgu eu cyflwr iechyd ond

roedd wedi helpu eraill i osgoi rhai o'r pethau oedd yn gwaethgu eu problemau.

Aeth bron yr holl apwyntiadau iechyd meddwl i gyn-filwyr yn rhai ar-lein neu dros y ffôn (oedd yn well gan rai), gyda rhai unigolion yn cael eu cadw ar weithgareddau sefydlogi hyd nes y byddai'r trefniadau arferol yn ail-ddechrau. Mae darparwyr nawr yn ystyried sut i ddarparu apwyntiadau wyneb-yn-wyneb yn ddiogel yn y dyfodol a chadw'r system fideo a digidol.



MILWYR WRTH GEFN O 3YDD BATALIWN Y GATRAWD FRENHINOL ANGLIAIDD YN RHEDEG UNED PROFION COVID-19 SYMUDOL

Gwersi a ddsygydd i NHS England gan deuluoedd milwrol

O ddechrau un pandemig Covid-19, roedd yn glir y byddai'n rhaid i staff y GIG ar draws y wlad addasu i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwahanu eu hunain yn wirfoddol oddi wrth eu hanwyliaid er mwyn gallu gwneud eu gwaith a diogelu eu teuluoedd. Roedd hyn yn brofiad newydd i lawer o staff ac roedd y GIG eisiau darparu'r cymorth gorau posib.

Mae personél y Lluoedd Arfog yn aml yn byw ar wahân o'u teuluoedd am gyfnodau hir. Maen nhw, a'u teuluoedd, wedi dysgu amrywiaeth o sgiliau i'w helpu i ymdopi â bod ar wahân, yn aml dan straen. Cysylltodd Tîm Lluoedd Arfog NHS England ac NHS Improvement â Ffederasiwn y Teuluoedd Morol i weld beth ellid ei ddsygu o wybodaeth a phrofiad y teuluoedd hyn i gynorthwyo staff y GIG, gan weithio gyda'i gilydd ar brosiect a fydd o les i deuluoedd y GIG a theuluoedd y Lluoedd Arfog.

Mae Bridget Nicholson, Cyfarwyddwr Tystiolaeth a Strategaeth gyda Ffederasiwn y Teuluoedd Morol, wedi creu canllaw 'Working Away from Home' sy'n seiliedig ar brofiadau teuluoedd y Llynges a theuluoedd Môr-filwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth ac awgrymiadau ar sut i ymdopi ar adegau anodd ynghyd â syniadau ac ymarfer effeithiol, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer gweithgareddau ymarferol fel creu 'jar o hapusrwydd' a 'blwch poeni'.

Mae'r canllaw, sydd ar gael ar wefan Ffederasiwn y Teuluoedd Morol, wedi'i rannu'n eang ar draws y GIG. Ymunodd Bridget hefyd ag un o weminarau NHS People i siarad am sut y gallai teuluoedd ymdopi â gwahanu a'r heriau a ddaw o wahanu, gan roi sicrwydd ac anogaeth i rieni a rheolwyr llinell.

Mae Bwrdd Partneriaeth MOD / GIG Adran Iechyd y DU wedi parhau i gwrdd ar lefel cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cyffredinol. Mae bellach wedi sefydlu fforwm clinigol traws-DU i gynorthwyo ar faterion clinigol ac edrych ar faterion cysylltiedig â Covid-19, gyda photensial iddo hefyd edrych ar bynciau fel rheoli poeni ac anafiadau ymennydd trawmatig.

Gofal iechyd yng Nghymru

GIG Cymru i Gyn-filwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi tua £700,000 pob blwyddyn i GIG Cymru i Gyn-filwyr i ddarparu triniaethau ar sail tystiolaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl o ganlyniad i wasanaeth milwrol. Drwy ymateb i'r galwadau ar y wasanaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £85,000 ychwanegol rhwng Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021 ar gyfer y tair swydd therapi, oedd wedi eu hariannu'n flaenorol gan Help for Heroes. Bydd hyn yn cynnal capasiti'r wasanaeth i ateb y galw a darparu triniaeth seiliedig ar dystiolaeth mewn ardaloedd bwrdd iechyd ar draws Cymru.

Prostheteg

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r GIG, yn cynorthwyo cyn-filwyr a gollodd aelodau o'r corff wrth wasanaethu, i sicrhau bod ganddynt y brostheteg sydd ei angen arnynt i lwyddo yn eu bywydau. Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, cytunodd Pwyllgor Gwasanaeth Arbenigol Iechyd Cymru i 12 cais am gyfarpar prostheteg i gyn-filwyr rhyfel am amcangost o £113,401, yn cynnwys dyfeisiau newydd / wedi'u huwchraddio a llafnau arbenigol.

Drwy weithio gyda phartneriaid mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i helpu mwy ar gyn-filwyr sydd angen dyfeisiau prostheteg. Eleni nodwyd fod angen hyfforddiant socedi prostheteg arbenigol ar staff canolfannau aelodau artiffisial Cymru'n dilyn cyflwyno socedi newydd. Cafodd £50,000 ei ddarparu i dalu am yr hyfforddiant, gan sicrhau bod cyn-filwyr Cymru'n parhau i dderbyn cymorth. Mae hyn hefyd yn cynnig gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau craidd eraill. Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd fforwm newydd gyda BLESMA (cyn-filwyr heb aelodau corff) a'r GIG i sicrhau bod unrhyw broblemau gan gyn-filwyr ag aelodau trychedig yn cael eu codi a'u trafod gan y gwasanaeth priodol.

Y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr

Ym mis Hydref 2019, lansiodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr (VTN) Cymru, sy'n gydweithrediad o arbenigwyr yng nghanolfannau trydyddol Cymru gydag arbenigedd a diddordeb yng ngofal cyn-filwyr a delio â phroblemau'n gysylltiedig â bod yn y Lluoedd. Rhoddir blaenoriaeth i gyn-filwr ar sail glinigol yn unig, fel unrhyw glaf GIG arall, sy'n unol â chyfansoddiad y GIG a'r Cyfamod sy'n nodi na ddylai fod unrhyw anfantais i gyn-filwyr wrth dderbyn gofal a gwasanaethau am gyflyrau'n gysylltiedig â bod yn y Lluoedd. Ailadroddir hyn yn ein canllawiau 'Cyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr'.

Llwybr Atgyfeirio carlam

Mae llwybr atgyfeirio carlam yr MOD, sy'n darparu gofal eilaidd ac arbenigol, yn blaenoriaethu mynediad at driniaeth i bersonél milwrol sy'n dal i wasanaethu ond a raddiwyd fel rhai na ellir eu hadleoli am resymau meddygol. Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 cytunodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gyllid ar gyfer 31 o driniaethau carlam am amcangost o £72,473.76

Cymorth camddefnyddio sylweddau

'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yw cynllun darparu Llywodraeth Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Yn y cynllun darparu, mae gan fyrddau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru ddyletswydd i weithio gyda swyddogion cyswllt Lluoedd Arfog ac elusennau milwrol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ac yn ateb anghenion cyn-filwyr, gan gynnwys rhai gyda chyflyrau cyd-ddigwyddiadol. Parheir i gynorthwyo cyn-filwyr drwy'r gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau cynllunio lleol, gyda 329 o gyn-filwyr wedi derbyn triniaeth a chymorth yn 2019/20. O'r rhain roedd 323 yn atgyfeiriadau newydd.

Gofal iechyd yn Yr Alban

Rhwydwaith Gofal Cyn-filwyr Yr Alban

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi sefydlu Rhwydwaith Gofal Cyn-filwyr Yr Alban sy'n helpu cyn-filwyr gyda phroblemau derbyn gofal ac anghydraddoldebau iechyd. Bwriedir lansio'r rhwydwaith yn ffurfiol yn Nhachwedd 2020 a thrwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, mae'r rhwydwaith wedi gallu creu strategaeth ddarparu'n egluro'r blaenoriaethau cyntaf ynghyd â strategaeth i'w gweithredu.

Un o flaenoriaethau cyntaf y Rhwydwaith fydd creu Cynllun Gweithredu Iechyd Meddwl Cyn-filwyr

Adnabod cyn-filwyr

Ers 2019 un o feysydd craidd y cwricwlwm i feddygon teulu newydd yw hyfforddiant a dangos ymwybyddiaeth o gyn-filwyr a'u problemau penodol. Dylai meddygon teulu felly fod yn fwy parod i ddechrau sgwrs gyda chleifion am hanes eu gyrfa filwrol ac unrhyw anghenion meddygol cysylltiedig. Mae Llywodraeth Yr Alban hefyd yn gweithio gydag NHS Scotland i sicrhau bod statws cyn-filwr wedi'i ddatgan ar gofnod meddygol claf fel bo'n gwbl weladwy i'r meddyg teulu ym mhob apwyntiad.

Tystysgrif nam golwg

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi gweithio gyda Scottish War Blinded i ddiweddarau'r ffurflen tystysgrif nam golwg a chanllawiau cysylltiedig i gleifion ac offthalmolegwyr. Mae'n gofyn nawr a fu'r unigolyn erioed yn y Lluoedd Arfog fel bod meddygon yn gallu atgyfeirio cyn-filwyr at wasanaethau a chymorth am ddim gan Scottish War Blinded. Mae'r ffurflenni a'r canllawiau diweddaraf wedi eu cyflwyno i glinigau ers Tachwedd 2019.

Cyfarpar clyw newydd

Ar ddiwedd Awst 2020 anfonwyd llythyr gan Gyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol ac Arweinydd Gwyddoniaeth Gofal Iechyd Llywodraeth Yr Alban at bob adran awdioleg yn Yr Alban. Roedd yn nodi y disgwylir i gyn-filwyr dderbyn cyfarpar cymorth clyw newydd tebyg am debyg. Hyd yma mae rhai personél sy'n pontio allan o'r Lluoedd wedi derbyn cyfarpar cymorth clyw llai effeithiol na'r rhai a gawsant yn y Lluoedd.

Dyweddodd fab i un cyn-filwr wrth Action on Hearing Loss fod ei dad wrth ei fodd gyda'r gwasanaeth sydyn a bod pethau'n llawer gwell gartref bellach ac yn rhyddhad mawr i'r teulu.

Rheoli poen cronig

Rhwng 2018 a 2019, bu Pain Association Scotland (PAS) yn rhedeg cynllun peilot llwyddiannus iawn ar hunan-reoli poen cronig i 41 o gyn-filwyr. Roedd hyn ar ffurf cyfarfodydd grŵp yn Erskine House a thrwy sesiynau un-i-un gyda 11 o gyn-filwyr. Derbyniodd y cynllun peilot adborth rhagorol gan y cyfranogwyr gyda rhai'n disgrifio'r cwrs fel un hynod esboniadol a difyr a bod

y cwrs wedi eu dysgu i dderbyn, rheoli a delio gyda phoen. Mae PAS wedi llwyddo i sicrhau cyllid am 18 mis arall ers Mawrth 2020 gan fwriadu rhoi canfyddiadau'r peilot gerbron y Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ar Boen Cronig er mwyn gwreiddio'r gwasanaethau ymhellach..

Cymorth cyntaf iechyd meddwl a chyfeillio

Yn 2020/21 rhoddodd Llywodraeth Yr Alban gyllid o £3,000 i gynnal dwy sesiwn undydd o hyfforddiant cyfeillio i hyd at 25 o unigolion a phedair sesiwn deuddydd o hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i hyd at 12 o unigolion o'r gymuned cyn-filwyr. Y gobaith bellach yw cynnal y sesiynau yn y gwanwyn 2021 ar ôl gorfod gohirio oherwydd Covid-19.

Cymorth yn ystod Covid-19

Yn ystod yr ymateb i Covid-19, bu Llywodraeth Yr Alban yn gweithio'n agos â Veterans Scotland a'i Health Pillar Group i sicrhau bod y cyngor diweddaraf yn cael ei rannu'n ddoed, bod Llywodraeth Yr Alban yn deall pa gymorth oedd yn cael ei roi i gyn-filwyr gan fudiadau trydydd sector, a chynnig cymorth.

Mae gan NHS Inform dudalennau penodol ar iechyd a hawliau cyn-filwyr ac, yn ystod Covid-19, diweddarwyd y tudalennau gyda chyingor fel mai'r wefan yw'r ffynhonnell gyntaf i droi ati o hyd am wybodaeth gofal iechyd cyn-filwyr.

Metrigau gofal iechyd

Amseroedd aros canser yn Lloegr

Mae personél Lluoedd Arfog y DU sydd angen triniaeth ganser arnynt yn derbyn gofal drwy'r GIG. Roedd yr amseroedd aros canser yn debyg neu'n well ar gyfer bob un o'r pedwar mesur, gan ddangos dim anfantais systematig i bersonél milwrol ar draws y DU o'i gymharu â Lloegr (Atodiad B Tabl 4). Fodd bynnag, ar gyfer Lluoedd Arfog Lloegr ac ar draws y DU, roedd dau o'r mesurau (amser aros ar gyfer bob math o ganser, ac amser aros i gleifion y fron gyda symptomau) o dan y targed. Mae amseroedd aros canser yn flaenoriaeth i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England a NHS Improvement ac mae Cynllun Hirdymor y GIG wedi ymrwymo i leihau amseroedd aros ar gyfer diagnosis.

Iechyd meddwl Lloegr

Gwella Mynediad at Therapiau Seicolegol (IAPT) oedd y set ddata iechyd meddwl genedlaethol gyntaf i gynnwys dangosydd ar gyfer cyn-filwyr yn y DU a'u teuluoedd. Ers chwe blynedd, mae cyn-filwyr a atgyfeiriwyd i dderbyn therapiau seicolegol yn Lloegr wedi cael eu gweld yr un mor gyflym â'r boblogaeth yn gyffredinol. Ar gyfer llwybrau 6-wythnos ac 18-wythnos, roedd yr amseroedd aros yn uwch na'r targedau (6 wythnos neu lai yn 2019/20: cyn-filwyr 89.1%; y boblogaeth sifil 87.4% - Atodiad B Tabl 5). Dros y chwe blynedd diwethaf, mae cyfran uwch o gyn-filwyr na'r boblogaeth sifil wedi derbyn a chwblhau triniaeth (atgyfeiriadau a orffennodd driniaeth yn 2019/20: cyn-filwyr 42.4%; y boblogaeth sifil 35% - Atodiad B Tabl 6). Roedd adferiad cyn-filwyr o leiaf cystal ag adferiad y boblogaeth sifil (atgyfeiriadau'n symud at adferiad yn 2019/20: cyn-filwyr 47.6%; y boblogaeth sifil 46.1% - Atodiad B Tabl 7). Fodd bynnag roedd cyfraddau adferiad yn parhau i fod yn is na tharged 50% y Llywodraeth. Mae NHS England ac NHS Improvement wedi gweithredu nifer o fesurau i wella cyfraddau adferiad gan weld cynnydd ers 2014/15 (atgyfeiriadau'n symud at adferiad yn 2014/15: cyn-filwyr 41.5%; y boblogaeth yn gyffredinol 40.3%, Atodiad B, Tabl 7). Mae'r mesurau'n cynnwys cynorthwyo'r grwpiau comisiynu clinigol sy'n perfformio waethaf a chynnig gweithdai i rannu arferion gorau i'r holl gomisiynwyr a ddarparwyr.

Yn Ebrill 2017, lansiodd NHS England ei wasanaethau Pontio, Ymyrryd a Chyswllt Iechyd Meddwl i Gyn-filwyr (TILS) fel rhan o flaen-raglen Pum Mlynedd y GIG. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo rhai sydd ar fin gadael, a chyn-filwyr, drwy ddarparu ystod o driniaethau'n amrywio o fynediad at gymorth cynnar i driniaethau therapiwtig ar gyfer anawsterau iechyd meddwl cymhleth a thrawma seicolegol. Hyd at 31 Mawrth 2020 roedd bron i 11,500 o gyn-filwyr wedi eu hatgyfeirio at y gwasanaeth sy'n cynnig pecyn gofal holistig a allai gynnwys cymorth gyda thai, cyflogaeth, camddefnyddio alcohol a chymorth cymdeithasol (Atodiad B Tabl 8). Yn dilyn asesiad, gellir atgyfeirio at wasanaethau eraill y GIG, fel IAPT. Yn 2019/20 roedd yr amseroedd aros i gael cynnig asesiad wyneb yn wyneb (37 diwrnod) yn is na'r targed o 14 diwrnod (Atodiad B Tabl 9). Mae adnoddau ychwanegol wedi eu cymeradwyo fydd yn cynyddu capasiti a lleihau amseroedd aros.

Mae Gwasanaeth Triniaethau Iechyd Meddwl Cymhleth i Gyn-filwyr y GIG yn darparu triniaeth a gofal dwys i gyn-filwyr lle nad yw eu problem iechyd meddwl filwrol gymhleth wedi gwella o dderbyn triniaeth a gofal blaenorol. Hyd at 31 Mawrth 2020 roedd dros 1,300 o gyn-filwyr wedi eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hwn. O'r rhain, derbyniwyd 95% gan arwain at ddarparu dros 18,000 o apwyntiadau. Yn 2019/20, aeth yr amseroedd aros cyfartalog i gael cynnig asesiad wyneb-yn-wyneb i fyny i 33 diwrnod, oherwydd bod nifer yr atgyfeiriadau'n drech na'r capasiti yn hanner cyntaf y flwyddyn. Drwy fuddsoddi mewn staff ychwanegol bu'n bosib cynyddu capasiti a lleihau'r amseroedd aros yn ail hanner y flwyddyn (Atodiad B Tabl 11).



Personél yr Awyrlu Brenhinol yn helpu Cyngor Dinas Birmingham i ddosbarthu a chasglu profion Covid cartref yn Selly Oak, Birmingham, fel rhan o ymgyrch Cymorth Milwrol i Awdurdod Sifil (MACA) o'r enw Op RESCRIPT.

PENNOD 4 - ADDYSG

Addysg ar draws y DU

Cynghrair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog Mae gan y Gynghrair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog (SCiP) weledigaeth o blant y Lluoedd yn byw bywydau ffyniannus. Drwy weithio gyda'r MOD, mae Prifysgol Caer-wynt yn arwain a chydlyn strategaeth y Gynghrair ac mae partneriaid ymroddedig mewn prifysgolion, colegau, ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau ac asiantaethau ar draws y DU yn cydweithio i sicrhau y troir yr ymchwil yn welliannau clir i fywydau plant y Lluoedd Arfog..

Ym misoedd olaf 2019 a chyntaf 2020 bu'r Gynghrair yn arwain rhaglen ymchwilio traws-DU i wella'r gwaith o roi lleisiau plant y Lluoedd wrth galon datblygu polisi ac ymarfer. Daeth y prosiect Year of the Service Child Voice i ben gan ryddhau 'Listening to learn: the voices of Service children'4 ym mis Mai ac adnabod pedair egwyddor allweddol i sicrhau gwranddo effeithiol ac ystyrlon. Mae'r adroddiad wedi cysylltu cannoedd o weithwyr proffesiynol, ar draws y DU a thramor, i ymarfer da ac mae gwaith ar y gweill i ehangu'r databas o astudiaethau achos dros y flwyddyn nesaf.

Fel rhan gyntaf o raglen fawr dros sawl blwyddyn, comisiynodd y Gynghrair ymchwil i anghenion cymorth ac ymarfer mewn ysgolion, wedi'i hariannu gan chwe chonsortia Uni Connect yn cynrychioli 50 o brifysgolion a cholegau yn Lloegr. Bu'r ymchwil, wedi'i harwain gan y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Cyfarwyddyd ym Mhrifysgol Derbyn, yn trafod gyda phlant y Lluoedd, penaethiaid, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth mewn amrywiaeth o ysgolion gan adnabod saith egwyddor cymorth effeithiol.

Mae gwaith datblygu a phrosiect peilot cenedlaethol yn sgil yr ymchwil wedi arwain at greu'r pecyn Thriving Lives, adnodd ymarferol sy'n helpu ysgolion i wella ansawdd eu cymorth i blant y Lluoedd Arfog. Bydd y pecyn yn lansio yn Hydref 2020 ac yna'n cael ei gyflwyno gyda gwaith ymchwil pellach i greu pecyn

perthnasol i gyd-destunau unigryw pob un o bedair gwlad y DU.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Plant Lluoedd Arfog y DU

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Partneriaeth Plant Lluoedd Arfog y DU i adnabod a rhannu ymarfer da ar draws y gwledydd datganoledig. Sefydlwyd y grŵp gan yr MOD, Cymorth Addysg Plant Lluoedd Arfog Cymru, Ymddiriedolaeth Addysg y Royal Caledonian, Plant Lluoedd Arfog mewn Ysgolion y Wladwriaeth a SCiP. Gan gyfarfod drwy'r flwyddyn, mae'r grŵp yn rhannu eu hymarfer eu hunain, chwilio am gyfleoedd i osgoi dyblygu ac adolygu allbwn gan sefydliadau eraill i gynorthwyo athrawon sy'n gweithio gyda phlant y Lluoedd. Yn y pen draw, nod y grŵp yw ysgrifennu adroddiad yn atgyfeirio at ymarfer da ac argymhell prosiectau cydweithredu pellach i'r dyfodol. Mae'n gobeithio gwneud hyn erbyn diwedd 2020.

Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Sefydlwyd Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog (AFBSS) yn 2011. Mae'n rhoi ysgoloriaeth i blant personél milwrol a fu farw yn sgil eu gwasanaeth ers 1990, i gynorthwyo eu haddysg ôl-16 oed. Ym mlwyddyn ariannol 2019/20 talodd y cynllun am 86 o fyfyrwyr, cyfanswm o £833,935.

Yn Chwefror 2020 newidiodd yr MOD ei bolisi ar daliadau ffioedd dysgu o dan yr AFBSS. Bydd myfyrwyr nawr yn derbyn yr un faint i astudio yn Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

O'r blaen roedd gwahaniaeth rhwng y gwahanol wledydd. Gwnaed hyn fel blaenoriaeth ar ôl canfod y gwahaniaeth, i sicrhau bod yr AFBSS yn deg ac yn adlewyrchu'r newid a wnaed i'r ffioedd.

Addysg yn Lloegr

Y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog

Mae ysgolion y wladwriaeth yn Lloegr yn parhau i dderbyn cyllid ychwanegol drwy'r Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog (SPP) i'w helpu i roi cymorth bugeiliol a, lle bo'n briodol, cymorth academaidd i blant personél milwrol presennol a chyn-bersonél milwrol. Rhoddir y cyllid hwn i'r ysgolion lle cofnodir y plant fel plant y Lluoedd neu lle'r oedd ganddynt y statws hwn ar unrhyw adeg yn y chwe blynedd ddiwethaf, neu os ydynt yn derbyn pensiwn plant gan yr MOD. Mae'r SPP yn werth £310 y flwyddyn am bob disgybl cymwys. Ym mlwyddyn ariannol 2020-21, bydd dros £24.5m yn cael ei dalu i ysgolion ar gyfer dros 79,000 o ddisgyblion. Mae'r Adran Addysg a'r MOD yn parhau i weithio gyda'i gilydd i adnabod a lledaenu enghreifftiau o ymarfer da gan ysgolion o ran eu defnydd o'r SPP.

Cod gofal plant 30 awr

Mae Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yr MOD (DCYP) wedi gweithio'n agos â'r Adran Addysg a Chyllid a Thollau EM i sicrhau bod rhieni (personél milwrol a sifiliaid MOD cymwys) sy'n dychwelyd i Loegr o Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn gallu gwneud cais am gôd gofal plant 30-hours awr unigryw cyn cyrraedd yn ôl yn Lloegr. Bydd hyn yn sicrhau na cholllir unrhyw hawliau, yn enwedig pan fydd rhieni'n symud ar ganol tymor ac yn methu â gwneud cais o fewn y terfynau amser tymhorol a bennir gan yr Adran Addysg.

Cronfa Cymorth Addysg yr MOD

Yn 2020, dyrannodd Gronfa Cymorth Addysg yr MOD (ESF) £2m i 87 o ymgeiswyr i gynorthwyo tua 25,000 o blant y Lluoedd Arfog. Dros y cyfnod o gau ysgolion oherwydd Covid-19 a dysgu o bell yn ei le, bu'r DCYP yn cynorthwyo ysgolion drwy ymestyn terfynau amser prosiectau a chyllid ac addasu'r pecyn cais ESF a'r canllawiau cysylltiedig.

Ym mis Mawrth, a gwaith adleoli parhaus yr MOD yn arwain at fwy o symudiadau unedau a phersonél a'r aflonyddwch cysylltiedig, ymrwymodd yr MOD i ymestyn yr ESF ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Derbyn plant i ysgolion y wladwriaeth

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn egluro beth sy'n ofynnol gan awdurdodau derbyn wrth ddyrannu llefydd mewn ysgolion. Ers blynyddoedd, mae'r Cod wedi cynnwys darpariaeth o fudd i blant y Lluoedd, yn ogystal â gofynion cyffredinol bod awdurdodau derbyn yn sicrhau bod trefniadau yn eu hardal yn cynorthwyo ymrwymiad y Llywodraeth i ddileu anfantais i blant y Lluoedd.

Ym mis Mehefin lansiodd yr Adran Addysg ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Cod, gan gynnwys rhai er mwyn gwella prosesau derbyn canol blwyddyn, fydd o fudd i blant y Lluoedd oherwydd eu bod yn fwy tebygol o symud ysgolion y tu allan i'r cylch derbyn arferol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynnig i ddiwygio gofynion cyfeiriad ar gyfer plant y Lluoedd wrth wneud cais am le ysgol ar ganol blwyddyn, i adlewyrchu trefniadau byw'r teuluoedd hyn yn well. Mae'r DfE a'r MO hefyd yn gweithio ar ganllawiau ar-y-cyd i deuluoedd milwrol, i wneud y broses yn haws pan fydd angen gwneud cais am le mewn ysgol pan fydd rhieni'n cael eu postio i rywle newydd.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref a byddwn yn adrodd ar ymateb ffurfiol y Llywodraeth yn Adroddiad Blynyddol flwyddyn nesa'r Cyfamod



Y Gweinidog Pobl Amddiffyn a Chyn-filwyr yn siarad â phlant ysgol gynradd Sandhurst yn Llundain i nodi 100 diwrnod tan y dathliadau i gofio 75 mlynedd ers Diwrnod VE

Addysg yng Nghymru

Rhaglen Cymorth Addysg Plant Lluoedd Arfog Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu rhaglen Cymorth Addysg Plant Lluoedd Arfog Cymru (SSCE). Nod y rhaglen yw rhoi'r cymorth addysg gorau posib i'r plant hyn yng Nghymru. Mewn ymateb i Covid-19, creodd SSCE Cymru dudalen we newydd i roi gwybodaeth, cyngor a manylion sefydliadau ac adnoddau sy'n berthnasol i gynorthwyo plant y Lluoedd yn ystod Covid-19.

Ym mis Mawrth, lansiodd SSCE Cymru gyfres o adnoddau newydd i gynorthwyo ysgolion, teuluoedd a phlant y Lluoedd Arfog er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiadau'r plant hyn o ganlyniad i wasanaeth eu rhieni. Cynhaliodd SSCE Cymru nifer o grwpiau trafod mewn ysgolion drwy Gymru i glywed gan blant y Lluoedd am eu profiadau o addysg yng Nghymru. Cafodd y canfyddiadau eu bwydo i adroddiad prosiect

cyfeiriwyd ato'n gynharach.

Mewn cydweithrediad â Brigâd 160 (Cymru), mae SSCE Cymru wedi sicrhau cyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod i benodi pedwar Swyddog Cyswllt Ysgol Rhanbarthol fel rhan o brosiect dwy flynedd.

Bydd y swyddogion, a benodwyd ym mis Medi, yn helpu ysgolion i ddeall anghenion plant y Lluoedd ac yn gwreiddio gweithgareddau i sicrhau systemau cymorth cynaliadwy.

MODLAP Cymru

Mewn cydweithrediad, mae DCYP yr MOD ac SSCE Cymru wedi sefydlu MODLAP Cymru, partneriaeth rhwng yr MOD ac awdurdodau lleol, tebyg i'r un yn Lloegr ac a ddisgrifir uchod. Dechreuodd y grŵp drwy edrych ar anghenion plant y Lluoedd yng Nghymru a sut orau i weithredu drostynt. Llwyddodd y grŵp i rannu ymarfer rhagorol ar draws gwahanol awdurdodau lleol gan hefyd dynnu sylw at bethau sydd angen gwella, fel tracio disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol (SEND yn Lloegr).

Cronfa Cymorth Plant Lluoedd Arfog Cymru

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20, mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi rhoi cyllid i roi cymorth i blant y Lluoedd yng Nghymru. Llwyddodd 27 bid gan wahanol ysgolion, grwpiau o ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau cyllid llawn neu rannol gwerth £249,946.63.

Sefydlu hÿb SCiP yng Nghymru

Mae Hÿb Cynghrair SCiP Cymru'n gweithio'n gydweithredol i helpu gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo cynnydd plant a phobl ifanc o deuluoedd y Lluoedd Arfog a sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt yng Nghymru. Mae'r partneriaid yn cynnwys Prifysgol De Cymru. Mae ei rwydwaith o hybiau rhanbarthol yn dod â phartneriaethau at ei gilydd i gysylltu rhanddeiliaid er mwyn gallu hwyluso partneriaethau cydweithredol newydd a gwell, cyfathrebu, meithrin gallu ac estyn allan at randdeiliaid newydd. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Nhachwedd 2019 gan ddod â sefydliadau at ei gilydd i drafod gwaith ymchwilwyr, gwneuthurwyr polisi a phrifysgolion â phlant a chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Addysg yn Yr Alban

Addysgu

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Yr Alban (GTCS) yn parhau i ddatblygu ei berthynas â phob un o'r tri Llu Arfog a'r gwaith llwyddiannus o oresgyn rhwystrau a wynebir gan bartneriaid sy'n cymhwyso fel athrawon mewn rhannau eraill o'r DU, fel y medrant addysgu yn Yr Alban. Yn benodol, mae'r GTCS yn gweithio'n agos â Ffederasiwn y Teuluoedd Morol ar gyhoeddiad ar-y-cyd i nodi'r gofynion ar gyfer addysgu yn Yr Alban, wedi'i anelu'n benodol at gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r GTCS yn derbyn nifer o ymholiadau gan bartneriaid i bersonél milwrol ac yn parhau i adnabod ffyrdd ar gyfer eu cofrestru.

Mapio cymwysterau milwrol

Mae cyllid Cyngor Cyllido'r Alban am 2020/21, ar gyfer Rhwydwaith Partneriaeth Credydau a Chymwysterau'r Alban, yn cynnwys cymorth i barhau ac ehangu'r gwaith o fapio cymwysterau milwrol yn erbyn rhai sy'n cael eu cydnabod gan gyflogwyr yn Yr Alban. Hyd yma mae'r gwaith wedi cyhoeddi arweinlyfrau ar gymwysterau Troedfilwyr, y Magnelwyr Brenhinol, Y Peirianwyr Trydanol a Mecanyddol Brenhinol a'r Corfflu Logisteg Brenhinol. Bydd hyn yn helpu cyflogwyr a sefydliadau addysgol i ddeall y gwahanol sgiliau ac arbenigedd sydd gan rai sy'n gadael y Lluoedd i'w cynnig, a'u cynorthwyo i gyfleu eu sgiliau'n glir er mwyn dod o hyd i waith neu addysg. Mae Llywodraeth Yr Alban wedi ymrwymo i ariannu'r gwaith gwerthfawr hwn tan 2023.

Rhwydwaith Pencampwyr Addysg Bellach/Uwch y Lluoedd Arfog

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob dysgwr, gan gynnwys cyn-filwyr a'u teuluoedd, yr un cyfle i dderbyn addysg bellach ac uwch, ac yn gweithio ar hyn gyda'i phartneriaid yn y sector addysg a'r Lluoedd Arfog.

Sefydlwyd y Grŵp Lluoedd Arfog a'r Gymuned Cyn-filwyr (AFVCG) yn 2017 i gynorthwyo gwaith y Rhwydwaith Pencampwyr Addysg Bellach / Uwch ar gyfer Cyn-filwyr gyda Veterans Scotland. Mae'r AFVCG cysylltu â grwpiau allweddol eraill i gynorthwyo'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, a thros y flwyddyn nesaf bydd yn edrych ar ymchwil bresennol a darpar-ymchwil i blant o deuluoedd milwrol ac unrhyw ddata arall allai fod ar gael er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i'r grŵp hwn.

Sefydlwyd Rhwydwaith Pencampwyr Addysg Bellach / Uwch y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn Ionawr 2019 gan brifysgol y Caledonian yn Glasgow Caledonian a Napier yng Nghaeredin, y ddwy wedi ennill Gwobr Aur ERS yr MOD. Ers ei sefydlu, ymunodd pob prifysgol yn Yr Alban a thua 85% o golegau addysg bellach â'r rhwydwaith. Mae hyn i fyny o 70% ar gyfer prifysgolion, a 60% ar gyfer colegau AB y llynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau bellach wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a phenodi Pencampwyr Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr. Mae'r rhwydwaith wedi sefydlu hybiau daearyddol a chreu pecyn adnoddau i'w ddefnyddio gan staff. Cynhaliwyd cynhadledd yn Chwefror 2020 i adolygu'r ffordd ymlaen.

Datblygu Sgiliau yn Yr Alban

Prosiect peilot A96

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi parhau i gefnogi'r prosiect peilot a thrwy'r bartneriaeth rhwng Skills Decelopment Scotland (SDS) a'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa, bydd unigolion ar hyd coridor A96 sy'n gadael y Lluoedd yn cael cynnig cyfarwyddyd gyrfaol fel rhan o'u hyfforddiant adsefydlu. Ers Awst 2020, mae 31 o gleientiaid wedi defnyddio canolfannau SDS Inverness ac Elgin a phump o bartneriaid wedi defnyddio gwasanaethau SDS yn eu hardal. Bydd Llywodraeth Yr Alban yn parhau i weithio gyda SDS a'r MOD i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno a'i wreiddio ar draws Yr Alban.

Peilot seiber-sgiliau

Mae cyn-filwyr o'r Alban yn cael eu hail-hyfforddi drwy gynllun peilot i brofi dull newydd o geisio llenwi bwlch sgiliau yng ngweithlu seiber-ddiogelwch y wlad ar ôl derbyn cyllid gan Lywodraeth Yr Alban.

Mae'r prosiect partneriaeth newydd, sy'n cael ei arwain gan Skills Development Scotland mewn partneriaeth â SaluteMyJob a Phrifysgol Abertay, wedi'i lansio gyda'r nod o ateb prinder sylweddol gan gyflogwyr ar draws y wlad. Y syniad yw cymryd rhai gyda hyfforddiant a phrofiad o ddiogelwch milwrol a'u hail-sgilio ar gyfer rolau fel ymgynghorwyr diogelwch, rheolwyr canolfannau gweithredu a digwyddiadau diogelwch, ac ar gyfer rolau mwy arbenigol fel profion hacio. Datblygwyd y peilot yn dilyn ymchwil a gomisiynwyd gan SDS i weld sut oedd modd ail-sgilio unigolion sydd am newid gyrfa, a phobl ddiwaith, ar gyfer gyrfaedd seiber-ddiogelwch drwy lwybrau amgen a hyblyg.

Mae 27 o gyn-filwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen wyth wythnos i ddysgu sgiliau hacio moesegol a phroffion hacio yn Abertay, a thrwy astudio ar-lein a lleoliadau gwaith. Y nod yw ychwanegu sgiliau seiber-dechnegol at hyfforddiant a phrofiad milwrol y myfyrwyr, i helpu i lenwi rhai o'r 13,000 o swyddi digidol sydd ar gael yn Yr Alban ar hyn o bryd. Dechreuodd y rhaglen yn Ionawr 2020 a bydd yn ail-ddechrau eto ym mis Medi, ar ôl ei gohirio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19.

Mae Veterans Scotland, Skillzminer a Chanolfan Gwydnwch Busnes Yr Alban hefyd yn cefnogi'r prosiect.

Seiber-sgiliau

Mae Richard yn gyn for-filwr brenhinol a lwyddodd i bontio i'r diwydiant olew a nwy gan arbenigo mewn systemau rheoli is-forol. Oherwydd y defnydd cynyddol o systemau rheoli awtomataidd a'r lleihad diweddar mewn cynhyrchu ym Môr y Gogledd, penderfynodd Richard ailsgilio a chwilio am waith yn niwydiant twf seiber-ddiogelwch. Fel cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, roedd Richard yn gymwys ar gyfer rhaglen 'Cyber Skillsbuild' Skills Development Scotland, sy'n cael ei darparu gan SaluteMyJob mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertau, Canolfan Gwydnwch Busnes Yr Alban a Veterans Scotland. Dangosodd ddawn dda ar gyfer seiber-swyddi yn ystod cam asesu'r rhaglen cyn mynd ymlaen i fynychu'r cwrs tridiau 'cyflwyniad i seiber' ym Mhrifysgol Abertay ym mis Chwefror ac ymgysylltu â Phencampwr Cyn-filwyr Gogledd SDS. Mae yn y broses o gwblhau'r cwrs 'profion hacio' 8 wythnos sydd ar hyn o bryd wedi'i ohirio oherwydd Covid-19, gan fwriadu cwblhau'r hyfforddiant pan fydd yn aildechrau ganol Medi. Yn y cyfamser, mae un o bartneriaid cyflogwyr Cyber Skillsbuild, cwmni Quorum Cyber yng Nghaeredin, oedd wedi cyfarfod Richard drwy'r cwrs, wedi cynnig swydd iddo fel ymgynghorydd diogelwch. Dechreuodd weithio i'r cwmni y mis hwn, ac mae Richard a Quorum Cyber wrth eu boddau.

Ymddiriedolaeth Addysg y Royal Caledonian (RCET)

Ym Mawrth 2020 roedd cynghorwyr SDS wedi bod yn gweithio'n agos â Rheolwr Addysg RCET i dreialu blychau adnoddau plant milwrol. Diben y blychau yw cynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n helpu plant y Lluoedd. Ar hyn o bryd mae SDS yn ystyried defnyddio'r adnoddau hyn fel rhan o'u gwaith gyda phlant ac i gynorthwyo datblygiad ei gynghorwyr.

Mae RCET hefyd, mewn partneriaeth â Phrifysgol Strathclyde, wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth trylwyr o brosiectau ymchwil yn Yr Alban sy'n canolbwyntio ar unrhyw agwedd ar fywyd milwrol. Bydd hyn yn helpu i adnabod bylchau a sut i'w llenwi.

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Yr Alban (ADES)

Ers blwyddyn ysgol 2020/21, i godi proffil plant milwrol, mae SDS wedi cynnwys cwestiwn yn ei Gytundebau Partneriaeth ag Ysgolion (SPA) (y cytundeb blynyddol rhwng ysgolion a SDS yn nodi gwasanaethau sydd i'w darparu), am bencampwyr y Lluoedd Arfog mewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae SDS yn gweithio ag ADES i gynnal digwyddiad ym mis Medi 2020 i godi ymwybyddiaeth o blant milwrol. Dyfeisiwyd y digwyddiad i wella ymwybyddiaeth o'r SPA, i weld sut y gall awdurdodau lleol, ADES, SDS ac ysgolion weithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o blant y Lluoedd Arfog a hyrwyddo cydweithrediad a rhwydweithio rhwng sefydliadau.

Mae Swyddog Pontio Cenedlaethol ADES wedi cynnal ymarfer peilot i gasglu data ar nifer a dosbarthiad plant y Lluoedd Arfog yn Yr Alban, gan gynnwys plant i gyn-filwyr. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar ymchwil yn Yr Alban i brofiadau addysg ysgol plant a theuluoedd milwrol.

Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Bu SDS yn gweithio â Scottish Water a Poppyscotland i ddylunio, datblygu a chynnal digwyddiad sgiliau digidol ar-lein. Cynhaliwyd y digwyddiad ym Medi 2020 gan gynnwys partneriaid o grŵp Cyfamod Cymuned Lluoedd Arfog yr Ucheldir ac is-grŵp Cyflogadwyedd y Cyfamod.

Roedd y digwyddiad mewn dwy ran – un i gyflogwyr ac un i bersonél a chyn-filwyr y Lluoedd Arfog. Roedd y sesiwn gyntaf wedi'i hanelu at fusnesau ac yn hybu'r Ucheldir fel lle gwych i greu a sefydlu dyfodol digidol, gan ystyried cymuned y Lluoedd Arfog yn eu gweithlu. Roedd yr ail sesiwn yn codi ymwybyddiaeth o ddyfodol digidol, sgiliau i'r dyfodol a pha ddysgu a chymorth pellach oedd ar gael.

Bu SDS yn gweithio gyda Brigâd 51 i gynnal nifer o sesiynau gwydnwch personol a sgiliau'r dyfodol i bersonél sy'n dal i fod yn y Lluoedd. Cynhaliwyd un sesiwn wyneb-yn-wyneb yn Ionawr 2020 gyda thua 200 personél o 3 SCOTS. Cynhaliwyd pedair sesiwn rithiol ym Mai a Gorffennaf 2020, gyda thua 20 personél ym mhob un. Roedd eu ffocws ar sgiliau i'r dyfodol a sgiliau trosglwyddadwy ac yn seiliedig ar thema gwydnwch personol, sgiliau oddi mewn a'r tu allan i'r Lluoedd, a meysydd pontio.

Cymdeithas Gyflogaeth y Lluoedd Rheolaidd (RFEA) Ym mis Gorffennaf 2020 trefnodd SDS sesiwn ymwybyddiaeth RFEA i gyflwyno eu rhaglen Merched Milwrol, sy'n helpu cyn-filwreded i ddod o hyd i waith. Roedd y sesiwn hefyd yn cynnwys sesiwn ddiweddar a gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau'r RFEA yn ategu ymresymu SDS yn ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r thema rhywedd.

Hyrwyddo prentisiaethau yn Yr Alban

Mae prentisiaethau yn Yr Alban yn parhau i gael eu hyrwyddo ar draws y Lluoedd Arfog a'r gymuned cyn-filwyr drwy rwydweithiau partneriaid a phencampwyr. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o www.apprenticeships.scot, sef y wefan i droi ati ar gyfer popeth yn ymwneud â phrentisiaethau sylfaen, modern ac ôl-radd. Hefyd, mae prentisiaethau sylfaen yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u cefnogi mewn ysgolion.

Partneriaeth rhwng yr MOD a Chyngor Midlothian

Sefydlodd yr MOD a Chyngor Midlothian bartneriaeth yn 2020 i ddarparu addysg gynnar a gofal iechyd i blant teuluoedd milwrol a'r gymuned ehangach sy'n byw yn ardal Midlothian ac ardaloedd cyfagos.

Ffurfiwyd y bartneriaeth i ddarparu addysg gynnar a gofal plant sy'n ateb anghenion teuluoedd milwrol gan helpu Cyngor Midlothian i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol i sicrhau bod pob plentyn ifanc cymwys yn derbyn y lefel statudol o addysg gynnar a gofal plant. Mae'r addysg a'r gofal yn cael eu darparu yng nghanolfan gymunedol ar-y-cyd y Lluoedd Arfog ar yr Ystâd Amddiffyn yn Scots Corner yn Penicuik. Ar hyn o bryd mae'n darparu 1,140 awr o ofal am ddim i blant tair a phedair oed, a gofal plant (angen talu) i blant dwyflwydd oed rhwng 8am a 6pm, 50 wythnos y flwyddyn.

Mae'r ganolfan ar hyn o bryd yn cyflogi dau gymar / partner i bersonél milwrol lleol. Fel rhan o'r cytundeb, mae Cyngor Midlothian yn ychwanegu dau le dysgu i blant teuluoedd milwrol, i gyfrif am y personél milwrol gyda theuluoedd sy'n cael eu postioa i'r ardal ar ganol tymor.

Addysg yng Ngogledd Iwerddon

Elfen Ariannol Cymorth i Blant y Lluoedd Arfog

Yng Ngogledd Iwerddon, gall disgyblion cynradd ac ôl-gynradd gyda rhieni yn y Lluoedd Arfog fod yn gymwys i dderbyn Elfen Ariannol Cymorth i Blant y Lluoedd Arfog, sy'n rhan o Gynllun Ariannu Cyffredin yr Adran Addysg. Ar hyn o bryd, y cyfraddau yw £422.92 i blant cynradd a £434.44 i blant ôl-gynradd.

Swyddog Cymorth Addysg Plant

Mae teuluoedd milwrol yn parhau i dderbyn cymorth gyda phob agwedd ar addysg gynradd ac uwchradd gan y Swyddog Cymorth Addysg Plant, sy'n swydd Gwasanaeth Sifil yn yr MOD. Mae'r rôl yn cynnwys pob agwedd ar addysg plant, gan gynnwys cynnal Fforwm Addysg Plant Lluoedd Arfog Gogledd Iwerddon. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth o Frigâd 38, ysgolion cynradd ac ôl-gynradd, yr Awdurdod Addysg, Adran Addysg Gogledd Iwerddon, Seicolegwyr Addysgol a Chyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yr MOD.

Er na lwyddodd i holl blant y Lluoedd Arfog gael lle yn eu hysgol dewis cyntaf ym mlwyddyn academaidd 19/20, llwyddodd bob un i gael lle mewn ysgol o fewn cyrraedd hawdd. Yn wir, mae'r ffigurau dewis cyntaf yn uwch nag o fewn poblogaeth gyffredinol GI. Roedd yr holl blant a adawodd yr ysgol y llynedd wedi dewis prifysgol, addysg uwch, prentisiaeth neu gyflogaeth.

Metrigau addysg

Mae'r metrigau addysg yn cynnwys addysg plant o deuluoedd milwrol a hefyd addysg a hyfforddiant personél milwrol.

Metrigau addysg plant o deuluoedd milwrol yn Lloegr

Mae'r Adran Addysg (DfE) wedi rhyddhau'r ystadegau diweddaraf ar sut y mae plant o deuluoedd milwrol ac anfilwrol a phlant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (FSM) yn Lloegr yn perfformio ar draws mesurau cynnydd a chyrhaeddiad addysgol allweddol, a'u dosbarthiad ar draws ysgolion yn ôl sgoriau Ofsted. Mae'r DfE hefyd wedi cyhoeddi ffigurau ar gyfer 2018/19 i ddangos sut yr oedd cyrhaeddiad plant o deuluoedd milwrol ac anfilwrol, ar ddiwedd eu haddysg gynradd ac yn 16 oed, yn amrywio yn ôl faint o weithiau yr oeddent wedi symud ysgol yn ystod pob cyfnod addysgol. Rhyddhawyd hefyd yr ystadegau diweddaraf yn dangos cyrchfannau addysg ôl-16 ac ôl-18, cyflogaeth a hyfforddiant pobl ifanc oedd â statws plentyn Lluoedd Arfog ar ddiwedd yr ysgol uwchradd.

Yn ôl ystadegau blwyddyn academaidd 2018/19 mae cynnydd a chyrhaeddiad academaidd plant y Lluoedd fel grŵp, ar gyfartaledd, fwy neu lai'r un fath ag i rai o deuluoedd anfilwrol, di-FSM, ar draws y rhan fwyaf o'r mesurau. Mae anghysondeb o hyd gyda mesur Bagloriaeth Lloegr (EBacc): fel y gwelsom yn 2016/17 a 2017/18, roedd cyfran lai o blant o deuluoedd milwrol nag anfilwrol, di-FSM wedi cofrestru am yr EBacc, a chanran is wedi ennill gradd 4 neu well ym mhob piler.

Mae'n wir o hyd bod plant y Lluoedd Arfog, cynradd ac uwchradd, yn fwy tebygol na rhai o deuluoedd anfilwrol di-FSM, o fod wedi symud ysgol o leiaf unwaith.

Dengys dadansoddi fod faint y mae plant yn symud yn gysylltiedig o hyd â chyrhaeddiad academaidd: mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r safon a ddisgwylir ar ddiwedd CA2, a TGAU gradd 5 neu well mewn Saesneg a Mathemateg ar ddiwedd CA4, yn is ymhlith rhai sy'n symud ysgol yn amlach (Atodiad B, Tablau 22 a 23)

Fel yn 2019, mae plant o deuluoedd milwrol yn llai tebygol na rhai o deuluoedd anfilwrol, di-FSM o fynd i ysgolion yn Lloegr a sgoriwyd yn Rhagorol gan Ofsted – ond mae cyfradd uwch yn mynd i ysgolion a sgoriwyd fel rhai Da. Unwaith eto dengys y data amrywiadau sylweddol ar draws y wlad. Er enghraifft, mae cyfran uwch o blant o deuluoedd milwrol (28%) nag o deuluoedd anfilwrol, di-FSM (17.5%) yn Nwyrain Canolbarth Lloegr yn mynd i ysgol Ragorol – a chyfran is yn mynd i ysgolion a sgoriwyd fel rhai Angen Gwella neu Anfodhaol (10.9% o'i gymharu â 20.3%) (Atodiad B Tabl 24).

Am y tro cyntaf yn 2019, penderfynwyd cynnwys ystadegau ar gyrchfannau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant plant y Lluoedd yn adroddiad blynyddol y Cyfamod. Yn ôl y data diweddaraf ar gyrchfannau, mae plant o deuluoedd milwrol unwaith eto'r un mor debygol â rhai o deuluoedd anfilwrol, di-FSM o aros mewn addysg neu gyflogaeth reolaidd ar ddiwedd CA4 a CA5. Fodd bynnag, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae pobl ifanc gyda statws plentyn Lluoedd Arfog ar ddiwedd CA4 yn llai tebygol na rhai o deuluoedd anfilwrol, di-FSM o fynd ymlaen i addysg uwch ar ddiwedd CA5 (47% o'i gymharu â 50%) ac yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rheolaidd (26% o'i gymharu â 23%) (Atodiad B Tablau 25 a 26).

Metrigau addysg plant o deuluoedd milwrol yng Ngogledd Iwerddon

Yn 2018/19, roedd y ganran o blant y Lluoedd yng Ngogledd Iwerddon a aeth ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch yr un fath ag ar gyfer rhai o deuluoedd anfilwrol (75%) (Atodiad B Tabl 27), sy'n dangos nad oes gwahaniaeth yng nghyrchfan plant o deuluoedd milwrol ac anfilwrol ar ôl addysg uwchradd. Fodd bynnag mae'r nifer fach o blant y Lluoedd (20) yn golygu nad yw'n bosib llunio casgliad pendant.

Metrigau addysg a hyfforddiant mewn swydd

Er bod lefelau cyflogaeth cyn-filwyr yn y DU yn eithaf tebyg i, neu hyd yn oed yn well na'r cyfartalog cenedlaethol, mae canran y personél milwrol rheolaidd sy'n fodlon â'r cyfleoedd i ennill achrediad sifil a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol wedi aros yn gyson isel gyda dim ond 48% yn fodlon â'r cyfleoedd achrediad sifil a 58% yn fodlon â'r cyfleoedd datblygiad personol yn 2020 (Atodiad B Tablau 28 a 29).

Mae ffocws yr MOD ar greu diwylliant o ddatblygiad personol lle anogir personél milwrol yn barhaus i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gapasiti gallu'r Lluoedd Arfog a'u paratoi am waith nes ymlaen. Y bwriad yw bod y Rhaglen Rheoli a Dysgu Milwrol yn cynnwys darparu Cynllun Datblygiad Personol a Phroffesiynol fel un o'i gwasanaethau, i'w dreialu i ddechrau ochr yn ochr â rhaglen y Fyddin i ailddylunio llwybrau gyrfaol (y prosiect CASTLE). Bwriedir darparu'r rhaglen yn 2022/23 a'i hymgorffori mewn polisi a phroses i sicrhau bod personél milwrol yn ei defnyddio. Yr MOD hefyd yw un o'r darparwyr mwyaf o brentisiaethau yn y DU ac mae'n buddsoddi'n drwm mewn cynlluniau sy'n cefnogi addysg ddewisol, fel credydau dysgu ac amrywiol gyfleoedd achredu a gynigir drwy'r Sefydliad Dyfarniadau Amddiffyn (dolen yma) a'r Lluoedd unigol.

Cronfa Cymorth Addysg 2019 yng Ngogledd Iwerddon

Mae cyllid yr ESF yn helpu i liniaru effeithiau negyddol posib gorfod adleoli a symud o gwmpas. Mae'r cyllid wedi cynorthwyo i ddatblygu systemau bugeiliol i liniaru'r cynnydd mewn pryderon iechyd meddwl ymhlith plant.

Cafodd adnoddau 'Ystafell Ymgeledd' eu dewis yn ofalus i gynorthwyo'r amgylchedd cefnogol hwn. Mae gan y cymhorthydd dosbarth a gyflogwyd gyda'r arian gefndir mewn nyrsio iechyd meddwl, ac ynghyd â staff eraill gallodd ddefnyddio ei sgiliau i gynorthwyo plant gyda nodweddion bregus penodol. Dysgwyd strategaethau gwydnwch ac ymdopi drwy'r rhaglen Ready for Anything, wedi'i darparu mewn grwpiau bach. Mae'r ysgol yn buddsoddi'n drwm mewn adnoddau asesu diagnostig sy'n helpu i dracio cynnydd a mapio ymyriadau priodol sy'n hanfodol i blant yr effeithiwyd arnynt gan aflonyddwch i'w haddysg a gwahanol ddulliau cwricwlwm. Cymerir amser i adnabod anghenion dysgu sylfaenol y plant i ganfod unrhyw fylchau a gweithredir ymyriadau priodol mor brydlon â phosib.

Drwy'r ESF, mae'r ysgol hefyd wedi gallu darparu adnoddau cymorth dysgu a phrynu adnoddau eraill i gynyddu ei stoc o ddeunyddiau Darllen Carlam i gynorthwyo darllen hyderus ac annibynnol.

PENNOD 5 - LLETY

Llety ar draws y Deyrnas Unedig

Gwella safonau Llety Teuluoedd Milwrol

Yn ystod 2019/20 mae'r gwaith o wella moderneiddio Llety Teuluoedd Milwrol (SFA) wedi parhau. Mae cyfanswm o £123m wedi'i fuddsoddi – cynnydd o 6% ers 2018/19 – er mwyn gwneud tai'n fwy ynni-effeithlon, lleihau ôl-troed carbon a chreu gofod byw mwy modern. Roedd y cynnydd hwn mewn buddsoddiad yn cynnwys derbyniadau o osod tua 1,700 o dai gwag ar sail tymor byr ar draws y DU. Yn y flwyddyn ariannol bresennol mae'r MOD wedi clustnodi £123m ychwanegol i'w fuddsoddi mewn gwaith gwelliannau a moderneiddio tebyg. Yn ogystal, ac i gynorthwyo adfywio economi'r DU yn sgîl Covid-19, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo hwb ariannol arall o £200m i wella llety'r MOD (£122m ar gyfer llety teuluoedd milwrol a £78m ar gyfer llety byw eich hun). Gyda'r cyllid hwn bydd yr MOD yn gallu uwchraddio ac ailwampio 3,500 o gartrefi ychwanegol i bersonél milwrol a'u teuluoedd a gwella eu hamgylchedd byw ynghyd â lleihau ein hól-troed carbon ninnau. O fewn y ffigwr hwn, bydd y cyllid newydd yn talu am ailwampio dros 800 o dai a fu'n wag ers tro byd mewn ardaloedd o alw uchel, er mwyn gallu eu dyrannu.

Fel rhan o Raglen Leoliadau'r Fyddin, mae pob un o'r 917 o dai newydd ar Salisbury Plain bellach wedi eu trosglwyddo gan y datblygwr i'w dyrannu i deuluoedd milwrol yn adleoli o'r Almaen. Mae'r tai hyn hefyd wedi cyfrannu at gwrdd ag angen tymor byr i gartrefu tua 130 o deuluoedd milwrol wedi eu hadleoli i ysgafnu pwysau Covid-19 ar wasanaethau iechyd gwledydd eraill.

Drwy'r strategaeth fuddsoddi hon o wella, moderneiddio a phrynu llety SFA, mae'r MOD wedi gallu parhau i gwrdd â'i ymrwymiad i ddyrannu dim ond tai sy'n bodloni'r Safon Cartrefi Boddhaol (thermal comfort). The fiscal stimulus funding will help to improve those numbers further. Ar hyn o bryd mae 97% o gartrefi

teuluoedd milwrol yn cyrraedd Safon Cartrefi Boddhaol y Llywodraeth, a 87% yn Gartrefi Boddhaol a Mwy (gyda mwy o gysuron thermal). Bydd yr hwb ariannol hwn yn helpu i wella'r ffigyrau hyn ymhellach..

Darparu gwasanaeth

Ar y cyfan mae'r gwelliannau darparu a ddisgrifiwyd yn adroddiad y llynedd wedi parhau. Dirywiodd y perfformiad o gwmpas Rhagfyr ac Ionawr yn ne-orllewin Lloegr wrth i Amey Plc, darparwr y contract National Housing Prime, wneud addasiadau i'w gadwyn gyflenwi er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyson yn y rhanbarth.

Effeithiodd cyfyngiadau Covid-19, yn enwedig o ran cyflenwi deunyddiau, ar berfformiad ym misoedd Mawrth ac Ebrill hefyd. Er hynny, mae gwasanaeth ymateb cynnal a chadw Amey bellach yn bodloni neu'n rhagori'n rheolaidd ar darged y dangosydd perfformiad allweddol. Mae Amey hefyd yn parhau i gyrraedd ei dargedau perfformiad ar gyfer dyrannu'n brydlon a pharatoi ar gyfer symud i mewn. Gwelsom hyn yn glir ar ôl ail-ddechrau symudiadau heb fod yn hanfodol ar ôl gorfod rhewi postiadau dros dro oherwydd Covid-19, gyda dros 3,500 o symudiadau wedi digwydd rhwng canol Mehefin ac Awst 2020.

Bodddhad cwsmeriaid

Mae'r duedd gadarnhaol mewn bodddhad cwsmeriaid wedi parhau. Er na newidiodd y bodddhad gyda safon gyffredinol y llety milwrol ers 2016, dengys canlyniadau Arolwg Agweddau Parhaus y Lluoedd gynnydd mewn bodddhad gyda'r ymateb i geisiadau cynnal a chadw a thrwsio, ac ansawdd y gwaith, ers 2018 am y naill a 2017 am y llall. Er hynny maen nhw'n parhau'n is na lefelau bodddhad 2015. Cofnododd arolwg annibynnol yr MOD hefyd gynnydd o 3% mewn bodddhad cyffredinol (i fyny i 67%) dros gyfnod treigl o 12 mis hyd at fis Mawrth. Gosododd yr MOD darged o 70% ar gyfer yr un cyfnod treigl o 12 mis hyd at fis Mawrth 2021. Er bod y canlyniadau hyn i'w croesawu, y gobaith yw y bydd effaith yr hwb ariannol ar gyflymdra moderneiddio a gwelliannau i lety SFA yn cael ei adlewyrchu mewn lefelau bodddhad uwch.

Rheoli'r ystad SFA

Yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin 2019 ynghylch y nifer uchel o dai gwag, mae'r MOD wedi ymrwymo i leihau nifer y tai gwag i'r ganran reoli ofynnol o 10% (tua 5,000 o dai) erbyn yr Hydref 2021. Drwy'r Cynllun Lleihau Tai Gwag, bydd yr MOD yn parhau i leihau nifer y tai gwag drwy drosglwyddo tai'n ôl i Annington Homes6 (cytunwyd i drosglwyddo o leiaf 500 y flwyddyn dros saith mlynedd), dymchwel tai nad oes eu hangen mwyach, ehangu cymhwysa i gyplau sy'n cyd-fyw a phobl sy'n gadael y Lluoedd, a chyflymu ein rhaglen is-osod tai. Ar hyn o bryd mae gan yr MOD tua 3,000 o gartrefi sydd dros dro'n weddill i'r galw ar gyfer eu his-osod i aelodau o'r cyhoedd, ar ôl proses sgrinio, am renti marchnad cyfredol. Mae dros fil o dai wedi cael eu dyrannu i deuluoedd milwrol sy'n cyd-fyw a 1,700 o dai wedi cael eu his-osod. Bydd hyn yn gwneud y defnydd mwyaf o'r tai sydd ar gael gan gynhyrchu refeniw o renti ynghyd â diogelu cartrefi i deuluoedd milwrol cymwys fel nad oes unrhyw anfantais iddynt. Gyda'r mesurau hyn yn eu lle, disgwylir i nifer y tai gwag ostwng o tua 21% yn Ebrill 2020 i tua 12% erbyn Mawrth 2021.

Cyd-fyw mewn llety SFA dros ben

Yn 2019, newidiodd yr MOD ei bolisi llety hirsefydlog o beidio â chaniatáu cyd-fyw er mwyn ehangu mynediad at lety SFA dros ben yn y DU i bersonél milwrol sy'n gallu dangos eu bod mewn perthynas hirdymor. Ym mis Chwefror, diwygiwyd y polisi

ymhellach i ddileu'r gofyniad bod personél milwrol wedi cwblhau mwy na phedair blynedd o wasanaeth

cyn gallu gwneud cais i gyd-fyw mewn SFA dros ben, lle'r oedd y llety ar gael. Ers 1 Hydref 2020, mae 1451 o bersonél milwrol mewn perthynas hirdymor wedi eu lletya mewn stoc SFA dros ben gyda 163 arall yn aros i symud i mewn.

Llety Byw Eich Hun (SLA)

Mae ffocws wedi bod ar raddio llety SLA gyda'r prosiect System Gwybodaeth Reoli SLA. Y nod yw cyfuno data ar gyflwr SLA mewn un lle fel bod defnyddwyr allweddol yn gallu ei ddefnyddio a'i asesu i wneud penderfyniadau buddsoddi seiliedig ar ddigon o wybodaeth er mwyn targedu dull gwell o uwchraddio a moderneiddio SLA. Roedd Cam 1, a ddechreuodd yn Ebrill 2019, yn cyflwyno dealltwriaeth lawn o'r gofyniad i ddarparu SLA gan sefydlu data sylfaenol, cychwynnol i greu darlun mwy cywir o'r ystad SLA. Mae'r prosiect wedi'i ariannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a bellach yng Ngham 2. Felly dylai fod gan yr MOD un ffynhonnell gyfunol o ddata SLA cywir ynghyd â system beilot o archebu a dyrannu SLA erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21, a'i gweithredu'n llawn ar draws yr MOD ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

Model Llety'r Dyfodol

Bydd Model Llety'r Dyfodol yn rhoi mwy o ddewis i bersonél milwrol o ran ble, sut a gyda phwy y maen nhw am fyw, gan ddefnyddio'r sector tai rhent preifat ynghyd â chymorth i brynu cartref, ochr yn ochr ag opsiynau llety presennol yr MOD. Mae polisi Model Llety'r Dyfodol wedi'i ddylunio fel bod y gost o rentu eiddo i bersonél milwrol fwy neu lai'r un fath â chost llety SFA o fath tebyg. Er mwyn moderneiddio'r cynnig, mae'r hawl i lety'n adlewyrchu maint y teulu'n hytrach na swydd filwrol.



Swyddog Feddyg Iau (OCd) Rhiannon Austin, o Uned Cymorth Gwasanaethau Meddygol y Fyddin, oedd y gyntaf i dderbyn goriadau i'w hystafell newydd yn Burma House, anecs newydd yn Llety Swyddogion a Swyddogion Gwarant Wavell ym Maracs Wavell.

Mae hefyd bellach yn cydnabod personél milwrol sydd mewn perthynas hirdymor sefydlog ac, o ganlyniad, eu hawl i lety cymhorthdal.

Yn dilyn lansio peilot Model Llety'r Dyfodol (FAM) ym mis Medi 2019 yng Nghanolfan Llynges Clyde EM, lanswyd dau safle peilot arall: Garsiwn Aldershot ym mis Ionawr ac RAF Wittering ym mis Mehefin. Bydd y cynlluniau peilot yn para am tua thair blynedd gyda thystiolaeth yn cael ei chasglu i addasu'r polisi terfynol. Yn dilyn y cynlluniau peilot, gwneir penderfyniad i weithredu Model Llety'r Dyfodol ar draws y DU neu beidio. Awgryma'r wybodaeth a'r adborth hyd yma fod ehangu cymhwysa i lety'r MOD wedi bod yn bolisi cadarnhaol a chynhwysol gyda rhai personél milwrol yn adrodd mai hyn a wnaeth iddynt benderfynu aros yn y Lluoedd. Rhwng Medi 2019 a Medi 2020, dewisodd 1,110 o bersonél milwrol fyw mewn llety o dan y FAM, sy'n cyfateb i 35-36% o'r boblogaeth sy'n gymwys am lety FAM. Mae adolygiad strategol o'r dystiolaeth hyd yma ar y gweill ar hyn o bryd ac arolwg bodddhad personél milwrol i'w gynnal ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Troed ar yr ysgol eiddo

Mae cynllun Cymorth i Brynu'r Lluoedd Arfog, a gyflwynwyd yn 2014, yn helpu personél milwrol i roi troed, neu i aros ar yr ysgol eiddo drwy gael benthgyl hyd at 50% o'u cyflog blyneddol (hyd at uchafswm o £25,000) i brynu eu heiddo cyntaf. Hyd at 30 Medi 2020 mae'r cynllun Cymorth Prynu i Bersonél Milwrol wedi helpu tua 22,200 o bersonél milwrol i brynu eu tai eu hunain am gost o £336m (tua £15,100 i bob hawliad). Yn Hydref 2019 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn y bwriedir ymestyn y cynllun tan ddiwedd Rhagfyr 2022.

Llety yn Lloegr

Mynediad at dai cymdeithasol

Drwy gyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn Adroddiad Blynyddol y Cyfamod yn 2019, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ym mis Mehefin cyhoeddwyd canllawiau statudol newydd7 i wella mynediad personél milwrol, cyn-filwyr a'u teuluoedd at dai cymdeithasol. Mae'r canllawiau'n ychwanegu at ganllawiau a gyhoeddwyd yn 2012 a 2013 ac yn disgrifio:

- sut y gall awdurdodau lleol sicrhau bod aelodau o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr sy'n dioddef salwch meddwl yn cael blaenoriaeth briodol ar gyfer tai cymdeithasol
- bod disgwyl i awdurdodau lleol hepgor unrhyw ofynion cysylltiad lleol ar gyfer partneriaid priod neu sifil i bersonél milwrol, sydd wedi ysgaru neu wahanu ac yn gorfod symud allan o lety a ddarperir gan yr MOD
- sut y gall awdurdodau lleol adnabod ceisiadau gan aelodau o'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd, gan gynnwys drwy ddarparu hyfforddiant i staff, i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol

Cartrefi Cyntaf

Cartrefi Cyntaf yw cynllun perchentyaeth blaenllaw'r llywodraeth, wedi'i ddyfeisio i roi disgownt o 30% o leiaf ar gartref newydd i brynwyr tro cyntaf lleol. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Cartrefi Cyntaf, ac fel rhan o hyn cynigiwyd na ddylai fod angen i bersonél na chyn-filwyr o'r Lluoedd Arfog fodloni unrhyw faen prawf cysylltiad lleol a allai fod yn ofynnol fel arall. Ym mis Awst, cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad.8 Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig a chadarnhawyd y cymerir y bydd personél neu gyn-filwyr o'r Lluoedd Arfog o fewn pum mlynedd i adael y Lluoedd Arfog wedi bodloni unrhyw feini prawf cysylltiad lleol sy'n ofynnol gan unrhyw awdurdod lleol yn Lloegr. Bydd hefyd yn cael ei ymestyn i bartneriaid priod neu sifil mewn profedigaeth ar ôl colli aelod o'r Lluoedd Arfog os achoswyd eu marwolaeth yn llwyr neu'n rhannol gan eu gwasanaeth.

Mae'r cyfyngiadau ar osod Cartrefi Cyntaf wedi eu llunio i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau aelodau o'r Lluoedd Arfog. Pan fydd personél wedi eu postio oddi cartref, caniateir iddynt osod eu Cartref Cyntaf am gyn hired ag y bo angen.

Digartrefedd

Yn 2018 gweithredodd y llywodraeth Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017, y ddeddfwriaeth ddiwygiedig fwyaf uchelgeisiol ar hyn mewn dros ddegawd. Fel rhan o ddyletswydd atgyfeirio'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd, a ddaeth i rym yn Hydref 2018, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn atgyfeirio aelodau rheolaidd o'r Lluoedd Arfog yn Lloegr at awdurdod tai lleol o fewn 56 diwrnod, lle credir eu bod yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o fod yn ddigartref (gyda chaniatâd yr unigolyn). Mae'r ddyletswydd i atgyfeirio'n helpu i sicrhau bod rhai gyda bygythiad o ddigartrefedd yn cael eu hadnabod yn gynt a chael y cymorth angenrheidiol i ddatrys ac atal bod yn ddigartref.

Mae'r Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf Lleihau Digartrefedd, gan gynnwys y ddyletswydd i atgyfeirio Dengys canfyddiadau'r adolygiad fod y gwasanaeth wedi gwella i rai na fyddai o'r blaen wedi derbyn llawer o gymorth a bod aelwydydd yn derbyn cymorth yn gynt am hirach. O gofio bod y Ddeddf yn newydd a pharhau i wreiddio, canfuwyd rhai heriau gyda gweinyddu, casglu data a gweithio ar-y-cyd. Byddwn yn parhau i gynorthwyo awdurdodau lleol i weithredu'r Ddeddf a goresgyn yr heriau hyn.

Mae gan rywun sy'n fregus o ganlyniad i fod yn aelod o'r Lluoedd Arfog rheolaidd (neu'n gyn-filwr) flaenoriaeth llety gan yr awdurdod lleol.

Ar sail yr ystadegau digartrefedd diweddaraf (Ebrill - Mehefin 2020), o'r 63,570 o gartrefi yr oedd dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt dros y cyfnod, fod angen cymorth ar 410 o ganlyniad i fod yn y Lluoedd Arfog.

Llety yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi ei bod am adolygu'r cod canllawiau ac yn ei ddiweddarau mewn cyswllt ag ystod o randdeiliaid. O dan y cod canllawiau mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol, wrth ystyried angen brys am dai, roi blaenoriaeth resymol i unrhyw un gydag anaf difrifol, cyflwr meddygol neu unrhyw nam y cawsant hwy, neu aelod o'u cartref, o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o anghenion blaenoriaeth ar gyfer holl boblogaeth Cymru, gan gynnwys cymuned y Lluoedd Arfog, i ddeall y goblygiadau, bwriadol ac anfwriadol, o wneud unrhyw newidiadau posib.

Oherwydd Covid-19, gohiriwyd y ddau ddarn o waith hwn, oherwydd ffocws ar fyrder y Tîm Atal Digartrefedd oedd sicrhau bod pobl sy'n cysgu ar y stryd, neu sydd mewn llety dros dro anaddas, yn derbyn llety a chymorth brys. Fel rhan o gam nesaf ei hymateb i Covid-19, mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi hyd at £50m mewn trawsnewid gwasanaethau a sicrhau bod pobl mewn llety dros dro'n gallu symud ymlaen at lety cynaliadwy hirdymor.

Mae elusennau ac asiantaethau yng Nghymru'n parhau i ddarparu cymorth wedi'i deilwrio i'r gymuned cyn-filwyr yng Nghymru. Mae Partneriaeth Cyn-filwyr Cymru a Homes for Veterans Cymru (Alabare Christian Care and Support) yn gweithio gyda'i gilydd i helpu cyn-filwyr i ddod o hyd i lety cymorth ac ateb unrhyw anghenion cymorth parhaus. Mae'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i asesu anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd gan ddarparu cynllun cymorth fel bo'r cyn-filwr yn gallu rheoli eu cartref yn llwyddiannus.

Llety yn Yr Alban

Mwy o gartrefi

Drwy ei Rhaglen Cyflenwi Tai Fforddiadwy, mae Llywodraeth Yr Alban yn parhau i gynnig cyllid o'r grant £1.3m a ddyfarnwyd i Veterans Housing Scotland i'w cynorthwyo i weithredu cynigion i ddarparu cartrefi ychwanegol i gyn-bersonél milwrol ag anableddau corfforol a seicolegol. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i weithredu cyfleoedd datblygu posib yn Wishaw a Brought Ferry.

Llwybr digartrefedd

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi gofyn i gadeirydd Grŵp Tai Veterans Scotland symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu llwybr atal digartrefedd cyn-filwyr. Bydd y wybodaeth a'r arbenigedd a ddefnyddir i ddatblygu'r llwybr hwn yn sicrhau bod y system dai yn Yr Alban yn ymateb i anghenion cyn-filwyr ac yn atal digartrefedd. Disgwylir i'r gwaith hwn ddechrau tuag at ddiwedd 2020, gyda chefnogaeth Llywodraeth Yr Alban.

Rhannu Ecwiti Marchnad Agored

Mae'r cynllun Rhannu Ecwiti Marchnad Agored yn parhau i fod ar gael i gyn-filwyr a adawodd y Lluoedd Arfog yn y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn gallu prynu cartref sydd ar werth ar y farchnad agored, gyda chymorth gan Lywodraeth Yr Alban os na fedrant fforddio'r gost i gyd. Mae gan y cartrefi hyn fynediad blaenoriaeth at y cynllun sy'n golygu nad oes raid iddynt fod yn brynwyr tro cyntaf i'w ddefnyddio.

Materion Milwrol

Bydd Llywodraeth Yr Alban yn parhau i gynorthwyo Housing Options Scotland i ddarparu ei brosiect Military Matters. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar faterion tai sy'n effeithio ar bobl yn y Lluoedd Arfog yn Yr Alban. Mae'n agored i holl bersonél milwrol y DU sy'n pontio i fywyd sifil yn Yr Alban, a hefyd i gyn-filwyr, gan eu helpu i ddod o hyd i gartref iawn yn y lle iawn. Ers sefydlu yn 2012 mae'r prosiect wedi helpu dros 700 o bobl, gyda 117 o atgyfeiriadau newydd yn 2019/20.

Poppyscotland

Cyfrannodd Lywodraeth Yr Alban at Supporting the Armed Forces community with Housing in Scotland - A Best Practice Guide gan Poppyscotland a Veterans Scotland – a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019

Llety i'r Lluoedd Arfog

Arhosodd foddhad y Lluoedd Arfog gyda safon y Llety Teuluoedd Milwrol (SFA) a Llety Byw Eich Hun (SLA) ar tua 50%, tebyg i'r hyn ydoedd yn 2017 (Atodiad B Tabl 31). Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y lefelau boddhad yn gwella gyda'r buddsoddiad parhaus mewn gwella a moderneiddio'r ddau fath o lety, yn enwedig gyda hwb yr ysgogiad ariannol newydd gan y Llywodraeth. Yn dilyn y cynnydd ym moddhad teuluoedd milwrol gyda phrydlondeb ac ansawdd y gwaith o drwsio a chynnal a chadw llety SFA yn 2019, arhosodd y lefelau boddhad ar yr un lefel yn 2020 (Atodiad B Tablau 32 a 33). Mae hyn yn adlewyrchu ymdrechion parhaus yr MOD ac Amey Plc i gynnal safonau darparu gwasanaeth er gwaethaf effaith Covid-19 ar y gadwyn gyflenwi.

Rhentwyr cymdeithasol a phreifat yn Lloegr

Yn 2017/18 roedd bron i dri chwarter (76%) ein personél milwrol neu gyn-filwyr (yn Lloegr) yn byw mewn cartrefi perchen-feddianwyr (lle maen nhw'n berchen yn llwyr ar eu tai neu'n prynu gyda morgais) sy'n uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol (64%). Nid oedd gwahaniaeth yn y ganran o bersonél milwrol neu gyn-filwyr oedd yn rhentu tai cymdeithasol (13%) neu'n rhentu tai preifat (11%). Roedd hyn yn wahanol i'r boblogaeth yn gyffredinol lle'r oedd y sector rhentu preifat yn fwy na'r sector rhentu tai cymdeithasol. Roedd boddhad gyda'r sector cymdeithasol a rhent o ran llety, tenantiaeth, ardal a gwaith trwsio a chynnal a chadw yn 2018/19 yr un fath neu'n well i bersonél milwrol a'u teuluoedd o'i gymharu â rhentwyr a theuluoedd yn y boblogaeth yn gyffredinol (Atodiad B Tablau 37 a 38).

Mae canran y personél milwrol a adawodd y Lluoedd yn Lloegr ddiweddar, a thai cymdeithasol wedi eu dyrannu iddynt, er heb fyw yn ardal yr awdurdod lleol am bum mlynedd, wedi bod yn uwch nag ar gyfer cyn-filwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf (Atodiad B Tabl 35). Mae canran y personél milwrol a adawodd y Lluoedd yn Lloegr yn ddiweddar, a thai cymdeithasol wedi eu dyrannu iddynt, o fewn chwe mis i fod ar y rhestr aros, hefyd wedi bod yn gyson uwch nag ar gyfer cyn-filwyr (Atodiad B Tabl 36). Gyda'r data, mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gallu monitro'r pecyn mesurau a gyflwynwyd yn 2012 i sicrhau bod gan aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yr un mynediad at dai cymdeithasol ac nad oes unrhyw anfantais iddynt oherwydd bod rhaid iddynt symud o gwmpas yn y Lluoedd. Mae'r pecyn yn cynnwys sicrhau bod cyn-filwyr sydd angen tai ar fyrder arnynt, a phersonél milwrol gyda salwch difrifol neu anabledd, bob amser yn cael blaenoriaeth uchel ar gyfer tai cymdeithasol ac nad yw cynghorau'n cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol i anghymhwyso personél milwrol sydd wedi gadael y Lluoedd yn ddiweddar.

Digartrefedd statudol yn Yr Alban

Yn ystod 2019/20 yn Yr Alban, roedd gan 801 o gartrefi a aseswyd i fod yn ddigartref aelod oedd wedi bod yn y Lluoedd Arfog (3% o'r holl aelwydydd a aseswyd fel rhai digartref, Atodiad B Tabl 39). Mae Llywodraeth Yr Alban wedi ymrwmo i atal digartrefedd ymhlith cyn-filwyr drwy weithredu mesurau fel:

- canllawiau gwell i sicrhau bod strategaethau tai a dyrannu tai cymdeithasol yn ystyried gofynion cyn-filwyr yn llawn
- gweithio gyda mudiadau trydydd sector perthnasol y sector cyhoeddus ac adrannau'r llywodraeth i ddatblygu strategaethau fel llwybrau i atal digartrefedd a chynlluniau ar gyfer cartrefi yn 2040



Mae llety o ansawdd da i bersonél milwrol a'u teuluoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD).

PENNOD 6 – CWESTAU AC YMGYSYLLTU BARNWROL

Cwestau: Yr Uned Cwestau Amddiffyn

Yr Uned Cwestau Amddiffyn yw pwynt cyswllt yr MOD ar gyfer crwneriaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac i Uned Ymchwilio Marwolaethau'r Alban, wrth ymchwilio i achosion marwolaeth personél milwrol, cyn-filwyr a sifiliaid yr MOD. Mae'r Uned yn gyfrifol am sicrhau bod deunydd perthnasol i ymchwiliad wedi'i roi i grwneriaid neu i Uned Ymchwilio Marwolaethau'r Alban. Mae'r Uned Cwestau Amddiffyn yn trefnu cymorth ac ymgynghori â thystion i gyn-filwyr, personél milwrol a sifiliaid yr MOD sy'n cael eu galw i fod yn dystion mewn cwestau. Mae'r Uned hefyd yn cynnig briffio i berthnasau agosaf i'w helpu i ddeall y broses gwestau.

Cofnododd yr Uned fod 78 o gwestau / ymchwiliadau (isod) wedi eu cynnal rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2020.

Dros y cyfnod adrodd hwn, roedd Uned Ymchwilio Marwolaethau'r Alban wedi cadarnhau i'r Uned Cwestau Amddiffyn eu bod wedi gorffen ymchwilio tair marwolaeth personél milwrol (personél llawn amser, wrth gefn a chyn-filwyr). Penderfynodd swyddfa'r Procuradur Ffisgal fod eu hymchwiliadau i'r achosion hyn yn ddigonol i ddeall yr hyn achosodd y marwolaethau, ac nad oedd angen cynnal Ymchwiliad Damweiniau Marwol (sy'n cyfateb i gwest yn Yr Alban).

Dros y cyfnod adrodd hwn, roedd Gwasanaeth Crwneriaid Gogledd Iwerddon wedi cadarnhau i'r Uned Cwestau Amddiffyn fod ymchwiliadau i ddwy farwolaeth personél milwrol (personél llawn amser, wrth gefn a chyn-filwyr) wedi eu cwblhau a bod eu hymchwiliadau'n ddigonol i ddeall yr hyn achosodd y marwolaethau ac nad oedd angen cynnal cwest.

Mae'r Uned Cwestau Amddiffyn yn anhepgor i sicrhau bod yr MOD yn cyflawni eu dyletswydd i gynorthwyo crwneriaid, Uned Ymchwilio Marwolaethau'r Alban, teuluoedd mewn profedigaeth a phersonél milwrol a sifil yr MOD sy'n ymchwilio i farwolaethau personél milwrol, cyn-filwyr a gweision sifil yr MOD. Mae'r Uned yn adolygu pob achos i sicrhau bod yr MOD yn darparu lefel a math o gymorth wedi'i deilwrio i anghenion yr achos. Mae aelodau'r Uned yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol ynghyd â mynediad at rwydwaith o arbenigwyr sy'n rhoi cymorth cyfreithiol a bugeiliol. Mae hyn yn cynnwys cyfreithwyr o Adran Gyfreithiol y llywodraeth ynghyd ag arbenigwyr ieuchyd meddwl a mynediad at gymorth lles drwy Gadwyn Awdurdod unigol neu sefydliadau fel rhydwraith y Cymdeithasau Milwrol ac elusennau'r Lluoedd.

Cwestau Etifeddol Gogledd Iwerddon

Sefydlwyd tîm Cwestau Etifeddol Gogledd Iwerddon y llynedd i ddelio â rhaglen cwestau etifeddol helaeth Gogledd Iwerddon. Ym mis Hydref 2019, fe wnaeth Crwner Llywyddol Gogledd Iwerddon ddatganiad yn disgrifio ei chynllun i ddelio â'r 43 cwest ar ei rhestr o fewn pum mlynedd, gan ddechrau yn Ebrill 2020. Gohiriwyd hyn oherwydd Covid-19, ond deellir y bydd y broses yn ail-ddechrau yn yr hydref.

Deddfwriaeth ar warchodaeth

Fe wnaeth yr ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus 2019 ar fesurau gwarchod cyfreithiol arfaethedig i bersonél milwrol a chyn-filwyr a wasanaethodd y tu allan i'r DU oleuo'r mesurau a gafodd eu cynnwys yn y Bil Gweithrediadau Tramor (Personél Milwrol a Chyn-filwyr), a gyflwynwyd yn y Senedd ar 18 Mawrth. Mae'r Bil yn gweithredu ymrwymadau maniffesto ac etholiad y Ceidwadwyr i gyflwyno deddfwriaeth newydd i ddelio â'r hawliadau blinderus sy'n tansellio ein Lluoedd Arfog, a hynny o fewn 100 diwrnod i'r llywodraeth newydd. Cyhoeddwyd Dadansoddiad ac Ymateb yr MOD i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar 17 Medi 2020.

Bydd y llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael ag etifeddiaeth y gorffennol yng Ngogledd Iwerddon gyda ffocws ar gymodi, darparu dros ddiodefwyr a darfod y cylch o ailymchwilio i'r Helyntion a fethodd gyn-filwyr a diodefwyr fel ei gilydd, gan weithredu ein hymrwymadau i gyn-filwyr Gogledd Iwerddon. Mae'r MOD yn parhau i weithio gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon ar y materion pwysig hyn.

PENNOD 7 – BYWYD TEULUOL

Cynllun Gweithredu Strategaeth Teuluoedd 2018-2020

Mae Strategaeth Teuluoedd Lluoedd Arfog y DU, a gyhoeddwyd yn 2016, yn para pum mlynedd. Mae'r ffocws eleni felly wedi bod ar asesu cynnydd ers 2016. Sylfaen y gwaith hwn oedd yr 110 argymhelliad a wnaed gan yr adolygiad annibynnol o'r cymorth a roddir i deuluoedd milwrol. Bydd cynnydd da'n cael ei gydnabod ynghyd ag unrhyw faes lle mae angen cryfhau'r cymorth. Drwy loywi'r strategaeth a'r camau gweithredu, bydd gennym gyfres newydd o egwyddorion a strategaethau ar gyfer gwella canlyniadau i deuluoedd milwrol modern ac amrywiol i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth a'r gydnabyddiaeth y maen nhw'n ei haeddu.

Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, gwnaed cynnydd da eleni gyda chyflawni'r ymrwymadau yng Nghynllun Gweithredu 2018-20, fel y disgrifiwn yn yr adrannau canlynol.

Gofal plant cofleidiol

Ym mis Medi, dechreuodd y rhaglen beilot Gofal Plant Cofleidiol wneud taliadau i deuluoedd yn y safleoedd peilot cyntaf yn RAF High Wycombe ac RAF Halton, gyda safleoedd peilot pellach i'w lansio yn ardal Lyngesol Plymouth a Garsiwn Catraeth yn Ionawr 2021. Rhoddir cyllid i deuluoedd cymwys, gyda phlant rhwng 4-11 oed, i dalu am ofal plant cyn ac ar ôl ysgol fel bod partneriaid priod neu sifil yn gallu manteisio ar wahanol arferion gweithio, gan gynnwys drwy ymestyn eu diwrnod gwaith. Adroddir ar gynnydd y treialon yn adroddiad blynyddol Cyfamod y flwyddyn nesaf gyda phenderfyniad yn debygol yn 2021 i benderfynu ar ehangu, cyflymdra a strwythur cyflwyniad pellach y rhaglen.

Mae'r rhaglen beilot yn cael ei darparu gan dîm Cymorth Gofal Plant newydd yr MOD a sefydlwyd i helpu teuluoedd milwrol i ddeall beth sydd eisoes ar gael a helpu i ddileu'r anfantais y gall teuluoedd milwrol weithiau ei wynebu wrth symud o fewn y DU. Mae'r tîm yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau milwrol i sicrhau, lle mae nifer uchel o deuluoedd milwrol mewn ardal, bod y ddarpariaeth leol yn ddigonol i ateb y galw.

Cymorth i gyflogaeth partneriaid

Yn 2019 fe noddodd Gymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol a Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu gais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod i lansio rhaglen beilot i ddatblygu'r Rhwydwaith Cydweithio Milwrol ymhellach ar draws yr ystad amddiffyn yn dilyn ei lansio'n llwyddiannus gan dîm o bartneriaid milwrol. Mae'r MOD yn rhan o'r Grŵp Llywio, ynghyd â'r tair Ffederasiwn Teuluoedd, ar gyfer y rhaglen beilot tri-Llu ac wrthi'n gweithio i ddiweddarau polisi'r ystad er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i sefydliadau lleol gael defnyddio cyfleusterau o'r fath os oes galw.

Mae llwyfan swyddi Teuluoedd y Lluoedd, sef rhaglen ar y cyd rhwng Ffederasiynau'r Lluoedd, wedi'i chefnogi gan dîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yr MOD, yn mynd o nerth i nerth gyda dros 2,000 o ddefnyddwyr cofrestredig a 2,192 o swyddi gyda 623 o gyflogwyr wedi eu rhestru ym mis Medi 2020. Ar ddechrau 2020, roedd y llwyfan wedi'i gysylltu'n uniongyrchol i Swyddi Gwasanaeth Sifil. Hefyd, mae meini prawf Gwobrau Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr 2020 yn mynnu bod pawb a enwebir yn hysbysebu swyddi ar borthladd Swyddi Teuluoedd y Lluoedd.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r MOD wedi ymrwymo i lansio rhaglen Cymorth Gyrfaoedd Partneriaid sy'n rhaglen beilot i 750 o gyfranogwyr. Gan geisio dysgu o wersi treial cyflogaeth partneriaid 2016, mae'r rhaglen yn cynnig cymorth ar-lein hygyrch i bartneriaid priod a sifil personél milwrol drwy lwyfan ar-lein wedi'i ddarparu gan y Bartneriaeth Pontio Gyrfa. Gellir ymgaisio o'r 1 Hydref 2020, gyda'r rhaglen yn lansio'n swyddogol ym mis Tachwedd ac i bara chwe mis. Bydd y cymorth yn cynnwys:

- cyfarwyddyd gyrfaoled wedi'i deilwrio gan ymgynghorwyr gyrfaoled y Bartneriaeth Pontio Gyrfa, gan helpu partneriaid priod a sifil i ddod o hyd i'r gyflogaeth iawn
- cymorth gan ymgynghorydd gyrfaoled personol partner priod neu sifil, gan helpu i greu cynllun gyrfaoled personol
- mynediad at hunan-asiadau i helpu partneriaid priod a sifil i adnabod eu cryfderau a meysydd lle mae angen gwella
- cyfarwyddyd arbenigol ar sut i greu CV pwerus ac effeithiol fel bod partneriaid priod a sifil yn gwneud argraff ar gyflogwyr
- cyfeirio at gymorth cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant gan sefydliadau dibynadwy
- mynediad at wasanaethau lles y Llu dan sylw, i warantu yr atebir unrhyw ymholiad lles, neu fel arall, yn brydlon gan arbenigwyr
- adnoddau'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynorthwyo'r broses o chwilio am waith
- cyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth perthnasol eraill yn y sector lle bo angen.

Yr adroddiad Living in Our Shoes

Adolygiad annibynnol o gymorth i deuluoedd milwrol, wedi'i gomisiynu gan yr MOD a'i arwain gan Andrew Selous AS, yw Living in Our Shoes10. Ar gyfer yr adolygiad, bu Andrew Selous AS a'i brif ymchwilydd, yr Athro Jan Walker, yn siarad yn helaeth â theuluoedd milwrol am eu profiad o fywyd yn y Lluoedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 30 Mehefin gyda 110 o argymhellion penodol yn galw am fwy o bwyslais i deuluoedd yn y Cyfamod a bod cydnabyddiaeth o'u profiad yn cael ei wneud yn flaenoriaeth genedlaethol. Bydd y llywodraeth yn ymateb erbyn diwedd 2020.

Gloywi'r Strategaeth Teuluoedd

Ochr yn ochr â'r adolygiad cynhwysfawr Living in Our Shoes, bydd yr MOD, y llywodraeth a phartneriaid y sector elusennol yn ystyried:

- adolygiad Families Fighting On fforwm Lluoedd ag Anghenion Ychwanegol
- argymhellion perthnasol yn adroddiad Stick or Twist Mark Francois
- adroddiadau gan Ffederasiynau'r Lluoedd yn ystyried yr heriau sy'n wynebu teuluoedd ar wasgar a chyplau lle mae'r ddau yn y Lluoedd
- y byd academaidd ehangach ar ystod o faterion

Bydd hyn oll yn goleuo'r gwaith o loywi'r Strategaeth Teuluoedd. Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth newydd, bydd yr MOD yn cynnal cyfres o ymarferion ymgynghori ar faterion o bwys gyda chanlyniadau'r broses ymgynghori'n goleuo cynllun gweithredu fydd wedi derbyn adnoddau a blaenoriaeth lawn.

Er mwyn adeiladu ar fomentwm y gwaith hwn, mae'r MOD wedi sefydlu Grŵp Llywio Teuluoedd Milwrol sy'n cyfarfod dwywaith y flwyddyn gyda chynrychiolwyr ar draws llywodraeth, y gwledydd datganoledig, Ffederasiynau'r Teuluoedd a'r sector elusennol. Prif rôl y Grŵp fydd olrhain cynnydd y Strategaeth Teuluoedd a'r cynllun gweithredu, gan dderbyn diweddariadau pob chwe mis ar ffrydiau gwaith y Strategaeth sef:

- cyfathrebu a'r Cyfamod
- iechyd a lles
- plant
- bywyd teuluol
- cartref teuluol
- cymorth i bartneriaid
- cymorth i bersonél milwrol o'r tu allan i'r DU, a'u teuluoedd

Bydd yr adroddiad cynnydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2021 gyda diweddariad gaeaf yn Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog 2021.

Y rhaglen Barriers to Family Life

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaeth rhaglen Removing Barriers to Family Life Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod 60 dyfarniad gwerth dros £7m i gynorthwyo teuluoedd milwrol ar draws y DU. Ariannwyd ystod o brosiectau o fudd i deuluoedd, rhai'n canolbwyntio mwy ar deuluoedd a gofalwyr cyn-filwyr ac eraill yn gynorthwyo plant a phobl ifanc mewn teuluoedd milwrol.

Yn Yr Alban dyfarnwyd £91,072 i Ddiwydiannau'r Llenng Brydeinig Frenhinol (RBLI) i roi profiadau gwaith ystyrlon gyda thâl i bartneriaid priod a sifil er mwyn lleihau ynysu, annog cyfranogiad a gwella sgiliau, fydd yn cyfrannu at iechyd corfforol a meddwl da. Hyn a ddywedodd Michelle Ferguson, Cyfarwyddwr Scotland's Bravest Manufacturing Company, un o is-gwmnïau RBLI: "Rydym wrth ein bodd o dderbyn yr arian gan Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod. Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i bartneriaid priod a sifil elwa o brosiect wedi'i anelu'n benodol at leihau ynysu a gwella cydlyniant cymunedol. Mae'r astudiaethau achos a gasglwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos pa mor hanfodol yw'r gwaith hwn ac rydyn ni eisoes yn gweithio gyda nifer o deuluoedd cyn-filwyr gan wybod y bydd y gwaith yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd drwy roi'r adnoddau a'r cymorth iddynt i sefydlu rhwydweithiau cymorth cryf."

Derbyniodd Reading Force £90,000 i helpu plant y Lluoedd Arfog yn ystod eu digwyddiadau bywyd gan gynnwys wrth adleoli, pan fydd rhiant yn sâl neu wedi cael anaf, wrth symud cartref ac ysgol, pan fydd rhieni'n gwahanu neu'n ysgaru, ac os ydynt yn bell o deulu estynedig. Bydd eu prosiect Keeping Families Connected yn helpu gyda'r straen a'r poeni a ddaw o fod ar wahân gan gynorthwyo cyfathrebu da a chyswllt teuluol cryf drwy rannu llyfrau, sgwrsio a chadw llyfrau sborion.

Fel y dywedodd yr Athro Alison Baverstock, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Reading Force (a mam a gwraig aelod o'r Fyddin ers 25 mlynedd): "Pan fydd teuluoedd milwrol ar wahân, oherwydd adleoli neu hyfforddiant, neu dan bwysau'n gyffredinol, gall fod yn anodd siarad am y peth. Gall cyfathrebu drwy gyd-ddarllen gadw pawb mewn cysylltiad – mae meddwl sut y bydd rhywun arall yn ymateb i'r llyfr y mae'r ddau ohonoch yn ei ddarllen yn para'n llawer hirach na neges destun, e-bost neu alwad ffôn. Rydyn ni mor ddiolchgar am y gefnogaeth hael yma i'n gwaith, gymaint am yr hyder a ddangoswyd ynom ag am yr arian ei hun, fel y gallwn barhau'r gwaith pwysig hwn gyda'r gymuned filwrol."

Thank you for our books. We absolutely love all of the stories. All forces families should join in with this. @ReadingForce



Strategaeth Cam-drin Domestig yr MOD

Fel rhan o'r Strategaeth 'No Defence for Abuse 2018-2023', lansiodd yr MOD ymgrych ymwybyddiaeth yn Nhachwedd 2019. Roedd yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y 15 Diwrnod Gweithredu yn erbyn trais ar sail rhywedd

- gwella cyhoeddiadau DefNet yr MOD ar gam-drin domestig
- cyfeirio dioddefwyr yn well at wasanaethau cymorth
- diweddarau GOV.UK gyda pholisïau'r MOD

Mae'r MOD wedi penodi Uwch-Bencampwr Ymwybyddiaeth Cam-drin Domestig, y Cyfarwyddwr AD Sifil Siobhan Sheridan.

Mae ymwybyddiaeth o gam-drin domestig hefyd wedi'i ychwanegu at ganlyniadau adroddiad 2019 Wigston ar ymddygiad amhriodol a bydd yn cael ei gynnwys yng nghyhoeddiad JSP763 ac yng ngweithdrefnau Bwlio, Harasio a Chwyno'r MOD. Mae'r ychwanegiad i JSP763 ar Gam-drin Domestig wedi'i ddrafftio ac yn y broses o gael ei gadarnhau gan y Gweithgor Cam-drin Domestig.

Mae'r MOD yn gloywi Polisi'r Tri Llu ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sef JSP913, gyda chymorth yr elusen cam-drin domestig Hestia. Am y tro cyntaf bydd hwn yn bolisi traws-Lu gan gynnwys personél milwrol a gweision sifil. Mae'r MOD hefyd yn y broses o ychwanegu botwm 'lle diogel ar-lein' i'w dudalennau DefNet a Defence Connect fydd yn cyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig at gymorth cenedlaethol a lleol. Mae'r prosiect wedi derbyn cefnogaeth gan amrywiol elusennau cam-drin domestig a Phrifysgol Bryste.

Cymorth i deuluoedd milwrol yn ystod Covid-19
I gydnabod y cymorth a roddir gan deuluoedd i bersonél milwrol, yn enwedig rhai a fu'n rhan o ymateb y llywodraeth i Covid-19, ysgrifennodd Pennaeth y Bobl Amddiffyn llythyr agored atynt ym

mis Mawrth yn cydnabod eu trafferthion a rhoi cyngor ar sut i ymdopi ag unrhyw gynni ariannol, yn codi'r effaith bosib ar lwfansau a rhoi manylion am wasanaethau cymorth posib. Er nad oedd pob teulu yn cynorthwyo gweithiwr allweddol, teimlai'r MOD ei bod yn hollbwysig cydnabod teuluoedd milwrol yn ystod yr argyfwng presennol am eu cefnogaeth amhrisiadwy i bersonél milwrol. I gefnogi'r llythyr hwn, cymrodd Gyfarwyddwr Pobl y Lluoedd Arfog hefyd ran mewn cyfweiliadau a thrafodaethau panel gyda Gwasanaeth

Darlledu Lluoedd Prydain er mwyn cyfleu cefnogaeth yr MOD i deuluoedd milwrol yn ystod y pandemig.

Mae amgylchiadau unigryw Covid-19, pwysau addysgu plant gartref a phryder ariannol wedi rhoi straen ar berthnasoedd. Er bod y rhan fwyaf o deuluoedd wedi ymdopi, gwelodd y llinell gymorth cam-drin domestig gynnydd o 25% mewn ymholiadau dros y cyfnod clo. Drwy'r Strategaeth Cam-drin Domestig, llwyddodd yr MOD i ymateb yn ddioed drwy adeiladu ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth a lansiwyd yn Nhachwedd 2019. Mewn partneriaeth ag NHS England a'r Swyddfa Gartref, bu'r MOD yn hyrwyddo gwybodaeth a chanllawiau drwy'r fewnwyd, timau lles, HiVES a Ffederasiynau'r Teuluoedd, a thrwy hyrwyddo ymgyrch y Swyddfa Gartref ac ymgyrchoedd #YouAreNotAlone a manau diogel Hestia.

Teuluoedd yng Nghymru

Delio ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol

Ym mis Chwefror, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Cysylltu cymunedau: strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol a chreu cysylltiadau cryfach'.¹¹ Mae'r strategaeth yn cydnabod yr heriau posib a wynebir gan gymuned y Lluoedd Arfog, ar sail ymchwil gan sefydliadau fel y Lleng Brydeinig Frenhinol. Yn defnyddio adborth o'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, rhyddhaodd Lywodraeth Cymru arian grant newydd i dargedu unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yng nghymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Gan weithio â phartneriaid allweddol yn y sector, yn y gwanwyn 2020 dyfarnwyd 12 o grantiau gwerth £120,000 i gwrdd â'r amcanion. Dechreuodd y prosiectau cyn Covid-19 gyda llawer yn addasu eu prosiectau i fod yn ddigidol dros y cyfnod clo, lle'r oedd hynny'n briodol, hyd nes y byddai'r cyllid yn dod i ben.

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin: Unigrwydd ac ynysu yn y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Rhaglen o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar draws lleoliadau'r Fyddin yng Nghymru gan gynnwys yn Aberhonddu, Sain Tathan, Cas-gwent ac Aberdaugleddau. Cawsant eu teilwrio i ateb anghenion penodol teuluoedd yr ardaloedd hyn a'u darparu mewn gwahanol ffyrdd, e.e. coffi a sgwrs, bingo, cyswllt a sgwrs, grwpiau rhithiol a chysylltu teuluoedd ar wasgar.

[HTTPS://LLYW.CYMRU/SITES/DEFAULT/FILES/PUBLICATIONS/2020-02/CYSYLLTU-CYMUNEDAU-STRATEGAETH.PDF](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/cysylltu-cymunedau-strategaeth.pdf)

Cyrhaeddwyd ychydig o dan 300 o deuluoedd drwy'r digwyddiadau hyn, gyda llawer yn mynychu mwy nag un. Cafwyd canlyniadau cyson dda o ran lliniaru teimladau o unigrwydd ac ynysu. Cynhaliwyd hefyd arolwg pedair wythnos o deuluoedd y Fyddin yng Nghymru yn holi eu barn am unigrwydd ac ynysu cymdeithasol o fod yn rhan o'r gymuned filwrol yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg mai'r pethau oedd yn cyfrannu fwyaf at ynysu cymdeithasol oedd absenoldeb y partner mewn gwasanaeth oherwydd gofynion milwrol a diffyg mynediad at wasanaethau cymorth lleol. Y pethau oedd yn cyfrannu leiaf oedd diffyg sgiliau iaith Gymraeg a diffyg dewis o dai. Sefydlwyd rhaglen o grwpiau anghenion ychwanegol mewn tri lleoliad, sydd bellach yn rhedeg eu hunain. Trefnwyd grwpiau ar-lein dros y cyfnod clo, i sicrhau bod teuluoedd y prosiect yn cadw mewn cysylltiad.

Teuluoedd yn Yr Alban

Manteisio ar dalent milwrol

Yn 2020, penderfynodd Llywodraethau Cymru a'r Alban gyd-ariannu Busnes yn y Gymuned (BITC) i gynnwys gwybodaeth i gyflogwyr am fanteision cyflogi partneriaid priod neu sifil milwrol, a sut i wneud hynny, yn y pecyn Capitalising on Military Talent i . Canlyniadau gwneud hyn fyddai: cryfhau'r achos busnes dros gyflogi partneriaid milwrol, gwella gwybodaeth cyflogwyr am sut i wneud hyn yn llwyddiannus a chynorthwyo mwy o bartneriaid milwrol i ddod o hyd i waith da a symud ymlaen yn y gweithle. Bydd hyn yn annog busnesau i gynnig swyddi da a chynaliadwy i gyn-filwyr a'u teuluoedd, yn enwedig partneriaid priod a sifil.

Disgwylir lansio'r adendwm yn yr hydref 2020.

Skills Development Scotland – sesiynau ymwybyddiaeth i bartneriaid priod a sifil

Ym mis Hydref 2019, cynhaliodd SDS sesiwn wybodaeth i bartneriaid priod a sifil 3 SCOTS, gyda ffocws y sesiwn ar gymorth a gwasanaethau sydd ar gael gan SDS ynghyd ag amser 1:1 yn dilyn y sesiwn. Mynychodd 20 o bartneriaid priod a sifil y sesiwn a gofynnodd 6 o unigolion am drafodaeth bellach ar ôl y digwyddiad. Bydd yr ymgysylltu â phartneriaid priod a sifil yn parhau ac yn cael ei addasu yn ôl amgylchiadau a chanllawiau.

Bydd y sesiynau'n gyfuniad o ar-lein ac wyneb yn wyneb, lle bo'n briodol ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Swyddi i Deuluoedd

Mae Forces Families Job yn llwyfan cyflogaeth a hyfforddiant i bartneriaid priod a sifil a theuluoedd personél milwrol gan gynnig mynediad am ddim i gyflogwyr at gyflenwad o weithwyr talentog. Mae Llywodraeth Yr Alban wedi bod yn gweithio gyda Forces Families Jobs i rannu hysbysebion swyddi Llywodraeth Yr Alban drwy eu gwefan. Mae'r

hysbysebion yn cysylltu i Work for Scotland y swyddi sydd ar gael yn Llywodraeth Yr Alban yn hawdd.

Teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r Swyddog Cymorth Cyflogaeth Teuluoedd (FESO), sy'n wasanaeth neilltuol gan yr MOD yng Ngogledd Iwerddon, yn parhau i gynorthwyo personél di-wasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys pob agwedd ar gyflogaeth gan gynnwys dod o hyd i swyddi priodol, creu CV a thechnegau cyfweiliad. Gellir hefyd dod o hyd i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a gwirfoddoli gyda llawer o gyrsiau hyfforddi am ddim ar gael. Yn y 12 mis diwethaf, roedd gan y FESO 90 o gleientiaid. O'r rhain, llwyddodd 36 i ddod o hyd i gyflogaeth, mae wyth wedi gadael oherwydd postiad a thri wedi datgysylltu oherwydd amgylchiadau personol, gyda 12 arall wedi datgysylltu heb roi rheswm. O'r 31 cleient sydd ar ôl, mae 22 eisoes mewn gwaith ond yn chwilio am gyflogaeth newydd neu well, gan adael naw partner yn chwilio am waith.



Teuluoedd yn cyfarch anwyliaid oddi ar HMS Queen Elizabeth, wedi dychwelyd i Plymouth ar ôl ymdaith filwrol i'r Unol Daleithiau

PENNOD 8 – CYMORTH PONTIOA CHYMORTH GYDOL OES

Polisi Pontio Holistig Amddiffyn

Ym mis Hydref 2019, cyflwynodd yr MOD Bolisi Pontio Holistig Amddiffyn newydd, JSP100, i helpu personél yn gadael bywyd milwrol, a'u teuluoedd, i addasu i agweddau eraill ar bontio i fywyd sifil. Mae hyn yn ategu'r polisi adsefydlu presennol a'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa i sicrhau eu bod yn ystyried pob agwedd ar fywyd sifil a allai fod yn wahanol i ddarpariaeth filwrol, gan gynnwys o ran tai, materion iechyd, cyllidebu a sgiliau bywyd. Mae hyn yn darparu ar un o ymrwymadau'r MOD yn Strategaeth ein Cyn-filwyr ac yn cyfrannu tuag at Strategaeth Teuluoedd Lluoedd Arfog yr MOD. Wrth ei galon, bydd y pecyn hyfforddiant 'sgiliau bywyd' yn cael ei ddarparu i bersonél milwrol a'u teuluoedd drwy gydol eu gyrfa filwrol fel bod unigolion yn gallu gwneud cynlluniau, paratoadau a phenderfyniadau priodol a gwybodus am eu dyfodol. Gan ddefnyddio adnoddau monitro ac asesu, bydd personél a'u teuluoedd yn gallu cadw llygad ar eu cynnydd a gweithio gyda'u cadwyn awdurdod i sefydlu a oes angen ymyriadau pellach arnynt. O hyn ymlaen bydd y polisi newydd yn sicrhau y gall personél sy'n gadael y Lluoedd Arfog elwa o'r dull holistig hwn ond gan roi'r hyblygrwydd i unedau a chadlywyddion unigol gael teilwrio hyn.

Mae'r Polisi Pontio Holistig Amddiffyn yn y broses o gael ei adolygu ac yn parhau i gael ei ddatblygu'n defnyddio dull addasol i sicrhau ei fod yn ateb anghenion ein cyn-filwyr fel bo'r anghenion hynny'n newid. Bydd yr MOD yn parhau i weithio ag adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol, y gwledydd datganoledig, Ffederasiynau'r Teuluoedd a'r sectorau preifat ac elusennol i sicrhau proses bontio ac adsefydlu gydgyssylltiedig, gyson a di-dor i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Gwasanaeth Pontio Amddiffyn


Ochr yn ochr â'r Polisi Pontio Holistig Amddiffyn, lanswyd sefydliad newydd o'r enw'r Gwasanaeth Pontio Amddiffyn (DTS) oddi mewn i sefydliad Veterans UK yr MOD i gynorthwyo'r rhai sy'n cael y drafferth fwyaf yn pontio'n llwyddiannus i fywyd sifil. Mae'r DTS yn rhoi gwybodaeth a chymorth parhaus i gyn-filwyr a'u teuluoedd wrth iddynt adael y Lluoedd Arfog ac addasu i fywyd sifil. Drwy helpu rhai sy'n dewis setlo yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon ar ôl iddyn nhw neu aelod o'u teulu adael y Lluoedd, mae'r gwasanaeth yn hwyluso mynediad at y cymorth sydd ei angen ar gyn-filwyr a'u teuluoedd, p'un ai gan adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol, y GIG neu elusennau. Yn ei flwyddyn gyntaf mae wedi ymgysylltu â bron i 300 o randdeiliaid llywodraeth leol, sector cyhoeddus a thrydydd sector.

Trefnwyd y gwasanaeth ar sail model rhanbarthol sef Yr Alban a Gogledd Iwerddon, Gogledd Lloegr a Gogledd Cymru, Canolbarth Lloegr a De Cymru, a De Lloegr. Mae gan bob rhanbarth reolwr, gweithiwr achos a chynorthwyr penodol i roi dealltwriaeth well o'r gwasanaethau a'r atebion gorau i'w cleientiaid yn y rhanbarth.


Ers 1 Tachwedd 2019 mae'r DTS wedi cynorthwyo dros 200 o gyn-filwyr sydd naill ai wedi eu hadnabod gan eu cadwyn awdurdod i fod angen mwy o gymorth neu a atgyfeiriodd eu hunain at y gwasanaeth yn chwilio am gymorth wrth bontio i fywyd sifil. Roedd y rhan fwyaf yn gadael y Lluoedd dim ond ar ôl ychydig wythnosau o wasanaeth neu wedi gadael yn annisgwyl heb dderbyn fawr ddim rhybudd. Daeth y rhan fwyaf a ddefnyddiodd y gwasanaeth o'r Fyddin gan adlewyrchu bod 62% o'r rhai a adawodd y Lluoedd yn 2019/20 wedi dod o'r Fyddin.

"Drwy weithio i'r DTS am y 12 mis diwethaf, cefais ddigonedd o gyfle i helpu i dywys a datblygu gwasanaeth i'n cymunedau milwrol fydd yn rôl hanfodol i'w helpu i bontio'n hyderus o fywyd milwrol i fywyd cyffredin. Ar ôl gweithio mewn nifer o wahanol rolau yn Veterans UK ers blynyddoedd lawer, mae wedi bod yn chwa o awyr iach gweithio gyda thîm sy'n ymroddedig i sefydlu adnodd ystyrlon ac effeithiol ar gyfer unigolion sy'n gadael y Lluoedd. Rwy'n falch o weithio gyda thîm mor fywiog ac ysbrydoledig sy'n cefnogi ei gilydd yn ogystal â'r unigolion milwrol y maen nhw'n eu gwasanaethu, fel pe baent yn aelodau o'u teuluoedd eu hunain." Gweithiwr Achos, DTS

wr 1 – Dadansoddiad o atgyfeiriadau yn ôl Llu



Ffigwr 2 – Dadansoddiad o'r atgyfeiriadau yn ôl ffynhonnell



Gwasanaethau Pontio Amddiffyn yng Nghymru

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr y DTS yng Nghymru i helpu i gyflwyno'r gwasanaeth. Ym mis Hydref 2019, rhoddodd y DTS gyflwyniad i gynrychiolwyr o'r sector yng Nghynhadledd Lluoedd Arfog Cymru 2019 gyda chydweithwyr o'r DTS yn creu cysylltiadau â Swyddogion AFLO (wedi eu hariannu gan LIC) a fforymau Lluoedd Arfog rhanbarthol. Cynhaliwyd hefyd sesiynau gwybodaeth ganddynt i bartneriaid yng Nghymru, wedi eu cyd-hwyluso â Llywodraeth Cymru. Mae'r DTS yn bartner pwysig sy'n rhan o ddarparu gweithredu'n deillio o'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr. Mae'r Swyddog mewn Gofal yn cadeirio'r grŵp gweithredu pontio gan greu cyswllt allweddol rhwng gwasanaethau yng Nghymru a phartneriaid yr MOD.

Gwasanaethau Pontio Amddiffyn yn Yr Alban

Mae cydweithwyr DTS yn Yr Alban yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Yr Alban ac awdurdodau lleol, a hefyd ar nifer o grwpiau rhanddeiliaid lleol, yn cynnwys Grŵp Trawsbleidiol Yr Alban ar y Lluoedd Arfog a'r Gymuned Cyn-filwyr.

Gwasanaethau Pontio Amddiffyn yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r DTS yn gweithio'n agos â Chatrawd Amddiffyn Ulster a'r Gwasanaeth Ôl-ofal Gwyddelig Brenhinol (Gwasanaeth Cartref) i gynorthwyo cyn-filwyr Catrawd Amddiffyn Ulster a'r Gatrawd Wyddelig Frenhinol a'u dibynyddion. Bydd adolygiad o Wasanaeth Ôl-ofal (ACS) Gogledd Iwerddon yn ystyried ehangu cylch gwaith yr ACS i gynnwys holl gyn-filwyr y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon gydag anafiadau a chyflyrau cysylltiedig â'u gwasanaeth.

Mae'r Swyddfa Cymorth i Gyn-filwyr yn parhau i gysylltu cyn-filwyr yng Ngogledd Iwerddon â gwasanaethau pontio drwy rwydwaith darparu profiadol.

Gwasanaeth Pontio Amddiffyn – cynorthwyo Kirsten

Yn dilyn gadael y Lluoedd Arfog wedi derbyn byr-budd meddygol ar ôl 11 mlynedd, roedd Gwen (nid ei henw iawn) yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys ei pherthynas yn chwala, digartrefedd a thrafferthion ariannol. Roedd ganddi blant yn dibynnu arni, dim cynilion a dim llwybr clir o ran gwaith i'r dyfodol.

Gyda chaniatâd Gwen, trefnodd weithiwr achos DTS gyfarfod rhyngddi hi a nifer fach o ddarparwyr cymorth posib i gael sgwrs agored a gonest am ei hamgylchiadau a llwybr posib i bontio'n llwyddiannus allan o'r Lluoedd. Daeth y DTS o hyd i lety addas iddi a'i rhoi ar raglen cymorth cyflogadwyedd. Bu'r DTS yn gweithio gyda'u chwaer-sefydliad Veterans UK, y Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr, i helpu Gwen i hawlio o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog.

Gyda chymorth parhaus y DTS, mae bellach wedi symud i lety rhent preifat wrth ymyl ei swydd newydd, gan roi sicrwydd cyflog parchus iddi. Cafodd y broses symud ei hwyluso gan y DTS a helpodd Gwen i ymgeisio'n llwyddiannus am arian i dalu rhent ei mis cyntaf a sicrhau cymorth ariannol i ddodrefnu'r eiddo gan ddau fudiad partner trydydd sector. Mae'r DTS yn parhau i fod mewn cysylltiad â Gwen os bydd angen cymorth neu arweiniad pellach arni.

Cymorth i rai sy'n pontio allan o'r Lluoedd Arfog yn ystod Covid-19

Mae'n bosib bod rhai mesurau Covid-19 y Llywodraeth wedi effeithio ar rai gyda dyddiadau rhyddhau agos a rhai oedd ar ganol pontio ac adsefydlu, fel yr angen i hunan-ynysu. I gynorthwyo'r unigolion hyn a'u teuluoedd, fe ddiwygiodd yr MOD a'r Lluoedd unigol bolisiau perthnasol i roi sefydlogrwydd a chymorth

Fe gyflwynodd y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn y newidiadau fel bod rhai oedd yn gadael eu Llety Teuluoedd Milwrol, ac efallai wedi methu â threfnu llety arall oherwydd y cyfnod clo, yn gallu ymestyn eu tenantiaeth neu drwy gynnig atebion tai am brisiau mwy fforddiadwy iddynt.

Pan oedd canllawiau'r llywodraeth ar gyfer Covid-19 yn cyfyngu ar ymgynnull torfol, gorfodwyd y Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP) i ganslo ffeiriau cyflogaeth. Daeth y CTP o hyd i ddulliau eraill o frocra ymgysylltiad un-i-un rhwng personél wedi gadael y Lluoedd a chyflogwyr. Gyda defnydd o fideo-gynadledda'n dod yn fwyfwy cyffredin, cynhaliwyd rhith-ddigwyddiadau cyflogaeth. Cafodd y peilot bychan cyntaf ei redeg ym mis Mai gyda 11 o gyflogwyr a 136 o gyn-filwyr. Rhoddodd bob un gyflwyniad byr yn y lobi cyn rhannu i'w hystafell fideo-sgwrsio eu hunain. Ers hynny cynhaliwyd chwe digwyddiad pellach gyda 110 o arddangoswyr a 797 o gyn-filwyr wedi mynychu'r saith digwyddiad. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr a chyflogwyr wedi bod yn dda. Aeth y CTP yn ôl at hyfforddiant wyneb yn wyneb ar 1 Gorffennaf gan lynu wrth ganllawiau'r llywodraeth. Er mwyn cydnabod yr effaith a gafodd y lleihad mewn gwasanaethau CTP ar gyn-filwyr, cawsant dri mis ychwanegol o fynediad at wasanaethau CTP gan roi iddynt 27 mis i gyd ar ôl gadael y Lluoedd.

Y Porth Cyn-filwyr

Ym mis Mai, lanswyd yr ap Veterans Gateway gan ddarparu gwasanaeth cymorth 24 awr i gyn-filwyr. Cafodd yr ap ei ddatblygu gan Ganolfan Ymchwil Teuluoedd Milwrol a Chyn-filwyr y Gogledd ym Mhrifysgol Northumbria a'i ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae'r ap yn adeiladu ar lwyddiant cyfeiriadur ar-lein a gwasanaeth ffôn y Porth sy'n darparu gwasanaeth y gall cyn-filwyr droi ato, ac sydd wedi'i lawrlwytho gan dros 6,500 o ddefnyddwyr. Mae'n cynnig cyfeiriadur digidol rhyngweithiol cynhwysfawr o'r holl wasanaethau sydd ar gael i bron i dair miliwn o gyn-filwyr ar draws y wlad, yn ôl lleoliad, gan gynnwys clinigau camddefnyddio sylweddau a manylion am sut i gael gafael ar gymorth addysg, ariannol, cyflogaeth, tai a llochesau. Dyluniwyd yr ap i gasglu data geo-leoliad di-enw ar beth y mae defnyddwyr yn chwilio amdano, gan roi offeryn pwysig i'n helpu i adnabod bylchau mewn darpariaeth.

Gwasanaeth Cyfleoedd i Bersonél Profiadol, Gwirfoddol ac Ail-ymunwyr

Ar Ddiwrnod Milwyr Wrth Gefn ym mis Mehefin, lansiodd yr MOD ei wasanaeth SERVE (Service for Experienced, Rejoiner and Volunteer Engagements), sef llwyfan digidol newydd sy'n hysbysebu cyfleoedd i filwyr wrth-gefn ac ail-ymunwyr ynghyd â chyfleoedd ehangach ar draws y Lluoedd Arfog i helpu cyn-filwyr i aros mewn cysylltiad â'r Lluoedd.

Gwladolion o'r tu allan i'r DU

Mae'r MOD a'r Swyddfa Gartref yn parhau i drafod problemau sydd gan bersonél milwrol o'r tu allan i'r DU a'u teuluoedd oherwydd eu statws mewnfudo a'r polisiau mewnfudo sy'n berthnasol iddynt. Un o'r prif problemau yw cost fisa i setlo'n barhaol yn y DU sy'n gallu bod yn faich ariannol trwm, yn enwedig i rai mewn swyddi milwrol is. Er enghraifft mae'n costio £9,556 i deulu o bedwar gael setlo (blwyddyn ariannol 2020/21). Mae gwaith yn parhau i ystyried sut i ddatrys hyn.

Mae materion polisi mewnfudo a godir drwy Weithgor Personél Di-DU y Tri Llu a fforymau eraill yn cael eu codi gyda'r Swyddfa Gartref. Bydd y gwaith o wella'r broses o gasglu a rhannu data rhwng yr MOD ac Elusennau'r Lluoedd yn helpu yn hyn o beth ac mae'r MOD hefyd yn edrych ar sut i gasglu mwy o ddata ar niferoedd a chenedligrwydd teuluoedd milwrol er mwyn deall mwy am sut yr effeithir ar lawer ohonynt gan agwedd neu'i gilydd ar y rheolau mewnfudo.

Cyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn gynorthwyo cyn-filwyr yn y carchar drwy Swyddogion Cymorth i Gyn-filwyr Dan Glo (ViCSOs). Mae swyddogion ViCSO yn rhannu gwybodaeth, cynnal grwpiau ffocws, darparu hyfforddiant, byrddau newyddion ar-lein a chyfathrebu penodol i gynorthwyo'r cohort hwn. Yn ddiweddar mae hyn wedi cynnwys cyfathrebu cenedlaethol i ofyn am uwch-bwyntiau cyswllt pe bai staff ViCSO yn cael eu defnyddio i ateb y prinder staff, cais a gafodd ymateb da iawn. Anfonwyd hefyd lawlyfr at yr holl gysylltiadau yn yr ystad garchardai'n cynnwys gwybodaeth am Gorff Cyd-Ariannu HMPSS (CFO3) a sut i gysylltu os na fydd rheolwyr achos CFO3 yn gallu cael gafael ar gyfranogwyr posib.

Mae swyddogion ViCSO hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â sefydliadau allanol gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnal hyfforddiant os nad yw opsiynau wyneb yn wyneb ar gael. Yn gynharach eleni, llwyddodd HMPSS hefyd i sicrhau cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer prosiect yn hyrwyddo a thargedu troseddwy, gan leoli hÿb penodol i gyn-filwyr yn HMP / YOI Holme House. Bydd yr hÿb yn rhoi cymorth i gyn-filwyr fydd yn gallu dewis symud yn wirfoddol i'r hÿb neu ddefnyddio ei wasanaethau. Yn eu tro bydd y rhain yn defnyddio eu sgiliau i fentora cohortau bregus eraill fydd yn symud yn wirfoddol at y cyn-filwyr yn yr hÿb, er enghraifft hunan-ynyswyr, troseddwy ifanc a rhai gyda risg uwch o hunan-niwed. Bydd y contractau'n dechrau yn Chwefror 2021 gan redeg tan Awst 2023.



Mae'r ap Veterans Gateway , a lansiwyd ym mis Mai, yn darparu gwasanaeth cymorth 24 awr i gyn-filwyr.


PENNOD 9 – BUSNES A'R GYMUNED

Y Cyfamod mewn busnes ac yn y gymuned ar draws y DU


Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Ym mis Mawrth llofnodwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog am y 5,000fed tro. Er gwaethaf Covid-19, mae sefydliadau wedi parhau i lofnodi gan ddod â'r cyfanswm i 5,769 erbyn diwedd Medi. Daw'r cwmnïau hyn o bob rhan o'r DU ac o wahanol sectorau gan gynnwys busnesau o bob maint, yn enwedig rhai bach a meicro. Rhai o'r prif gwmnïau i lofnodi eleni oedd Skanska, 3M a Highways England, a daeth holl brifysgolion Dwyrain Canolbarth Lloegr at ei gilydd i lofnodi'r Cyfamod. Disgwylir y bydd dros 6,000 wedi lofnodi erbyn diwedd 2020.


Ffigwr 3 – Cyfanswm y sefydliadau a lofnododd y Cyfamod



Ffigwr 4 - Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ôl perchnogaeth cwmni, nifer rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2020



Ffigwr 5 - Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ôl maint cwmni, nifer rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2020



Llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Ar Ddiwrnod Milwyr Wrth Gefn (24 Mehefin), cafodd y Cyfamod ei lofnodi drwy Zoom gan Nae Limits, cwmni profiadau antur awyr agored wedi'i leoli yn yr Ucheldir yn Perthshire, gan brofi y gallai llofnodi barhau er gwaethaf Covid-19. Cafodd y digwyddiad ei olygu i'w droi'n fideo hyrwyddo gan hefyd egluro pwrpas y Cyfamod, cyn ei rannu ar draws holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y rhanbarth, gan gyrraedd dros 4,000 o bobl.



gyhoeddwyd yn Awst 2020.

Dangosodd y ddau welliant cyson yn allbwn y Cyfamod a sgoriau cymeradwyaeth cyflogwyr o ran eu dymuniad i gyfrannu at effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog.

Drwy'r model mewnol o fesur effeithiolrwydd (MoE), gall rheolwyr cyfrifon y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn gofnodi gwaith a wneir gan gwmnïau a chyflogwyr sy'n fanteisiol i gymuned y Lluoedd Arfog neu sy'n dileu anfantais iddynt. Mae'r gwaith yn cynnwys cyflogwyr yn datblygu polisiau Adnoddau Dynol sefydliadol, ymgyrchoedd cyfathrebu, eiriolaeth a rhwydweithiau milwrol mewnol penodol. Mae nifer ac ansawdd y gweithgareddau a welsom y llynedd yn newyddion da ac yn dangos sut fath o weithgareddau ymgysylltu y mae cyflogwyr yn ymateb iddynt, gan helpu'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn i atgyfnerthu'r llwyddiant yn ogystal â deall a datblygu meysydd gwannach.

Y gweithgareddau mwyaf llwyddiannus a welsom eleni oedd polisiau AD pwrpasol, i roi gwyliau ychwanegol gyda thâl i filwyr wrth gefn i wneud eu hyfforddiant blynyddol, a gweithdrefnau recriwtio effeithiol i rai sy'n gadael y Lluoedd. I gyn-filwyr, mae cynlluniau gwarantu cyfweiliad yn arbennig o werthfawr. Mae nifer sylweddol hefyd o ymgyrchoedd cyfathrebu wedi eu cynnal gan gynnwys cyflogwyr yn cefnogi Diwrnod Milwyr Wrth Gefn, Diwrnod y Lluoedd Arfog, Cyfamod y Lluoedd Arfog a'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn. Fodd bynnag, mae llai o gwmnïau wedi cymryd rhan mewn fforymau trafod Amddiffyn, sesiynau ymgysylltu â chyflogwyr yn y gweithle ac ymwybyddiaeth tegwch masnach, sydd i gyd yn bethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt ar gyfer gweddill 2020 ac yn 2021.

Yn ogystal â chofnodi gwaith da, mae'r model mesur effeithiolrwydd hefyd yn cofnodi sector y busnes neu'r cwmni, a'i faint (nifer y gweithwyr). Eleni gwelsom lawer mwy o gymorth i gymuned y Lluoedd Arfog gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac yn y diwydiannau amddiffyn, adeiladu, cyllid a thrafnidiaeth. Fodd bynnag mae cyflogwyr ynni, cyfleustodau a'r celfyddydau yn parhau i ddangos twf mwy araf deg. Gyda'r data mesur effeithiolrwydd, gall y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn ganolbwyntio ar ymgyrchoedd pwrpasol dros y flwyddyn nesaf.

Mesur effeithiolrwydd

Mae ymdrechion i ddarparu Cyfamod y Lluoedd Arfog mewn busnes yn cyflawni yn erbyn amcanion. Mae'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM) wedi rhoi mesurau empirig yn eu lle i sefydlu dull ar sail tystiolaeth o weithio gyda chyflogwyr, gan hefyd gomisiynu adroddiad Ymchwil i Agweddau Cyflogwyr a

Monitor Ymwybyddiaeth ac Agweddau Cyflogwyr 2020

Cyfres ymchwil annibynnol yw'r Monitor Ymwybyddiaeth ac Agweddau Cyflogwyr, a wnaed yn flynyddol ers 2014. Mae'r monitor, sydd wedi'i gomisiynu gan y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn ar ran yr MOD, yn cael ei gyflawni gan gwmni ymchwil preifat. Mae'n seiliedig ar gyfweiliadau â mil o gyflogwyr, wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng cyflogwyr milwyr wrth gefn a chyflogwyr gweithwyr anfilwrol. Dewiswyd y cyfranogwyr i sicrhau dosbarthiad effeithiol ar draws gwahanol sectorau a maint busnes (o fusnesau BBaCh i rai mawr rhyngwladol). Amcanion yr arolwg oedd:

- cyfrannu at werthuso gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr drwy roi data trylwyr ar agweddau cyflogwyr at gyn-filwyr a materion Pobl Amddiffyn ehangach
- gwella'r gwaith o ymgysylltu â chyflogwyr yn barhaus drwy oleuo polisi ac addasu gweithgareddau
- ychwanegu at ddata hanesyddol i ddangos sut y mae agweddau cyflogwyr yn newid dros amser

Cafodd gwaith maes yr arolwg ei wneud yn Chwefror a Mawrth, cyn Covid-19. Ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n galonogol gyda lefelau eithaf uchel o ymwybyddiaeth ac agweddau cyflogwyr wedi aros yn gyson gadarnhaol. Nodir y pwyntiau penodol canlynol:

- Mae 52% o gyflogwyr yn ymwybodol o'r Cyfamod (52% yn 2019), gan godi i 68% ymhlith cyflogwyr milwyr wrth gefn
- Diffyg gwybodaeth yw'r prif rwystr o hyd i gyflogwyr yn llofnodi'r Cyfamod..
- Dengys agweddau cyflogwyr at filwyr wrth gefn lefel uchel iawn o gefnogaeth:
 - Cred 93% o gyflogwyr fod milwyr wrth gefn yn rhan angenrheidiol o'r Lluoedd Arfog (93% yn 2019)
 - Cred 91% o gyflogwyr fod milwyr wrth gefn yn gaffaeliad i weithlu'r DU (91% yn 2019)
 - Cred 91% o gyflogwyr y dylent gefnogi staff sy'n filwyr wrth gefn fel mater o egwyddor (91% yn 2019)
 - Cred 91% y gall cyflogwyr elwa o sgiliau a phrofiad milwyr wrth gefn (92% yn 2019)

- Mae ymwybyddiaeth o hawliau a'r cymorth ariannol sydd ar gael i gyflogwyr os gelwir milwyr wrth gefn i fyny'n dal i fod yn gymharol isel (51% a 52%).
- Mae 65% o gyflogwyr yn fodlon â'u perthynas ag Amddiffyn (65% yn 2019) gan godi i 69% ymhlith cyflogwyr milwyr wrth gefn (71% yn 2019).
- Mae 83% o gyflogwyr yn cytuno bod cyn-filwyr yn gaffaeliad i'r gweithlu a 90% yn credu y gall eu busnes elwa o'u sgiliau a'u profiad.12

Ar y cyfan mae'r canlyniadau hyn yn dda iawn o hyd ac yn dangos momentwm parhaus o ran ymgysylltiad cyflogwyr. Fodd bynnag, mae'n glir hefyd bod angen mwy o ymdrech i wella ymwybyddiaeth o'r Cyfamod ynghyd â'r pecyn cymorth ariannol pan elwir ar filwyr wrth gefn.

Mae'r Gangen Cadetiaid a Lluoedd Wrth Gefn yn gweithio gyda'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn a thimau Pobl Amddiffyn eraill i adnabod, blaenoriaethu a gweithredu'r gwelliannau hyn.

Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn

Mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, a lansiwyd yn 2014, yn annog cyflogwyr i gynorthwyo'r maes Amddiffyn ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Mae'r cynllun yn cwmpasu gwobrau Efydd, Ariannol ac Aur i sefydliadau cyflogwyr sy'n addo, dangos neu'n eiriol dros gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog ac Amddiffyn, ac sy'n cyplysu eu gwerthoedd i rai Cyfamod y Lluoedd Arfog. I ennill Gwobr Aur, rhaid i fusnesau fod yn gyflogwr enghreifftiol yn eu sector marchnad gan eiriol dros gefnogi Pobl Amddiffyn gyda'u sefydliadau partner, cyflenwyr a chwsmeriaid a dangos canlyniadau da amlwg.

Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd bod 127 o sefydliadau pellach o wahanol sectorau wedi ennill gwobr Aur, o fusnesau BBaCh i gwmnïau FTSE100, cynghorau ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Daw hyn â chyfanswm y cyflogwyr Gwobr Aur i 367. Mae'r cynnydd yn nifer y gwobrau Aur yn adlewyrchu brwdfrydedd cyflogwyr tuag at ddangos ymrwymiad ymarferol i'w haddewidion Cyfamod. Mae'r cynnydd wedi creu ei heriau ei hun, gan gynnwys mwy o faich gweinyddol ar Amddiffyn a'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn, sydd angen rheolaeth weithredol i sicrhau bod y twf yn gynaliadwy i'r dyfodol. Bydd y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn cael ei adolygu yn yr hydref 2020 i ganfod sut i hybu ei gynaliadwyedd hirdymor, gan weithredu newidiadau cytunedig mewn pryd ar gyfer gwobrau 2021.

Gwobrau Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr

Mae Salesforce yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, boed hynny trwy ddarparu cymorth trosglwyddo gyrrfa, trwy godi arian ar gyfer elusennau milwrol neu hyrwyddo'r gymuned filwrol ymysg y sefydliad. Yn Salesforce, mae cydraddoldeb wrth graidd sut maen nhw'n rhedeg eu busnes. Gyda'r ethos hwn maen nhw'n rhedeg VetForce, grŵp adnoddau gweithwyr sy'n hyrwyddo diwylliant sy'n gyfeillgar i'r Lluoedd arfog ar draws y cwmni. Mae gan rwydwaith y DU dros 200 o aelodau gweithredol. Ar y cyd â hyn maent yn rhedeg Trailhead Military, rhaglen hyfforddi a recriwtio unigryw ar gyfer cyn-filwyr, unigolion sy'n gadael y Lluoedd arfog a phartneriaid milwyr yn y Lluoedd arfog.

Mae 90% o'r Tîm Cyflenwi yn Engage Technical Solutions yn unigolion sydd wedi gadael y Fyddin, y Llynges a'r Llu Awyr Brenhinol. Menter fach a chanolog ei maint wedi'i lleoli yn Wiltshire ydyw, ac maent yn gweithredu cynllun atgyfeirio, fel bod Cyn-filwyr cyflogedig yn gallu atgyfeirio unigolion a oedd yn arfer cydweithio â nhw yn y Lluoedd arfog a'u hannog i ymuno â'r cwmni. Maent wedi gwneud cynnydd anhygoel gyda phartneriaid aelodau'r Lluoedd arfog hefyd, gan alluogi nifer sydd wedi'u postio dramor i gadw eu swyddi trwy eu cynorthwyo i weithio o bell.

Cymorth busnes i gymuned y Lluoedd Arfog yn ystod Covid-19

Fel rhan o'r ymateb i Covid-19, galwyd ar amryw o filwyr wrth gefn, mewn amgylchedd oedd eisoes yn anodd i gyflogwyr. Roedd y gefnogaeth gan fusnesau'n gyson drwy'r berthynas a sefydlwyd gan y Cyfamod mewn busnes. Ysgrifennodd y Pennaeth Staff Amddiffyn (Milwyr Wrth Gefn a Chadetiaid) lythyr at gyflogwyr, gyda'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn cadarnhau'r negeseuon ac yn ymateb i ofnyion gwybodaeth cyflogwyr. Profodd rwydwaith busnes y Cyfamod, yn cynnwys grŵp alwmni Gwobrau Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, i fod yn hynod effeithiol o ran hwyluso cyfathrebu rhwng Amddiffyn a chyflogwyr. Chwaraeon ran bwysig iawn mewn hwyluso cynhyrchu a chynnal, yn gyflym ac effeithlon, elfen milwyr wrth gefn y Lluoedd.

Symudodd Gorllewin Canolbarth Lloegr yn sydyn iawn at lwyfannau digidol er mwyn parhau i ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr, ac fe'u defnyddiwyd i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu. O ganlyniad llwyddwyd i gynnal lefel dda o weithgareddau ymgysylltu gan arwain at dwf cyson yn y nifer yn llofnodi'r Cyfamod a rhai a ddywedodd eu bod am symud ymlaen drwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr.

Cymorth i fusnesau yn ystod COVID-19

Cwmni adeiladu tai wedi'i leoli yng Nghaint yw Vistry Group, a sefydlwyd ar 3 Ionawr 2020 drwy uno Bovis Homes a Galliford Try Partnerships, ac un o gwmnïau'r FTSE 250. Bu'n gweithio'n agos â thîm Cyfrifon Cenedlaethol DRM gan lofnodi'r Cyfamod yn 2016 ac ennill gwobr Aur yr ERS yn 2019.

Hyn a ddywedodd Roger Morton, Cyfarwyddwr Perfformiad Vistry Group, wrth siarad am Ringyll Lliw 4ydd Bataliwn Catrawd Mersia, Lee Gregory: "Ei gyflogaeth llawn amser yw prynwr yn Vistry Partnerships, rhan o'r Vistry Group (sydd hefyd yn cynnwys Bovis Homes a Linden Homes). Roeddem ni (Vistry Group) wedi llwyddo i'w gael yn barod i fyddino o fewn pum diwrnod i dderbyn y cais ac yn hapus ein bod wedi gallu gwella ar yr amser arferol cyn byddino. Roeddem yn falch iawn o gwrdd â'n hymrwymiad i'r Cyfamod ar adeg o argyfwng cenedlaethol."

Pencampwyr Lluoedd Arfog yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)s

Yn 2020/21, mae pencampwyr Lluoedd Arfog (AFC) y DWP wedi parhau i chwarae rôl greiddiol drwy weithio'n agos â hyfforddwyr gwaith Canolfannau Byd Gwaith a staff eraill i godi ymwybyddiaeth o sut y gall y DWP gynorthwyo cyn-filwyr, personél milwrol a'u teuluoedd. Mae'r pencampwyr AFC wedi parhau i ddatblygu partneriaethau cryf, yn genedlaethol ac yn eu cymunedau lleol, gydag elusennau a sefydliadau cymorth y Lluoedd. Maen nhw hefyd wedi darparu gweithgareddau pwrpasol i ateb anghenion eu cwsmeriaid o gymuned y Lluoedd Arfog.

Er enghraifft:

- gweithio gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa a sefydliad Veterans UK yr MOD i wella mynediad cyn-filwyr at wybodaeth am hawlio budd-daliadau
- Cynnal grwpiau cyd-gymorth i gynnwys cyn-filwyr yn y ffordd sydd orau ganddynt, a gyflwynwyd ar ôl derbyn adborth bod cyn-filwyr yn teimlo'n fwy cartrefol gyda chyn-filwyr eraill
- ehangu gweithdai, a ddechreuodd yn 2019/20, i gynnwys sefydliadau sy'n cynorthwyo cyn-filwyr ar fudd-daliadau DWP penodol, fel Taliadau Annibyniaeth Personol – daeth cynrychiolaeth dda o'r MOD, awdurdodau lleol a'r GIG i ddiwyddiad a gynhaliwyd eleni yn Salisbury

Pencampwr Lluoedd Arfog yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yng Ngogledd Cymru

Ar ddechrau cyfnod clo COVID-19, daeth Pencampwr DWP yn Llandudno ar draws cyn-filwr a oedd wedi gadael y fyddin oherwydd anaf ac a oedd bellach yn cysgu allan ar y stryd y tu ôl i ganolfan siopa leol. Gan weithio â phartneriaid lleol, trefnwyd llety iddo y diwrnod canlynol mewn cartref i gyn-filwyr lleol. Sicraodd elusen ddigartrefedd leol, Hope Restored, fod ganddo fwyd a diod. Yn ddiweddarach, cafodd ei ystafell dros dro ei hun a oedd yn cynnwys gwely, toiled, cawod a theledu ac ers hynny mae wedi cael fflat. Mi wnaeth Pencampwr DWP, unwaith eto drwy weithio â phartneriaid lleol, helpu i daclo problemau a rhwystrau eraill a oedd gan y cyn-filwr, ac o fewn pedair wythnos symudodd o gysgu ar y stryd a diffyg arian i ymgysylltu â sawl asiantaeth gymorth, i gael budd-dal, ei fflat ei hun ac awydd i symud ymlaen. Mae DWP yn aelod o Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog a Grŵp Gweithredu Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yng Nghymru.

Tim Cyflogwyr a Phartneriaethau Cenedlaethol y DWP

Dros y cyfnod adrodd hwn, i gefnogi a hybu Cyfamod y Lluoedd Arfog, fe wnaeth y Tim Cyflogwyr a Phartneriaethau Cenedlaethol (NEPT):

- dechrau gwaith mwy dwys a phwrpasol gyda chyflogwyr dethol ar eu portffolios, gan gynnwys Gwasanaethau Cyfrinfa a Screwfix, i drafod a hyrwyddo'r Cyfamod
- dechrau gweithio gyda sydd eisoes wedi llofnodi Cyfamod, fel CAPITA, Cymdeithas Diwydiant Diogelwch Prydain, a'r National Access and Scaffolding Confederation, i'w hannog a'u cynorthwyo i gyflawni eu hymrwymiad
- parhau i weithio ag X-Forces Enterprise (XFE) i hyrwyddo hunan-gyflogaeth fel opsiwn i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n

- cryfhau ei berthynas â diwydiannau'r Llang Brydeinig Frenhinol i hyrwyddo eu cwrs cyflogaeth Lifeworks ymhlith cyn-filwyr a phartneriaid personél milwrol

Yn ystod wythnos Lluoedd Arfog 2020, rhedodd NEPT ymgyrch ar draws y DWP yn cynnwys:

- arwain ar ymrwymiad y DWP i Her Milwyr Wrth Gefn y Llywodraeth drwy gefnogi cynlluniau traws-lywodraeth a chyflawni gwaith adrannol neilltuol i annog gweision sifil i ystyried gwasanaethu fel milwyr wrth gefn yn y Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu
- drwy ardaloedd y Canolfannau Byd Gwaith, hyrwyddo gyrfaedd yn y Fyddin, Llynges, Awyrlu a'r Morlu, fel milwyr wrth gefn rhan amser, y cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr, a manteision gwirfoddoli gyda chadetaid

- sesiynau Skype i staff partneriaeth, cyflogwyr a hyfforddwyr Canolfannau Byd Gwaith, a glywodd gan Walking with the Wounded, milwr wrth gefn yn y DWP a fu'n cynorthwyo NHS England i ymateb i Covid-19 a chydweithwyr sy'n helpu pobl ifanc i wirfoddoli fel Hyfforddwyr Cadetiaid defnyddio gwasanaethau'r DWP, yn ogystal â gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chynnal rhith-gwrs Sgiliau Bywyd Busnes i aelodau o Gadetiaid yr Awyrlu

Hyfforddwyr Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Hyfforddwyr Gwaith y DWP yn rhoi cymorth wedi'i bersonoleiddio a'i deilwrio i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog, gan weithio mewn partneriaeth â phencampwr Lluoedd Arfog eu hardal lle bo angen. Maen nhw'n rhoi cymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd, a thrwy ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol am gyflogwyr a busnesau lleol, yn darparu amrywiaeth o gymorth gan ddiybnnu ar anghenion pob cwsmer. Mae'r ddwy astudiaeth achos isod yn dangos peth o'r gwaith a wnaed yn 2020/21:

Northumberland, Ardal Tyne & Wear

Roedd Dan (nid ei enw iawn) yn y Lluoedd Arfog yn Afghanistan cyn gadael yn ei ugeiniau hwyr yn dioddef o PTSD. Bu'n byw gyda'i nain oedd yn cadw trefn arno. Pan fu farw ei nain, roedd Dan yn cael trafferth cyrraedd y Ganolfan Waith ond roedd ei Hyfforddwr Gwaith yn ei annog a'i gynorthwyo i fynd i'w apwyntiadau, er mwyn parhau i dderbyn budd-daliadau a chadw ei dŷ. Atgyfeiriodd Dan hefyd at wahanol grwpiau cyn-filwyr am gymorth ychwanegol cyn ei berswadio i ymgeisio am waith fel swyddog diogelwch mewn siop leol, gan ddweud nad oedd ganddo ddim i'w gollu o fynd i'r cyfweiliad. Roedd yr Hyfforddwr Gwaith yn y siop un diwrnod pan deimlodd law ar ei hysgwydd. Dan oedd yno gyda gwên fawr ar ei wyneb. Roedd wedi cael y swydd. Fel y dywedodd yr Hyfforddwr Gwaith: "Mae'n edrych fel dyn gwahanol, yn hapusach a gyda phwrpas mewn bywyd".

Ardal East Anglia

Roedd Wayne, cyn-filwr oedd yn yr RAF am 37 mlynedd cyn gadael yn 2017, wedi'i gynorthwyo gan ei Hyfforddwr Gwaith i gael swydd fel Hyfforddwr Gwaith Canolfan Byd Gwaith. Ers gadael yr RAF, roedd wedi cael cwpwl o swyddi ond erioed wedi setlo, ac yn chwilio am waith gyda mwy o strwythur. Pan hysbysebwyd swyddi gyda'r DWP, derbyniodd gymorth a chefnogaeth gan ei Hyfforddwr Gwaith i fynd drwy'r broses ymgeisio. Bu'n llwyddiannus a dechreuodd yn y swydd yn Ionawr 2020.

Y DWP ac Wythnos Lluoedd Arfog 2020

Ar gyfer Wythnos Lluoedd Arfog 2020, cynhaliodd y DWP nifer o ddigwyddiadau ar draws y wlad. Er enghraifft, trefnodd ardal Canolfannau Byd Gwaith Dorset, Wiltshire, Hampshire ac Ynys Wyth (DWHI) amryw o wahanol rith-ddathliadau arloesol. Roeddent yn cynnwys sesiwn Skype fyw ryngweithiol gyda chyn-filwr o Lluoedd Arbennig y DU a fu'n trafod ei brofiadau a'i heriau wrth adael y Lluoedd a phontio i fywyd sifil. Recordiodd rheolwr cyflogwyr a phartneriaethau'r DWP hefyd gyfweiliad ar gyfer gwasanaeth darlledu'r Lluoedd Prydeinig ar 'Twitter Hour' ar draws y DWHI

Postiwyd negeseuon trydar gan bwyntiau cyswllt Lluoedd Arfog y DWP yn fewnol, a gan bartneriaid, darparwyr a chyflogwyr yn allanol. i gynorthwyo'r Lluoedd Arfog.

Y Cyfamod mewn busnes ac yn y gymuned ar draws Cymru

Grŵp gweithredu cyflogaeth

Fel rhan o'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gweithredu cyflogaeth newydd i helpu i wella'r cymorth cyflogaeth a roddir i'r Lluoedd Arfog. Mae'r grŵp yn cynnwys elusennau, asiantaethau statudol a'r MOD ac yn canolbwyntio ar gynorthwyo unigolion a chyflogwyr. Mae'r grŵp yn ystyried y potensial o gynnal mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr yng Nghymru ac yn hyrwyddo mwy ar y wefan Forces Families Jobs i gyflogwyr yng Nghymru. Mae gwybodaeth a dogfennau cymorth penodol i Gymru wedi eu cylchredeg i gydweithwyr ar draws yr MOD, CTP a Veterans UK i roi mwy o wybodaeth am beth sydd ar gael yng Nghymru i gyn-filwyr ar eu ffordd i Gymru.

Buddsoddi mewn Swyddogion Cyswllt y Lluoedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ariannu rhwydwaith o Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog (AFLO) ar gyfer 2019/20 am gost o £250,000 y flwyddyn, ar ôl derbyn y cyllid cychwynnol gan Ymddiriedolaeth Cronfa'r Cyfamod.

Mae'r swyddogion AFLO yn sicrhau bod egwyddorion y Cyfamod yn cael eu darparu yn eu hardaloedd. Mae eu gwaith yn cynnwys ymgysylltu, codi ymwybyddiaeth a chysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid i wreiddio'r Cyfamod yn lleol. Maen nhw'n gyswllt allweddol rhwng sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i ddarparu blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol a rhanbarthol. Cyfeiriwyd at werth y swyddogion AFLO yn Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru a chan grŵp elusennau Lluoedd Arfog Cymru Gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld buddsoddi yn y swyddi hyn fel ymyriad allweddol i barhau'r gwaith da sy'n digwydd yng Nghymru i ddarparu Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Gan weithio â'r swyddogion AFLO a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dangosyddion perfformiad newydd y disgwylir i bob AFLO eu bodloni. Maen nhw'n cynnwys codi ymwybyddiaeth leol o'r Cyfamod a chymuned y Lluoedd Arfog, darparu'r canllawiau 'Ein Cymuned, Ein Cyfamod' drwy bartneriaid lleol a gweithio i wella data lleol ar gymuned y Lluoedd Arfog.

Dyma rai enghreifftiau o ganlyniadau allweddol:

- hyfforddi staff rheng flaen – mewn un ardal, bu'r ALFO yn hyfforddi dros 1,500 o staff rheng flaen ar draws llywodraeth leol a'r trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog, gydag ymwybyddiaeth o'r Cyfamod yn cynyddu o 9% cyn yr hyfforddiant i 91% wedyn.
- cefnogi a hyrwyddo'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn
- sefydlu hybiau cymorth newydd i helpu darparwyr i ymgysylltu â'r gymuned cyn-filwyr
- gweithio ag unedau lleol i drefnu gorymdeithiau fel gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi i roi'r Lluoedd Arfog yn llygad y cyhoedd
- gweithio i ddiwygio polisiau lleol er mwyn dileu anfantais i gymuned y Lluoedd Arfog
- hwyluso digwyddiadau ymgysylltu ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i holi barn am Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru a'r Strategaeth Cyn-filwyr

Cymorth swyddogion AFLO i gymuned y Lluoedd Arfog yn ystod Covid-19

Fel llawer o fusnesau a gweithwyr proffesiynol, yn ystod Covid-19 bu'n rhaid i swyddogion AFLO addasu i sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog yn derbyn cymorth allweddol. Bu'r swyddogion yn gweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid elusennol i hyrwyddo gwasanaethau i gymuned y Lluoedd Arfog gan ddsbarthu cymorth perthnasol drwy eu rhwydweithiau a thrwy grwpiau a hybiau cymorth a symudodd at rith-ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo cymorth ariannol Llywodraeth Cymru/ Llywodraeth y DU i elusennau, neu gynlluniau cymorth i gartrefi bregus.

Bu swyddogion AFLO yn gweithio ag awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried wrth adfer neu sefydlu gwasanaethau newydd yn ystod Covid-19. Maent wedi gweithio'n galed yn lleol i hyrwyddo negeseuon pwysig am gymorth iechyd meddwl a cham-drin domestig a chymorth cyflogaeth i rai a gollodd eu gwaith yn ystod y pandemig.

wella gwybodaeth leol i gymuned y Lluoedd Arfog

Mae adborth gan gyn-filwyr a theuluoedd drwy Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru wedi adrodd trafferthion gyda dod o hyd i wybodaeth glir a pherthnasol am y cymorth sydd ar gael.

Drwy weithio â Phrifysgol Northumbria a'r Porth Cyn-filwyr, bu Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r wybodaeth sy'n lleol i Gymru ar y Cyfeiriadur Gwasanaethau, ar wefan y Porth Cyn-filwyr. Gwnaed hyn drwy gymorth gan swyddogion AFLO, Grŵp Arbenigwyr Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru ac aelodau o fforymau Lluoedd Arfog lleol.

Yn ystod Covid-19, ehangwyd y gwaith ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru nawr yn lanlwytho gwybodaeth yn syth i'r Cyfeiriadur a sicrhau ei bod yn berthnasol a diweddar i'r Lluoedd yng Nghymru. Ar y tab Covid-19 newydd mae llwyth o wybodaeth am gymorth lleol gan grwpiau cymunedol ac elusennau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Canllaw Croeso i Gymru

Er mwyn rhoi gwybod am brosiectau a chymorth ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r canllawiau 'Croeso i Gymru'13 i bersonél milwrol a'u teuluoedd, i gynnwys gwybodaeth am ystod o faterion o ddiddordeb i deuluoedd a leolir yng Nghymru, fel addysg, gofal plant, iechyd a lles.

Busnes a'r gymuned yn Yr Alban

Cronfa Cyn-filwyr Yr Alban

Mae Llywodraeth Yr Alban yn parhau i fuddsoddi yng Nghronfa Cyn-filwyr Yr Alban gan ariannu 15 o brosiectau gwerth £166,127 yn 2020/21, mewn partneriaeth â Standard Life Aberdeen. Ers 2008, rhoddwyd mwy na £1.6m i dros 170 o brosiectau.

Ers 2020/21, mae'r Gronfa'n ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau sy'n bidio am arian yn dangos eu hymrwymiad i feini prawf y Fframwaith Gwaith Teg. Eleni, mae'r meini prawf ar gyfer bidio am arian y Gronfa wedi eu hystyried yn gynnwys prosiectau sy'n ceisio datrys effaith Covid-19 ar y gymuned cyn-filwyr yn Yr Alban.

Bydd Llywodraeth Yr Alban yn rhoi cymorth ychwanegol i ddarpar-ymgeiswyr eleni drwy gynnal dau ddigwyddiad cymorth ac arweiniad ar wneud cais am arian, gyda ffocws penodol ar gynorthwyo bidwyr llai i gyfleu nodau a chanlyniadau'r prosiectau sydd ganddynt mewn golwg.

Grŵp Strategol Cyflogadwyedd Cyn-filwyr

Mae'r Grŵp Strategol Cyflogadwyedd Cyn-filwyr, a sefydlwyd mewn ymateb i argymhellion Comisiynydd Cyn-filwyr Yr Alban ar Gyflogadwyedd, Sgiliau a Dysgu, wedi'i ailwampio yn 2020 gyda dau gyd-gadeirydd newydd – cyfarwyddwr o'r sector preifat ac uwch-was sifil. Mae'r grŵp yn ystyried pwrpas newydd ac uchelgeisiol a ffocws clir. Bydd yn parhau i adeiladu a chryfhau ei ddull partneriaeth o wella cyflogadwyedd a sgiliau, gan weithio'n gydweithredol i adnabod a chryfhau llwybrau tuag at waith i rai sy'n gadael y Lluoedd a chyn-filwyr a sut i hybu'r gwerth, sgiliau a nodweddion y gall cyn-filwyr eu cynnig.

Hyfforddiant darparwyr gwasanaethau rheng flaen

Yn 2020 bu Llywodraeth Yr Alban, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, yr MOD a sefydliadau cyn-filwyr, yn hyrwyddo a dosbarthu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr i holl awdurdodau lleol Yr Alban drwy rwydwaith Pencampwyr y Lluoedd Arfog. Mae'r pecyn e-ddysgu'n adnodd syml, hawdd ei ddilyn sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog, sut y mae'n gweithio yn y gymuned a sut y dylid cymhwyso ei egwyddorion yn lleol. Mae'r pecyn hyfforddiant hefyd yn cynnwys ffynonellau pellach o wybodaeth a chymorth i'r Lluoedd Arfog a'r gymuned cyn-filwyr. Mae ehangu'r hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen eraill, fel y GIG, hefyd yn cael ei ystyried.

Consortium y Lluoedd Diangof

Partneriaeth o 16 o fudiadau elusennol sifil a chyn-filwyr yw'r Unforgotten Forces Consortium sy'n gweithio i ddarparu amrediad eang o wasanaethau i gyn-filwyr 65+ oed yn Yr Alban.

Yn ei ddwy flynedd gyntaf, fe ddarparodd bron i 8,608 o becynnau cymorth i gyn-filwyr hŷn ar draws Yr Alban. Cafodd y consortiwm ei ariannu gan grant arian LIBOR o £4m gan Gronfa Cyn-filwyr Oedrannus yr MOD a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020. O 2020/21 ymlaen, bydd Llywodraeth Yr Alban yn cyfrannu £750,000 i'r consortiwm dros dair blynedd tan 2022/23 i wella iechyd, lles ac ansawdd bywyd cyn-filwyr hŷn yn Yr Alban.

Y Money Advice Trust

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi ariannu cyhoeddi canllaw 'How to Deal with Debt' y Money Advice Trust fydd yn lansio'n hwyr yn 2020 ar ôl cael ei ohirio oherwydd Covid-19. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda phrosiect Cyngor Gwasanaethau'r Lluoedd, sy'n rhan o Gyngor ar Bopeth Yr Alban, i sicrhau bod anghenion penodol y gymuned cyn-filwyr yn cael sylw yn y canllaw hwn.

Comisiynydd Cyn-filwyr Yr Alban

Fe groesawodd Llywodraeth Yr Alban adroddiad cynnydd cryno'r Comisiynydd ar ddiwedd Mehefin 2020, oedd yn cynnwys asesiad RAG (coch, oren a gwyrdd) ac un frawddeg o naratif yn erbyn pob argymhelliad. Bydd yn cyhoeddi adroddiad cynnydd mwy manwl cyn diwedd 2020 fydd yn cael ei baratoi gyda mewnbwn gan swyddogion polisi Llywodraeth Yr Alban.

Cymorth yn ystod Covid-19

Wrth nesau at Sul y Cofio ym mis Tachwedd, mae Llywodraeth Yr Alban wedi rhyddhau canllawiau i bob awdurdod lleol a rhanddeiliaid trydydd sector allweddol i gynorthwyo gyda chynnal digwyddiadau cofio a dathlu diogel yn ystod y pandemig Covid-19 presennol.

Cyflogaeth Llywodraeth Yr Alban

Ym mis Gorffennaf 2020, cymrodd Lywodraeth Yr Alban ran mewn sesiwn ar-lein i Gymdeithas Swyddogion Yr Alban. Roedd y sesiwn yn tynnu sylw at gyfleoedd, yn bennaf ar gyfer swyddi iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd yn ehangach yn Llywodraeth Yr Alban. Cofrestrodd dros 50 o unigolion ar gyfer y digwyddiad, a recordiwyd i rai oedd wedi methu mynychu. Daeth y syniad am y sesiwn ar ôl i Lywodraeth Yr Alban ddefnyddio tîm cynllunio milwrol i gynorthwyo gyda'r ymateb iechyd i Covid-19.

Ers 17 Medi 2020, mae 17 o unigolion wedi mynegi diddordeb mewn penodiadau cyfnod penodol. Hyd yma mae un wedi dechrau yn y Gyfarwyddiaeth Rheoli Achosion Haint a thri arall wedi cael dyddiad dechrau o ddiwedd Medi. Cynigiwyd swyddi i chwech arall, gyda thri bellach ar ganol y broses gwiriadau cyn-gyflogi. Mae CV y saith arall yn cael eu hadolygu gan arweinwyr mewn meysydd allweddol ar draws y cyfarwyddiaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan ddisgwyl i swyddi pendant gael eu cynnig iddynt yn fuan.

Er na fydd natur benodol y penodiadau hyn yn caniatáu eu troi'n swyddi parhaol, mae hyn yn gam cadarnhaol arall mewn darparu cyfleoedd gwaith i gyn-filwyr.

Hefyd, mae Llywodraeth Yr Alban yn cynnig dau leoliad gwaith (i ddechrau) i gyn-filwyr drwy'r cynllun Going Forward into Employment. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i dderbyn cyn-filwyr ar leoliadau byr yn ystod eu proses adsefydlu, a bydd gan adrannau'r Llywodraeth wedyn opsiwn o gynnig penodiadau cyfnod penodol iddynt a allai gael eu troi'n rhai parhaol. Noddir y cynllun gan Brif Weithredwr Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae cyn-filwyr yn un o nifer o gategoriâu o bobl y mae'r cynllun yn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau posib i ddod o hyd i waith. Mae Llywodraeth Yr Alban yn gweithio gyda'r CTP i adnabod ymgeiswyr addas gan fwriadu ehangu'r rhaglen i gynnig lleoliadau gwaith i fwy o gyn-filwyr ac efallai cyflogaeth barhaol.

Mae Rhwydwaith Staff Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr Llywodraeth Yr Alban yn parhau i ddatblygu gan roi cyngor a chymorth uniongyrchol i gyn-filwyr eleni, gan gynnwys mentora, ysgrifennu CV, paratoi am gyfweiliad a throsi sgiliau. Llwyddodd rhai o'r unigolion a fentorwyd i gael cynnig penodiadau cyfnod penodol yn Llywodraeth Yr Alban a llwyddodd o leiaf un i gael swydd yn y trydydd sector.

Mae Llywodraeth Yr Alban wedi darparu dolenni i hysbysebion swyddi yn Llywodraeth Yr Alban drwy rhanddeiliaid cyn-filwyr ac yn y Lluoedd Arfog, gan gynnwys Forces Families Jobs, CTP, Poppyscotland, Veterans Scotland, Asiantaeth Recriwtio'r Lluoedd Rheolaidd a Gwasanaethau Adsefydlu'r Lluoedd Arfog.

Bydd Cyfarwyddiaeth Pobl Llywodraeth Yr Alban ac NHS Scotland wedi eu rhith-gynrychioli yn ffair gyflogaeth flynyddol y CTP ym mis Medi 2020 i hyrwyddo cyfleoedd swyddi yn Llywodraeth Yr Alban ac NHS Scotland ac ymgysylltu ag unigolion a adawodd y Lluoedd.

Busnes a'r gymuned yng Ngogledd Iwerddon

Cymorth yn ystod Covid-19

Mae'r ymateb i Covid-19 ar draws cymunedau Gogledd Iwerddon wedi bod yn dra effeithiol gyda Phencampwyr Cyn-filwyr yn bwynt cyswllt uniongyrchol rhagorol ar lefel cynghorau lleol. Cafwyd addewid o gymorth ychwanegol gan 38X ar ddechrau'r cyfnod clo, ond hyd yma ni fu ei angen. Cysylltodd swyddog LO y Team Rubicon hefyd yn cynnig cymorth. Cafwyd cyswllt a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd rhwng Swyddfa Cymorth Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon ac aelodau o Bwyllgor Cymorth Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon. Yn gyffredin â gweddill y DU, mae modelau darparu lles wedi newid i weithio o bell. Gwneir defnydd llawn a dyfeisgar o dechnoleg aelodau i sicrhau bod cymorth ar gael gyda rhith-ddosbarthiadau, gwe-sgwrsio a gweminarau. Bu'r cyd-ymdrechu hwn yn gwbl allweddol. Un canlyniad da yw bod mwy o gyswllt, a hynny'n fwy rheolaidd, dros y ffôn neu Skype gyda chyn-filwyr a theuluoedd a fyddai efallai'n gyndyn fel arfer o ddod i ddigwyddiadau grŵp, yn gwella'r ymddiriedolaeth a'r hyder yn y grŵp hwn.

Cafwyd saith cais i gyd o Ogledd Iwerddon i'r rhaglen Veterans Should Not Be Forgotten, a phob un yn llwyddiannus. Fe wnaeth y cyllid hwn o £118,076 sicrhau nad oedd cyn-filwyr a'u teuluoedd yn cael eu hanghofio dros gyfnod clo Covid-19 a'u bod yn derbyn

cymorth uniongyrchol.

Comisiynydd Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon

Comisiynydd Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon

Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn o fod y Comisiynydd Cyn-filwyr cyntaf yng Ngogledd Iwerddon. Fel cyn-Swyddog y Fyddin gyda'r Gleision a'r Brenhinwyr, rwy'n gwbl ymroddedig i ateb yr heriau a wynebir gan unigolion a'u teuluoedd ar ôl bod yn y Lluoedd.

Fy mhrif flaenoriaeth yw bod ar gael i gyn-filwyr, gwranddo ar beth sydd ei angen arnynt a sicrhau eu bod yn derbyn gofal priodol a'r cyfle gorau i gyfrannu'n adeiladol at gymdeithas ac elwa ohoni. Mae'n gwbl greiddiol felly bod y Cyfamod yn cael ei sefydlu'n gadarn yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gwasanaeth milwrol yn gwreiddio ymdeimlad o ddyletswydd, anhunanoldeb, disgyblaeth a gwaith caled yn ei bersonél, nodweddion y gellir eu cymhwysio i bob llwybr bywyd.

Rwy'n edrych ymlaen at y tair blynedd nesaf a byddaf yn gwneud fy ngorau glas i eiriol yn gryf dros gyn-filwyr a'u teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon.



Danny Kinahan

DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH EIN CYN-FILWYR

(gan y Swyddfa Materion Cyn-filwyr)

Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Strategaeth ein Cyn-filwyr

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraethau Cymru, Yr Alban a'r DU y Strategaeth draws-DU gyntaf ar gyfer ein Cyn-filwyr, yn cyflwyno nifer o ganlyniadau i'w cyflawni erbyn 2028. I gyd-fynd â hyn, mae pob gwlad wedi bod yn ymgynghori ar sut y dylid gweithredu'r Strategaeth hon.

Dros yr amserlen 10 mlynedd, mae'r Strategaeth yn ceisio ateb yr anghenion taer sydd gan gyn-filwyr hyn ac yn cyflwyno'r amodau iawn i gynorthwyo cymdeithas i rymuso a chefnogi'r genhedlaeth ddiweddaraf. Bydd ffocws y prosiectau ar wireddu gweledigaeth uchelgeisiol y Llywodraeth i wneud y DU y wlad orau yn y byd i fod yn gyn-filwr, wedi eu tywys gan dair egwyddor::

- Mae cyn-filwyr, yn gyntaf oll, yn sifiliaid, ac yn parhau i fod o fudd i gymdeithas
- Mae cyn-filwyr yn cael eu hannog a'u hwyluso i wneud y mwyaf o'u potensial fel sifiliaid
- Mae cyn-filwyr yn gallu cael gafael ar gymorth i ateb eu hanghenion pan fo angen, drwy'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol

Mae'r Egwyddorion hyn wedi eu hategu gan ac yn gyson â Chyfamod y Lluoedd Arfog.

Yn y 12 mis diwethaf, mae'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr wedi gyrru agenda cyn-filwyr y Llywodraeth. Yn bennaf fe wnaeth hyn drwy oruchwylio cyflawni Strategaeth ein Cyn-filwyr 2018 ynghyd â'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig a gyhoeddwyd yn Ionawr 2020, dri mis ar ôl sefydlu'r OVA. Mae'r Cynllun Gweithredu'n disgrifio pa gamau sydd angen eu cymryd i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth.

Er mwyn gyrru'r gwaith o gyflawni Strategaeth ein Cyn-filwyr a'r weledigaeth o wneud y DU y lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr, mae'r OVA yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Strategaeth pob dwy flynedd; bydd y nesaf yn 2022. Bydd yr OVA yna'n gallu adrodd ar wahân ar gyflawni'r Strategaeth a chynnwys mesurau darparu a pherfformiad i olrhain y cynnydd..

Rhoddir manylion am y cynnydd presennol gyda chyflawni cynllun gweithredu 2020 isod::

Sefydlu'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr – cwblhawyd yn Hydref 2019. Sefydlwyd yr OVA yn Hydref 2019 i sicrhau bod llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i roi cymorth gydol oes i'n cyn-filwyr. Fe'i lleolir yn Swyddfa'r Cabinet ac mae'n hyrwyddo cyn-filwyr wrth galon y Llywodraeth gan weithio ag adrannau eraill y Llywodraeth, y gwledydd datganoledig a'r sectorau preifat ac elusennol i gydlynu a gyrru polisi ar faterion cyn-filwyr. Ei chenhadaeth yw sicrhau'r canlyniadau gorau posib i gyn-filwyr a gwneud y DU y wlad orau yn y byd i fod yn gyn-filwr..

Sefydlwyd system o lywodraethu. Ar frig y system, mae'r cyfrifoldeb am Gynllun Gweithredu Strategaeth ein Cyn-filwyr yn gorwedd gyda Swyddfa'r Cabinet (drwy'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr), yn unol â'i Chynllun Adrannol Unigol. O dan hyn, sefydlodd yr OVA Grŵp Darparu Strategaeth wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr yr OVA, i oruchwylio cynnydd, cyflawni ymrwymadau presennol y Strategaeth ac arwain ar faterion cyn-filwyr yn y llywodraeth. I ategu hyn, mae swyddogion materion cyn-filwyr o lywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig yn trafod yn rheolaidd. Sefydlu swyddi cyswllt ag elusennau yn yr MOD- cwblhawyd yn Rhagfyr 2019. Mae gan yr MOD nawr swyddi cyswllt elusennol penodol yn nhim Cyfamod y Lluoedd Arfog a'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn.

Cyhoeddi Taflen Ffeithiau Cyn-filwyr – cwblhawyd yn Chwefror 2020. Mae'r OVA wedi diweddarau'r Daflen Cyn-filwyr i gynnwys ffeithiau a data am gyn-filwyr yn y DU. Ffocws y daflen yw cyflogaeth, iechyd a thai i gyn-filwyr, a'r system gyfiawnder, ynghyd â ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

Canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyrannu tai cymdeithasol i gymuned y Lluoedd Arfog – cwblhawyd Mehefin 2020. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi a'r gwledydd datganoledig yn trafod yn rheolaidd

Penodi Comisiynydd Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon cwblhawyd yn Awst 2020. Penodwyd Danny Kinahan fel Comisiynydd Cyn-filwyr yng Ngogledd Iwerddon, i weithredu fel pwynt cyswllt annibynnol i gynorthwyo a gwella canlyniadau i gyn-filwyr Gogledd Iwerddon.

Darparu cyllid i Swyddfa Gymorth Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon a Chomisiynydd Cyn-filwyr GI – cwblhawyd. Penodwyd Comisiynydd Cyn-filwyr GI ac mae cyllid wedi'i roi i'r Swyddfa Cymorth Cyn-filwyr.

Cynyddu nifer Pencampwyr Lluoedd Arfog y Ganolfan Byd Gwaith – gwaith yn parhau. Derbyniodd y DWP gyllid ychwanegol ar gyfer 2020/21 i roi hwb i rôl y pencampwyr hyn. Bu'n rhaid gohirio defnyddio a recriwtio i'r swyddi hyn oherwydd Covid-19.

Treialu a chomisiynu ystod well o Wasanaethau Iechyd Meddwl i Gyn-filwyr (gan gynnwys Gwasanaeth Effaith Uchel (HIS)) – gwaith yn parhau. Bydd y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl Cyn-filwyr (HIS) yn gweld mwy fyth o fuddsoddi mewn iechyd meddwl cyn-filwyr. Rhoddir mwy o fanylion am dreialu'r gwasanaeth HIS ym mhennod Gofal Iechyd yr adroddiad hwn. gyn-filwyr yn gwneud cais am swydd yn y Gwasanaeth Sifil cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Bydd pob penodiad terfynol i'r Gwasanaeth Sifil yn cael ei wneud ar sail haeddiant. Mae'r cynllun yn cael ei arwain gan yr OVA ac Adnoddau Dynol / Polisi Gweithwyr y Gwasanaeth Sifil. Lansiwyd cynllun peilot cychwynnol ym mis Hydref 2020 i brofi'r cynllun a sicrhau bod y profiad i gyn-filwyr yn un cadarnhaol. Mae'r peilot wedi cael ei ehangu i bedair adran i fabwysiadu'r polisi'n gynnar (Swyddfa'r Cabinet, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, gan gynnwys Llu Ffiniau'r DU).

Cerdyn rheilffordd i gyn-filwyr – gwaith yn parhau. Yn unol ag ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth, bydd cyn-filwyr yn cael teithio'n rhatach ar y trên ar ôl lansio'r Cerdyn Rheilffordd Cyn-filwyr ar 5 Tachwedd 2020. Mae'r rhaglen wedi'i harwain gan yr Adran Drafnidiaeth gyda chymorth yr OVA. Bydd y cerdyn, aeth ar werth ar 14 Hydref 2020, yn rhoi'r disgownt i dros 830,000 o gyn-filwyr ychwanegol, gan roi hwb pellach i'w rhagolygon gwaith a dod â nhw'n nes at deulu a ffrindiau. Bydd y cerdyn hefyd yn caniatáu i'w teuluoedd deithio gyda nhw gan arbed cannoedd o bunnau'r flwyddyn i deuluoedd cyn-filwyr.

Cynllun Gwarant Cyfweliad. Yn Chwefror cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n cynnig cyfweliad i unrhyw ja'r gwledydd datganoledig yn trafod yn rheolaidd. Canllawiau newydd i awdurdodau lleol i wella mynediad at dai cymdeithasol ymhellach i aelodau o'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Rhoddir mwy o fanylion ym mhennod Llety'r adroddiad hwn

Hepgor talu Yswiriant Gwladol – gwaith yn parhau. Fel y cyhoeddwyd yn y gyllideb ac yn dilyn ymrwymiad y Llywodraeth yn ei maniffesto, ni fydd cyflogwyr yn talu unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol ar gyflog unrhyw gyn-filwyr a gyflogir ganddynt am flwyddyn gyntaf eu cyflogaeth fel dinesydd sifil. Lansiodd yr OVA ac HMRC ymgynghoriad ar y cynllun hwn, sy'n cael ei arwain gan y Trysorlys, ym mis Gorffennaf 2020 cyn dod i ben ym mis Hydref 2020. Ar hyn o bryd mae cyflogwyr yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol o 13.8% o gyflog y gweithiwr. O dan y mesurau newydd, bydd y cyflogwr yn gallu arbed costau ar gyflog y gweithiwr i fyny at y Trothwy Uchafswm Enillion (£50,000). Bydd cyflogwr sy'n cyflogi cyn-filwr yn ennill £25,000 yn arbed tua £2,000 mewn cyfraniadau YG. Bydd gwasanaeth digidol llawn ar gael i gyflogwyr o Ebrill 2022 ymlaen; fodd bynnag, bydd trefniadau pontio yn eu lle yn ystod blwyddyn dreth 2021/22 fel bod cyflogwyr yn gallu dechrau hepgor talu o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Cyhoeddi canllawiau er mwyn safoni sut i ofyn am wasanaeth milwrol blaenorol – gwaith yn parhau.

Gwneud y mwyaf o brosiectau'r Strategaeth Unigrwydd – gwaith yn parhau. Mae gwaith yn parhau gyda swyddogion yn DCMS i weld sut y gallai cyn-filwyr elwa o brosiectau a ddatblygir drwy'r agenda Mynd i'r Afael ag Unigrwydd traws-lywodraeth.

Adolygu'r diffiniad o 'driniaeth flaenoriaeth' mewn gofal iechyd – yn parhau. Sefydlwyd gweithgor traws-DU a ddaeth i'r casgliad, ar ôl cyfarfod nifer o weithiau dros y cyfnod adrodd, na ddylid newid y diffiniad am y tro. Bydd y gweithgor yn parhau i gyfarfod er mwyn monitro'r argraff o driniaeth flaenoriaeth, tracio gwasanaethau blaenoriaeth wrth iddynt ddatblygu, a rhannu ymarfer gorau.

Rhoi sylw i argraffiadau o gyn-filwyr – gwaith yn parhau. Mae'r OVA yn cydgysylltu â'r Llywodraeth a phartneriaid elusennol i ledaenu'r neges am gyfraniad cyn-filwyr ac yn gweithio i wella a diweddarau'r wybodaeth am argraffiadau'r cyhoedd o gyn-filwyr. Ar sail hyn bydd yr OVA yn datblygu a rhedeg ymgyrch gyfathrebu darged yn 2020/21.

Creu porth cyn-filwyr ar GOV.UK – gwaith yn parhau. Casglu cynnwys oddi ar wahanol wefannau'r llywodraeth yn un lle hawdd mynd iddo. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd Covid-19.

Datblygu a chyhoeddi strategaeth ddigidol a data ar gyfer cyn-filwyr – gwaith yn parhau. Mae'r OVA wedi cytuno ag adrannau eraill yn y llywodraeth i greu gweithgor data traws-lywodraeth gyda phob adran yn cytuno i gyflwyno pencampwr data. Mae'r OVA hefyd wedi cytuno i gydweithrediad traws-lywodraeth i edrych ar y posibilrwydd o gynnal arolwg cyn-filwyr blynyddol.

Darparu'r rhaglen CORTISONE – gwaith yn parhau. Yn y dyfodol bydd System Wybodaeth Feddygol yr MOD yn cynorthwyo cysylltu'n ddi-dor i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac yn hwyluso trosglwyddo cofnodion meddygol unigolion sy'n gadael y Lluoedd i'w meddygfa newydd. Mae'r gwaith ar darged i gael ei gwblhau erbyn yr Hydref 2021.

Parhau i gyflwyno'r cynllun achredu meddygfeydd cyfeillgar i gyn-filwyr ar draws Lloegr – gwaith yn parhau. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno ar draws Lloegr dros y tair blynedd nesaf i helpu i sicrhau bod gan feddygfeydd yr adnoddau angenrheidiol i ofalu'n iawn am gyn-filwyr a'u teuluoedd fel rhan o

ymrwymadau Cynllun Hirdymor y GIG. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y meddygfeydd a achredwyd fel rhai Cyfeillgar i Gyn-filwyr wedi treblu i dros 800.

Dechrau adolygiad o'r Gwasanaeth Ôl-Ofal yng Ngogledd Iwerddon – gwaith yn parhau. Bydd adolygiad o'r gwasanaeth hwn yn GI yn ystyried ehangu cylch gwaith yr ACS i gynnwys holl gyn-filwyr y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon gydag anafiadau a chyflyrau cysylltiedig â bod yn y Lluoedd. Mae'r Swyddfa Cymorth Cyn-filwyr yn parhau i roi cyn-filwyr yn GI mewn cysylltiad â'r gwasanaethau pontio sydd ei angen arnynt drwy rwydwaith darparu profiadol.

Ymchwil

Mae'r OVA yn ariannu cam nesaf astudiaeth arhydol wedi'i harwain gan y Kings Centre for Military Health Research, i bron i 30,000 o gyn-filwyr a fu yn Irac ac Afghanistan ers 2003..

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd yr OVA y byddai'n ariannu astudiaeth newydd wedi'i harwain gan KCL i edrych ar unrhyw effaith benodol a gafodd Covid-19 ar y gymuned cyn-filwyr yn y DU. Yn ei dro bydd hyn yn cynorthwyo llunwyr polisi mewn llywodraeth i ddeall y pethau penodol sy'n effeithio ar gyn-filwyr ac ymateb ar sail cyngor a thystiolaeth arbenigol.

Bwrdd Cyngori Cyn-filwyr

Yn haf 2020, dechreuodd yr OVA ar y broses o guradu Bwrdd Cyngori Cyn-filwyr. Nod y bwrdd yw cyflwyno dealltwriaeth, cyngor a her i'n gwaith gan gymysgedd o bobl o'r gymuned cyn-filwyr a'r gymuned sifil. Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn digwydd yn Nhachwedd 2020, wedi'i gadeirio gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn..

Bydd y Bwrdd yn rhoi cyngor a dealltwriaeth arbenigol annibynnol i Weinidogion am anghenion a disgwyliadau cyn-filwyr yn y dyfodol ynghyd â chyngor ar ddarparu, effaith a pha mor effeithiol, cynaliadwy a chynhwysol yw'r gwasanaethau a pholisïau cymorth presennol ac yn y dyfodol..

Bydd y Bwrdd yn gweithio fel ffrind beirniadol i Lywodraeth y DU ar faterion sy'n effeithio ar gyn-filwyr, ar y cymorth a roddir iddynt a'r gefnogaeth a'r parodrwydd i'w cynorthwyo mewn cymdeithas. Bydd yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Llywodraeth o wneud y DU y wlad orau yn y byd i fod yn gyn-filwr.

Edrych ymlaen

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynllun gwaith uchelgeisiol yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth 2020. Isod, nodir manylion y gwaith dydd yn digwydd yn y dyfodol::

- Hyrwyddo defnyddio technoleg ddigidol i wella mynediad at gymorth i gyn-filwyr a'i gwneud yn haws dilysu bod rhywun yn gyn-filwr.
- Gwellar defnydd a wneir o ddata er mwyn deall anghenion cyn-filwyr a gwella polisïau a gwasanaethau..
- Gwellar mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac adeiladu ar y Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl newydd i rai gyda'r heriau iechyd meddwl mwyaf difrifol.
- Adolygu gwasanaethau i gyn-filwyr er mwyn sefydlu data cychwynnol er mwyn gallu gwneud cymhariaeth ryngwladol ystyrlon.
- Cydweithredu â'r sector elusennau i wneud y DU y lle gorau yn y byd i fod yn gyn-filwr a chyd-gysylltu ac integreiddio'r cymorth i gyn-filwyr yn well.

Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Llywodraeth Yr Alban

Rhwng Hydref 2018 a Chwefror 2019 fe gyflawnodd Lywodraeth Cymru Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, i adnabod bylchau mewn gwasanaeth i gyn-filwyr a'u teuluoedd. Roedd y gwaith hwn yn ategu cyfraniad Llywodraeth Cymru i Strategaeth ein Cyn-filwyr. Yn Ionawr 2020, cafodd ganfyddiadau'r ymarfer hwn, a'r prif fesurau gweithredu'n deillio ohono, eu cyhoeddi yn y ddogfen 'Bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yng Nghymru a'r Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr'. Mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen ar y canfyddiadau hyn drwy'r gweithgorau a'r trefniadau llywodraethu newydd a ddisgrifir ar dudalen 98 (Pennod 1 - Llywodraethu).

Dyma rai o'r canlyniadau allweddol hyd yma::

- £120,000 mewn grantiau i fudiadau yng Nghymru i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yng nghymuned y Lluoedd Arfog;
- Gweithio gyda Phrifysgol Northumbria a'r Porth Cyn-filwyr i gynyddu'r wybodaeth am y cymorth sydd ar gael yng Nghymru i gymuned y Lluoedd Arfog;
- Adolygu'r canllawiau iechyd presennol ar driniaeth flaenoriaeth, gyda diwedddariad i'r canllawiau y flwyddyn nesaf;;
- Cynyddu'r cyllid a roddir i wasanaethau iechyd meddwl cyn-filwyr;;
- Hybu'r wefan Forces Families Jobs yng Nghymru

Strategaeth Cyn-filwyr Llywodraeth Yr Alban

Mae Strategaeth ein Cyn-filwyr, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2018, wedi codi proffil cyn-filwyr a rhoi cyfle i Lywodraeth Yr Alban dynnu sylw at y flaenoriaeth a roddir ganddi i hyrwyddo cyn-filwyr fel caffaeliad i gymdeithas a rhoi cymorth effeithiol i gyn-filwyr sydd ei angen arnynt. I gyd-fynd ag ymgyngoriad cyhoeddus y DU, yn 2019 fe wnaeth Llywodraeth Yr Alban gwblhau sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid ar draws Yr Alban gan ymgysylltu â dros 60 o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys cyn-filwyr eu hunain.

Yn dilyn cais gan Lywodraeth y DU, fe wnaeth Llywodraeth Yr Alban ohirio cyhoeddi ei ymateb 'The Strategy for Our Veterans: Taking the Strategy Forward in Scotland' o fis Rhagfyr 2019 tan fis Ionawr 2020 i gyd-fynd ag amseriad ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae ymateb Llywodraeth Yr Alban yn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud dros gyn-filwyr a chymuned y Lluoedd Arfog gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn adroddiadau Comisiynydd Cyn-filwyr Yr Alban.

Eleni, roedd rhai o'r prif ganlyniadau a ddaeth allan o'r ymrwymadau yn strategaeth Llywodraeth Yr Alban yn cynnwys:

- parhau i fuddsoddi yng Nghronfa Cyn-filwyr Yr Alban gan ariannu 15 o brosiectau gwerth £166,127 yn 2020/21
- ymrwymo £750,00 dros y tair blynedd nesaf hyd at 2022/23 i'r Unforgotten Forces Consortium i wella iechyd, lles ac ansawdd bywyd cyn-filwyr hŷn yn Yr Alban
- hyrwyddo a dosbarthu hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog i awdurdodau lleol ar draws Yr Alban
- gweithio gyda'r Gymdeithas Swyddogion i gynig penodiadau cyfnod penodol yn Llywodraeth Yr Alban i gyn-filwyr
- mabwysiadu'r cynllun Going Forward into Employment i gyn-filwyr gan weithio gyda CTP i greu llif rheolaidd o dalent milwrol ar gyfer y sefydliad ar benodiadau cyfnod penodol gyda'r opsiwn o wneud y swyddi'n rhai parhaol
- cefnogi a chynnal cyfres o rith-ddigwyddiadau i gofio 75 mlynedd ers diwrnod VE a VJ ac 80 mlynedd ers St Valery-en-Caux
- rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ar gynnal digwyddiadau Cofio diogel yn ystod cyfyngiadau Covid-19
- ailwampio'r Grŵp Strategol Cyflogadwyedd Cyn-filwyr gyda chyd-gadeiryddion newydd – cyfarwyddwr o'r sector preifat ac uwch was sifil – ynghyd â phwrpas, ffocws a gweledigaeth newydd

Prosiect Re-group

Mae prosiect 'pathfinder' NHS England ac NHS Improvement (y Prosiect Re-group), mewn cydweithrediad â nifer o elusennau, wedi bod yn gweithio'n ymarferol ac ar yr un pryd yn gwerthuso'r llwybrau a ddefnyddir i gynorthwyo cyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith yn cynorthwyo cyn-filwyr sydd yn y carchar ac ar y tu allan gan weithio â staff proffesiynol (clinigol a chyfiawnder) ac elusennau i gefnogi iechyd corfforol a meddwl cyn-filwyr a rhoi arweiniad, cymorth gan gyn-filwyr eraill a mentora ar ôl dod allan. Gyda mewnbwn hefyd gan unigolion a fu drwy'r system, bydd y gwaith a'r gwerthuso'n goleuo bwriad i ehangu'r rhaglen yn y dyfodol.

ATODIAD A – TABL YN DISGRIFIO CYNNYDD YN ERBYN YMRWYMIADAU

Dengys y tabl hwn, am y tro cyntaf, y cynnydd a wnaed gyda'r holl ymrwymadau yn Adroddiad Blynyddol y Cyfamod ar gyfer 2019, a gyda'r holl ymrwymadau yn Atodiad A yr adroddiad a gofnodir fel rhai 'i'w cwblhau'. Nid yw'n cynnwys mesurau gweithredu a restrir fel rhai a gwblhawyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol

ALLWEDD STATWS COCH / OREN / GWYRDD	
Cwblhawyd / Terfynwyd	
Ar darged i'w ddarparu	
Angen mwy o waith i gyrraedd y targed	
Risg o beidio cael ei ddarparu	



LLYWODRAETHU

Ymrwymiad	Perthnasol i	Cynnydd	RAG
Bydd y llywodraeth yn gweithredu'r strategaeth gyfathrebu traws-lywodraeth newydd er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cyfamod.	Y DU	Mae'r ymrwymiad ar darged.	

GOFAL IECHYD

Ymrwymiad	Perthnasol i	Cynnydd	RAG
Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu cenedlaethol ar draws Cymru gyda'r bwriad o ehangu therapiâu seicolegol..	Cymru	Mae'r ymrwymiad wedi'i gwblhau.	
Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn gweithio ar draws y DU gyda'r GIG ac elusennau'r Lluoedd i ailddiffinio beth yw 'triniaeth flaenoriaeth' i'w wneud yn fwy ystyrlon a pherthnasol yn y dyfodol ar gyfer cyn-filwyr a chlinigwyr.	Lloegr	Sefydlwyd gweithgor traws-DU a gasglodd, ar ôl cyfarfod droeon yn ystod y cyfnod adrodd, na ddylid newid y diffiniad am y tro. Bydd y gweithgor yn parhau i gyfarfod er mwyn monitro'r agraff o driniaeth flaenorol, tracio gwasanaethau blaenoriaeth wrth iddyn nhw ddatblygu a rhannu ymarfer gorau.	
Mae DHSC a'r Adran Addysg wedi adnabod nifer o safleoedd 'torri cwys' i brofi cynigion y papur gwyrdd ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bydd y prosiectau hyn yn weithredol erbyn diwedd 2019.	Lloegr	Mae'r Llywodraeth yn treialu tri chynnig allweddol y papur gwyrdd mewn ardaloedd 'torri cwys'. Cyhoeddwyd y 25 ardal gyntaf, fydd yn darparu 59 o dimau cymorth iechyd meddwl, yn Rhagfyr 2018. Mae'r timau cyntaf wedi cwblhau'r hyfforddiant a bellach yn llawn weithredol. Mae 12 o'r safleoedd hefyd yn treialu amser aros o bedair wythnos. Ym mis Gorffennaf 2019 cadarnhawyd 57 safle arall, yn darparu 123 o dimau cymorth iechyd meddwl, fydd yn dod yn weithredol tuag at ddiwedd 2020 (neu'n fuan yn 2021) ar ôl cwblhau eu hyfforddiant. Ym mis Mai, cadarnhawyd 58 o ardaloedd eraill ble bydd 104 o dimau newydd yn cael eu sefydlu yn 2020/21..	
Bydd ystadegau amddiffyn yn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar yr holl achosion marwolaeth (2001-18) yn y gwanwyn 2020 fel rhan o astudiaeth cudd-wyllo fawr, Astudiaeth o'r Cohort Cyn-filwyr o achosion marwolaeth personél milwrol yn y DU..	Y DU	Mae ystadegau amddiffyn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn NHS Digital, yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a Chofnodion Gwladol Yr Alban gan obeithio gweld cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol nes ymlaen eleni.	
Mae NHS England a NHS Improvement yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn ar ymarfer cwmpasu i weld faint o gyn-filwyr allai elwa o wasanaethau yn y Ganolfan Adsefydlu Meddygol Amddiffyn (DMRC).	Lloegr	Ym mis Medi cynhaliwyd y gweithgor cyntaf i edrych ar y llwybr gofal adsefydlu i gyn-filwyr, a sut orau i'w ddarparu..	

GOFAL IECHYD

Ymrwymiad	Perthnasol i	Cynnydd	RAG
Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ariannu datblygu Canolfan Adsefydlu Genedlaethol dan arweiniad NHS England, i'w chyd-leoli gyda'r DMRC ar safle Stanford Hall, i ddarparu'r gwasanaethau adsefydlu diweddaraf i'r cyhoedd yn Lloegr. Disgwylir i'r ganolfan fod yn weithredol erbyn 2022	Lloegr	Mae datblygiad y ganolfan yn parhau gydag ymgynghori gorfodol â'r cyhoedd ar y cynigion rhwng Gorffennaf a Medi. Disgwylir i'r ganolfan agor bellach yn 2023.	
Bydd y cynllun achredu meddygfeydd cyfeillgar i gyn-filwyr yn cael ei gyflwyno dewy Loegr dros y tair blynedd nesaf i helpu i sicrhau bod meddygfeydd yn rhoi'r gofal gorau i gyn-filwyr a'u teuluoedd fel rhan o ymrwymadau Cynllun Hirdymor y GIG.	Lloegr	Mae NHS England ac NHS Improvement a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn parhau i gyflwyno'r cynllun hwn gan roi blaenoriaeth i ardaloedd gyda nifer uchel o gyn-filwyr.	

GOFAL IECHYD

Ymrwymiad	Perthnasol i	Cynnydd	RAG
Mae NHS England ac NHS Improvement yn symud ymlaen i gomisiynu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Dwys i gyn-filwyr mewn argyfwng iechyd meddwl ac sydd angen gofal a thriniaeth taer a brys arnynt. Bydd yn dechrau drwy lansio gwasanaethau 'pathfinder' yn Ebrill 2020. 0.	Lloegr	Mae'r Gwasanaeth Dwys Iechyd Meddwl Cyn-filwyr yn cael ei gyflwyno ar draws Lloegr fel rhan o ddull graddol, gan ddechrau drwy lansio gwasanaethau 'pathfinder' rhanbarthol yn yr hydref 2020 a ohiriwyd oherwydd Covid-19. Bydd y gwasanaethau 'pathfinder' yn rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2022..	
Bydd NHS England ac NHS Improvement yn lansio ymarfer ymgysylltu ar ddechrau 2020 i drafod a deall anghenion iechyd teuluoedd y Lluoedd yn well, gyda'r canfyddiadau'n helpu i oleuo proses o gomisiynu gwasanaeth cymorth i'r grŵp cleifion hwn..	Lloegr	Wedi'i gynllunio'n wreiddiol ar gyfer mis Mai, mae hyn wedi'i ohirio tan yr hydref 2020 oherwydd Covid-19.	
Bydd y rhaglen ranbarthol Veterans ReGroup yn cael ei ddarparu am gyfnod o 18 mis, gyda'r wybodaeth a'r canlyniadau'n goleuo trefniadau i gomisiynu gwasanaeth traws-Loegr yn y dyfodol.	Lloegr	Mae'r Prosiect ReGroup yn parhau – mae'r gwasanaethau eisoes yn weithredol ac wedi eu gwerthuso wrth fynd i helpu cyn-filwyr (a'u teuluoedd) ar draws a thrwy'r system cyfiawnder troseddol. Yn dilyn adroddiad adolygu gyda mewnbwn ychwanegol gan rai sydd wedi bod drwy'r system, bydd y gwaith cydweithredol hwn (yn cynnwys partneriaid o sector elusennau'r Lluoedd) a'r gwerthuso'n goleuo'r trefniadau i ehangu'r rhaglen yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu i wasanaethau allweddol eraill fel rhaglenni iechyd meddwl cyn-filwyr a chymorth i deuluoedd, yn ogystal â rhaglenni sy'n rhan o raglenni iechyd a chyfiawnder cenedlaethol yn Lloegr.	

GOFAL IECHYD

Ymrwymiad	Perthnasol i	Cynnydd	RAG
Mae DHSC, NHS England ac NHS Improvement wedi ymrwymo i gyflwyno amser aros canser safonol o 28 diwrnod erbyn 2020 gan ymrwymo £300 miliwn ychwanegol i wasanaethau diagnostig.	Lloegr	Mae'r safon diagnosis cynt o 28 diwrnod wedi'i ategu gan raglen radical o ailwampio sut y mae gwasanaethau diagnostig yn cael eu darparu i gleifion a allai fod ganddynt ganser. Bydd Canolfannau Diagnostig Cyflym yn dod ag offer ac arbenigedd diagnostig at ei gilydd i symleiddio gwasanaethau diagnostig canser ar draws pob 'llwybr', fydd o fudd i bob claf sy'n derbyn atgyfeiriad canser. Mae'r safon newydd yn cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn 11 Ymddiriedolaeth GIG. Mae Covid-19 wedi effeithio ar amserlen yr Adolygiad Clinigol o Safonau ac nid oes argymhelliad ffurfiol i newid y safon ganser bresennol wedi'i wneud eto.	
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu am nofio am ddim i bersonél milwrol a chyn-filwyr tan 2021.	Cymru	Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi nofio am ddim i bersonél milwrol mewn pyllau nofio awdurdodau lleol ar draws Cymru. Cofnodwyd cyfanswm o 8,319 o nofiadau am ddim yn 2019/20.	

ADDYSG

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Bydd yr Adran Addysg yn cynhyrchu canllawiau i ysgolion ar ddefnyddio cyllid y Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog.	Lloegr	Mae'r Adran Addysg a'r MOD yn gweithio mewn partneriaeth i adnabod a dosbarthu enghreifftiau gan ysgolion o wneud defnydd effeithiol o'r Premiwm Disgyblion Lluoedd Arfog, mewn gwahanol amgylchiadau. Bydd astudiaethau achos o enghreifftiau da'n cael eu cyhoeddi yn 2021 (union ddyddiad i'w gadarnhau).	
Bydd yr MOD yn ystyried opsiynau i roi mwy o rybudd i deuluoedd milwrol er mwyn cael mwy o amser ar gyfer y broses derbyn i ysgolion.	Y DU	Mae'r ymrwymiad hwn ar darged.	
Bydd yr MOD yn parhau i gryfhau ei phartneriaethau ag adrannau addysg, awdurdodau lleol prif ardaloedd y Lluoedd Arfog, cyrff proffesiynol a rhwydweithiau i hyrwyddo anghenion plant y Lluoedd..	Y DU	Gan weithio â Phartneriaeth Awdurdodau Lleol (MODLAP) yr MOD, mae Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yr MOD wedi creu cyfres o egwyddorion ar bontio plant y Lluoedd gyda SEND yn Lloegr. Mae'r egwyddorion wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan y 15 awdurdod lleol yn MODLAP ac mae partneriaeth gyfatebol i MODLAP hefyd wedi'i sefydlu yng Nghymru	
O fis Awst 2020 ymlaen, bydd rhaglen ariannu addysg gynnar a gofal plant (ELC) Llywodraeth Yr Alban, y mae gan bob plentyn tair a phedair oed, a rhai dwyflwydd oed, yn Yr Alban hawl iddo, bron yn dyblu o 600 i 1,140 awr.	Yr Alban	Oherwydd Covid-19, bu'n rhaid gohirio cyflwyniad llawn y ddyletswydd i ddarparu'r 1140 awr wedi'i ariannu o Addysg Gynnar a Gofal Plant (ELC), oedd yn rhan o gyfathreb ar-y-cyd gan COSLA a'r Gweinidog Plant a Phobl Ifanc i awdurdodau lleol ym mis Gorffennaf 2020. Rydym yn gwbl ymrwymedig o hyd i ehangu ELC a dychwelyd at 1140 awr cyn gynted ag y gallwn. Lle mae awdurdodau lleol eisoes yn ehangu'r hawliau hyn, rydym wedi pwysleisio ei bod yn hanfodol diogelu a chynnal hyn. Mae cyllid llawn am 2020-21 i gynorthwyo'r ehangu wedi bod – a bydd yn parhau i fod - yn ei le i awdurdodau lleol ynghyd â'r hyblygrwydd i weithredu dull penodol o ateb anghenion plant a rhieni, i gydnabod y gwahanol heriau a brofir yn lleol. Rydym yn parhau i weithio â Llywodraeth leol a'r sector gofal plant i drafod a chytuno ar amserlen realistig i gyflwyno'r hawl 1140 awr yn llawn. Drwy wneud hyn gallwn ddod â deddfwriaeth yn ôl i Senedd Yr Alban i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i 1140 awr ac yn anad dim sicrhau bod ELC ehangach yn realiti i deuluoedd.	
Erbyn 2020, bydd 50,000 arall wedi cwblhau prentisiaethau gyda'r MOD.	DU	Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ddiwallu. .	

ADDYSG

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Bydd yr MOD yn parhau i weithio â'r Adran Addysg i geisio datrys y broblem o drosglwyddo gwybodaeth am blant teuluoedd milwrol, yn enwedig rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig ac anabledau; ac i addasu a hyrwyddo Proffil Gwybodaeth y Disgybl ar gyfer ysgolion dramor ac yn y gwledydd datganoledig..	Y DU	Mae'r MOD yn parhau i weithio gyda'r Adran Addysg wrth i'r Cod Derbyn i Ysgolion a Chod Ymarfer SEND gael eu hadolygu. Bydd yr ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Derbyn i Ysgolion yn dod i ben ym mis Hydref 2020	
Mae Llywodraeth Yr Alban a Chyngor Cyllido'r Alban yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid i weld beth yw'r rhwystrau i addysg bellach ac uwch a wynebir gan blant teuluoedd milwrol.	Yr Alban	Sefydlwyd Hÿb Yr Alban o'r Gyngrhair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog, wedi'i arwain gan Ymddiriedolaeth Addysg y Royal Caledonian (RCET) a'i gynnal gan Brifysgol Heriot-Watt. Mae'r Hÿb yn hyrwyddo symud plant a phobl ifanc o deuluoedd milwrol ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach. Mae'n gweithio ar ystod o adnoddau digidol i godi ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog, wedi eu hanelu at staff addysgu a chymorth. Y chwe cham dysgu fydd: Y Cyfamod; bywyd teuluol y Lluoedd Arfog; y Cylchoedd Emosiynol o Wahanu a Cholled; Pontio; Barn Plant a Phobl Ifanc; ac Ymchwil. Hefyd, ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Strachclyde, mae RCET wedi comisiynu Adolygiad Llenyddiaeth trylwyr o brosiectau ymchwil yn Yr Alban yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar fywyd y Lluoedd. Bydd hyn yn eu helpu i adnabod bylchau a sut i'w llenwi. Mae Grŵp Cymunedol y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr (AFVCG), wedi'i arwain gan Gyngor Cyllido'r Alban, hefyd yn cynorthwyo gwaith y Rhwydwaith Pencampwyr AB: AU ar gyfer Cyn-filwyr gyda Veterans Scotland. Mae'r Grŵp yn cynnwys aelodau o Veterans Scotland, Llywodraeth Yr Alban, prifysgolion, colegau, SWAP, SAAS ac Ymddiriedolaeth Addysg y Royal Caledonian (RCET). Mae gan yr AFVCG gysylltiadau â grwpiau eraill sy'n cynorthwyo'r Lluoedd a'u teuluoedd gan fwriadu dros y 12 mis nesaf edrych ar waith ymchwil presennol a phosib i blant o deuluoedd milwrol ac unrhyw ddata a allai fod ar gael i helpu mwy ar y grŵp hwn.	
Bydd yr MOD yn gweithio gyda'r gwledydd datganoledig i gynorthwyo personél milwrol i bontio wrth ddychwelyd i'r DU o'r Almaen.	Y DU	Mae proses o bontio plant y Lluoedd Arfog i addysg yn y DU wedi dod i ben.	
Yn Ionawr 2020 bydd y Gyngrhair Cynnydd Plant Lluoedd Arfog yn lansio adnodd mapio a thargeddu ar-lein rhyngweithiol ac yn datblygu fframwaith i ysgolion i gynorthwyo'r plant hyn ynghyd â chyfres o adnoddau seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr.	Y DU	Mae lansio hwn wedi'i ohirio tan ddiwedd 2020.	

ADDYSG

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Erbyn Mehefin 2020 bydd polisi'r MOD ar gyfer y Cynllun Datblygiad Proffesiynol a Phersonol, fel rhan o'r Polisi Datblygiad Gydol Oes, yn cael ei gynnwys fel canllawiau yn JSP822, i gyfrannu at greu diwylliant o ddatblygiad personol.	Y DU	Ers gwneud yr ymrwymiad hwn yn Adroddiad Blynyddol 2019 y Cyfamod, bwriad y Rhaglen Rheoli a Dysgu Milwrol fydd darparu Cynllun Datblygiad Personol a Phroffesiynol fel un o'i gwasanaethau; i'w dreialu i ddechrau ochr yn ochr â rhaglen y Fyddin o dan y prosiect CASTLE. Yr amserlen debygol i'w ddarparu fydd diwedd 2022 neu ddechrau 2023. Er yr oedi, bydd y cynllun yn y diwedd yn cael ei ymgorffori mewn polisi a phrosesau ac felly'n cael ei ddefnyddio gan bersonél Amddiffyn.	

LLETY

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Erbyn 2019 bydd yr MOD wedi sefydlu System Rheoli Llety Byw Eich Hun i roi gwybodaeth hanfodol am gyflwr yr ystad ac i oleuo penderfyniadau buddsoddi pwysig.	Y DU	Cwblhawyd	
Datblygu dull arall o ddarparu llety i bersonél milwrol a'u teuluoedd.	Y DU	Bydd FAM yn cael ei dreialu mewn tri safle yn y DU tan 2022 ac yn casglu tystiolaeth ar ba mor hyfyw fyddai rhoi mwy o ddewis o opsiynau llety gyda chymhorthdal i bersonél milwrol drwy ehangu dewis i'r sector rhentu preifat a chynorthwyo personél i brynu tai.	
Bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymgynghori ar ganllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol fydd yn gwneud i ffwrdd â'r gofyniad cysylltiad lleol ar gyfer partneriaid priod a sifil personél milwrol sydd wedi gwahanu ac ysgaru.	Lloegr	Cyhoeddwyd y canllawiau statudol newydd ym Mehefin 2020.	
Yn Rhagfyr 2019 bydd yr MOD yn cyhoeddi Siarter Cwsmeriaid Llety Teuluoedd Milwrol newydd, gyda mwy o ffocws ar gyfrifoldebau a chanlyniadau.	Y DU	Cyhoeddwyd y Siarter Cwsmeriaid Llety Teuluoedd Milwrol yn eang yn Rhagfyr 2019.	
Bydd darparu 917 o unedau SFA modern newydd yn Salisbury Plain, fel rhan o raglen Lleoliadau'r Fyddin, wedi'i chwblhau erbyn Gorffennaf 2020.	Y DU	Mae datblygwr wedi trosglwyddo'r unedau SFA newydd yn Salisbury Plain i'r MOD.	
Ym mlwyddyn ariannol 2019/20, bydd £123m yn cael ei fuddsoddi i wella moderneiddio SFA ymhellach, gan gynnwys derbyniadau gan dros 1,400 o eiddo wedi eu his-osod.	Y DU	Ym mlwyddyn ariannol 2019/20 buddsoddwyd £123m gan yr MOD mewn gwella a moderneiddio SFA.	

LLETY

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Ar ddechrau 2020 bydd Llywodraeth Yr Alban yn gweithio gyda'r MOD, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ddatblygu a gweithredu 'llwybr' i atal digartrefedd ymhlith rhai a adawodd y Lluoedd Arfog.	Yr Alban	Mae Llywodraeth Yr Alban wedi gofyn i gadeirydd Grŵp Tai Cyn-filwyr Yr Alban i symud ymlaen gyda datblygu llwybr atal digartrefedd cyn-filwyr. Defnyddir y wybodaeth a'r arbenigedd o ddatblygu'r llwybr hwn i sicrhau bod y system dai yn Yr Alban yn ymateb i anghenion cyn-filwyr ac yn atal digartrefedd. Disgwylir i'r gwaith hwn ddechrau tuag at ddiwedd 2020 a bydd yn derbyn cymorth gan Lywodraeth Yr Alban.	
Yn Ebrill 2020, bydd yr adroddiad gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu a oes angen newid y broses o asesu anghenion blaenoriaeth yng Nghymru, i sicrhau bod cyn-filwyr yn gallu derbyn cymorth a gwasanaethau, yn adrodd ar ei ganfyddiadau..	Cymru	Clywsom eisoes fod Llywodraeth Cymru'n adolygu cod canllawiau tai Cymru er mwyn ei ddiweddarau mewn trafodaeth ag amrediad o randdeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o anghenion blaenoriaeth. Gohiriwyd y ddwy raglen waith yn sgil Covid-19 oherwydd bod holl ffocws y Tîm Atal Digartrefedd, o reidrydd, wedi bod ar ymateb i Covid-19. Roedd yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yn cynnwys argymhellion i sicrhau bod cymuned y Lluoedd Arfog wedi'i chynnwys yn y gwaith hwnnw a bydd y strwythur llywodraethu newydd yng Nghymru'n monitro'r darparu..	

BUSNES A'R GYMUNED

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Bydd yr MOD yn gweithio gyda'r sector gwasanaethau ariannol i geisio ateb unrhyw anfanteision posib sy'n gysylltiedig â bod yn y Lluoedd dramor.	Y DU	Mae'r gwaith yn parhau.	
Yn 2018, roedd asiantaethau gwirio credyd a benthydwyr yn gweithio i newid eu systemau er mwyn gallu adnabod a throsglwyddo hanes credyd unigolion yn well lle'r oeddent wedi eu lleoli yn un o gyfeiriadau Swyddfa Bost Lluoedd Prydain, gan adeiladu ar welliannau diweddar yn y cyswllt hwn.	Y DU	Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r Ffederasiwn Teuluoedd yn parhau wrth i faterion godi.	
Bydd y llywodraeth yn parhau i yrru'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad 'Ein Cymuned Ein Cyfamod' drwy'r grŵp gweithredu newydd.	Y DU	Mae gwaith y grŵp gweithredu'n parhau.	
Bydd yr MOD, drwy ymgynghori â busnesau, yn cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Cyfamod mewn Busnes..	Y DU	Mae'r gweithredu yn deillio o argymhellion y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn dilyn mesur effaith y gwaith bellach wedi'i wreiddio'n llawn yng ngwaith yr MOD o Ymgysylltu â Chyflogwyr a gadarnhawyd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr MOD a Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn.	

BUSNES A'R GYMUNED

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Bydd yr MOD yn cynhyrchu adnoddau a chanllawiau newydd, yn trefnu cynhadledd genedlaethol y Cyfamod yn y Gymuned ac yn mynychu nifer o ddiwyddiadau lleol wedi eu trefnu gan bartneriaid y Cyfamod.	Y DU	Bu'n rhaid gohirio cynhadledd genedlaethol y Cyfamod yn y Gymuned, oedd i'w chynnal yn Ebrill 2020, oherwydd Covid-19. Bydd yn cael ei hail-drefnu pan fydd canllawiau'r llywodraeth yn caniatáu.	
Bydd yr MOD yn parhau i wella a datblygu adran fusnes gwefan y Cyfamod i apelio at fusnesau a sefydliadau a lofnododd y Cyfamod neu sydd am gefnogi'r Cyfamod.	Y DU	Mae'r gwaith yn parhau.	
Bydd yr MOD yn ceisio rhoi sylw i brif ganfyddiadau adolygiad y Forces in Mind Trust o adroddiad y Cyfamod mewn Busnes drwy gydol 2020.	Y DU	Mae'r RF&C a'r tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yn gweithio'n agos â Gweithgor Cyflogaeth FiMT.	
Mae tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn yr MOD yn bwriadu defnyddio'r cofnodion mesur effeithiolrwydd i ddatblygu mesurau a thargedau perfformiad rhanbarthol ymhellach.	Y DU	Mae hyn bellach wedi'i weithredu. Mae cofnodion mesur effeithiolrwydd y tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn bellach wedi eu hymgorffori'n llawn yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, sy'n cyfarwyddo'r dangosydd perfformiad allweddol i'w gyflawni fel prif gyfrwng yr MOD o ymgysylltu â chyflogwyr.	

BYWYD TEULUOL

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Yn dilyn ymgynghori trylwyr yn 2017, bydd yr MOD yn ystyried yn ffurfiol yr opsiynau ar gyfer cryfhau'r cymorth gofal plant i deuluoedd personél milwrol, yn gynnar yn 2018.	Lloegr	Dechreuodd raglen beilot Gofal Plant Cofleidiol yr MOD wneud taliadau i deuluoedd yn y safleoedd peilot cyntaf, RAF High Wycombe ac RAF Halton.	
Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio i ddatrys problemau a wynebir gan deuluoedd o'r tu allan i'r DU gydag ymgeisio am fisas a phasbortau.	Y DU	Mae'r gwaith yn parhau.	
Bydd yr MOD yn parhau i weithio gyda Ffederasiynau'r Teuluoedd i gasglu tystiolaeth bellach am gynnwys partneriaid a gafodd ysgariad yng nghategorïau cymuned y Lluoedd Arfog, gan fwriadu adrodd ar hyn yn adroddiad eleni.	Y DU		
Erbyn 2020 bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cynllun gofal plant mwy hyblyg i rieni sy'n gweithio a gyda phlant tair a phedair oed.	Cymru	Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau.	
Bydd canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion i wella eglurder polisiâu'r MOD, a pholisiâu adrannau eraill y llywodraeth, fel eu bod yn adlewyrchu anghenion teuluoedd ag anghenion ychwanegol, yn cael eu hadrodd yng nghynhadledd 2020 Fforwm Anghenion Ychwanegol ac Anabledau'r Lluoedd Arfog.	Y DU		

BYWYD TEULUOL

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
-----------	------------	---------	-----

CYMORTH PONTIO A GYDOL OES

Ymrwymiad	Perthnasol	Cynnydd	RAG
Bydd y llywodraeth cyn bo hir yn cyhoeddi ymateb ymgynghori ar Strategaeth ein Cyn-filwyr.		Mae'r gwaith yn parhau.	
Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn a chydweithwyr gweinidogol eraill yn ystyried sut i symud ymlaen ar bensiynau i weddwon rhyfel.		Mae'r gwaith yn parhau.	
Mae'r MOD yn gweithio i wella ei dealltwriaeth o wladolion o'r tu allan i'r DU a goblygiadau posib unrhyw wahaniaethau diwylliannol i'r math o gymorth y dylai'r MOD ei gynnig. Mae'r MOD a'r Swyddfa Gartref yn parhau i drafod yr heriau a wynebir gan wladolion o'r tu allan i'r DU ar y mater ehangach o bolisi mewnfudo.			
Yn yr hydref 2019 bydd Busnes yn y Gymuned Cymru a Grŵp Cyflogwyr Cyfeillgar i Gyn-filwyr y Llenng Brydeinig Frenhinol (RBL) yn trefnu eu sesiynau gweithdy a rhwydweithio eu hunain i gyflogwyr a chyn-filwyr sy'n chwilio am waith.		Yn ystod Wythnos y Cofio Tachwedd 2019, cynhaliodd dim Arweinyddiaeth Cyflogaeth Cyn-filwyr Busnes yn y Gymuned ddigwyddiad i ddod â busnesau, cyrff trydydd sector a chyn-filwyr at ei gilydd, mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a'r Llenng Brydeinig Frenhinol. Nod y digwyddiad oedd cynorthwyo cyflogwyr i fanteisio ar dalent milwrol, gwella sgiliau cyflogadwyedd cyn-filwyr a chynnig mynediad uniongyrchol at y grŵp hwn i gyflogwyr lleol.	

ATODIAD B – METRIGAU CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Metrigau iechyd: Triniaeth feddygol gan y Lluoedd a mynediad at y GIG i deuluoedd

Tabl 1: Personél milwrol rheolaidd y DU sy'n fodlon â thriniaeth feddygol a gawsant dros y ddwy flynedd ddiwethaf, amcan-ganrannau 2011 – 2020

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Triniaeth feddygol	77	76	76	76	80	80
Triniaeth ddeintyddol	87	86	85	86	87	86	86	87	89	89

Ffynhonnell: Arolwg Agweddau Parhaus y Lluoedd Arfog 2020 0

(<https://www.gov.uk/government/collections/armed-forces-continuous-attitude-survey-index>)

1. Mân newidiadau geiriad a fformat yn 2015.

2. Heb gynnwys atebion 'n/a'.

.. Data ddim ar gael.

Tabl 2: Teuluoedd milwrol oedd yn gallu cael mynediad at ofal meddygol dros y 12 mis diwethaf, amcan-ganrannau 2012 – 2020

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Meddyg teulu (gan gynnwys nyrs / bydwaig)	97	96	96	98	98	98	98	98	97
Deintydd	88	89	90	91	90	90	90	89	87
Gwasanaethau ysbyty neu arbenigol	98	96	97	97	96	95

Ffynhonnell: Arolwg Agweddau Parhaus y Tri Llu 2014 a 2020 (<https://www.gov.uk/government/collections/tri-service-families-continuous-attitude-survey-index>)

1. 2012-2014 – Heb gynnwys atebion 'n/a'.

2. 2015-2019 – Yn cynnwys atebion "le, yn ddiraffferth" ac "le ond gyda rhai trafferthion"; heb gynnwys atebion coll a "Na, nid oedd angen [triniaeth] arnaf".

3. Mae'r atebion wedi eu 'hidlo' ar gyfer rhai oedd angen derbyn gwahanol ofal meddygol [Meddyg Teulu: 93%, Deintydd: 87%; Ysbyty: 61% ar gyfer 2020].

---- Toriad yn y gyfres amser oherwydd newid opsiynau ateb a phoblogaeth.

.. Data ddim ar gael.

Tabl 3: Teuluoedd Lluoedd Arfog y DU oedd yn gallu parhau gyda thriniaeth feddygol1 yn dilyn symud2 yn y 12 mis diwethaf, amcan-ganrannau 2012 – 2020

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
Meddyg teulu (gan gynnwys nyrs / bydwaig)	93	90	92	96	95	93	95	92	91
Deintydd	79	70	74	75	82	81	82	78	77
Gwasanaethau ysbyty neu arbenigol	91	90	85	84	83	80

Ffynhonnell: Arolwg Agweddau Parhaus y Tri Llu 2014 a 2020

(<https://www.gov.uk/government/collections/tri-service-families-continuous-attitude-survey-index>)

1. Yn cyfeirio at a lwyddodd bartneriaid / dibynyddion i barhau gyda thriniaeth mewn lle newydd ar ôl symud.
 2. Yn cynnwys: os wedi symud am eu rhesymau eu hunain ac, os am resymau Gwasanaeth..
 3. 2012-2014 – Heb gynnwys atebion 'n/a'.
 4. 2015-2019 – Yn cynnwys atebion "le, yn ddiraffferth" ac "le ond gyda rhai trafferthion"; heb gynnwys atebion coll a "Na, nid oedd angen [triniaeth] arnaf".
 5. Mae'r atebion wedi eu 'hidlo' ar gyfer rhai a symudodd yn y 12 mis diwethaf ar ganol derbyn triniaeth [Meddyg Teulu: 13%, Deintydd: 8%; Ysbyty: 10% ar gyfer 2019].
 6. Mae'r niferoedd yn seiliedig ar is-set bychan: pobl a symudodd ac oedd angen parhau gyda thriniaeth.
- Toriad yn y gyfres amser oherwydd newid poblogaeth.
 .. Data ddim ar gael.

Metrigau iechyd: Amseroedd aros cancers

Tabl 4: Personél Lluoedd Arfog y DU1, amseroedd aros am driniaeth cancer yn Lloegr, niferoedd a chanrannau 2017/18 – 2019/20

		2017/18		2018/19		2019/20	
		nifer	%	nifer	%	nifer	%
Aros pythefnos, pob cancer2	Personél milwrol	1,729	93.4	1,886	91.7	2,192	91.6
	Lloegr	1,833,138	94.1	2,066,264	92.0	2,386,815	90.8
	Targed		93		93		93
Aros pythefnos, cleifion gyda symptomau cancer y fron (lle nad oedd amheuaeth o ganser i ddechrau)2	Personél milwrol	264	87.4	230	85.8	217	81.6
	Lloegr	179,996	92.8	164,485	85.8	176,807	83.9
	Targed		93		93		93
Aros un mis (31 diwrnod) rhwng diagnosis a'r driniaeth gyntaf, pob cancer3	Personél milwrol	82	96.5	123	97.6	111	97.3
	Lloegr	287,270	97.5	303,569	96.8	316,588	96.0
	Target5		96		96		96
Aros 62 diwrnod am y driniaeth gyntaf yn dilyn atgyfeiriad brys gan feddyg teulu, pob cancer4	Personél milwrol	26	83.9	57	87.7	47	87.2
	Lloegr	122,631	82.3	129,724	79.1	167,101	77.2
	Targed		85		85		85

Ffynhonnell: Databas Amseroedd Aros Canser (CWT-Db), NHS England

1. Yr holl gleifion a gofrestrodd â'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn (DMS); bydd yn cynnwys teuluoedd milwrol a gofrestrodd gyda'r DMS.
2. Cleifion wedi eu gweld o fewn 14 diwrnod i'w hatgyfeirio.
3. Cleifion a dderbyniodd driniaeth o fewn 31 diwrnod i'r dyddiad penderfynu trin.
4. Cleifion a dderbyniodd eu triniaeth gwrth-ganser gyntaf o fewn 62 diwrnod i ddyddiad atgyfeiriad brys.
5. Safon Weithredol: lefel perfformiad disgwyliedig ar sail cymysgedd achosion, gofynion clinigol, nifer bosib o gleifion

oedd yn anaddas i dderbyn triniaeth neu'n dewis gohirio triniaeth (dewis y claf) of patients unfit for treatment or electing to delay treatment (patient choice).

Tabl 5: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, amseroedd aros IAPT1 ar gyfer atgyfeiriadau'n dechrau triniaeth 1, Lloegr, niferoedd a chanrannau 2014/15 – 2019/20

Amseroedd aros		2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19		2019/20	
		nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%
6 wythnos neu lai	Cyn-filwyr	5,990	81.1	7,335	84.5	8,565	88.3	8,610	89.5	8,900	89.5	8,765	89.1
	Ddim yn gyn-filwyr	356,050	77.1	430,560	82.0	482,355	87.3	480,810	89.0	505,285r	89.3	515,770	87.4
	Targed		75		75		75		75		75		75
18 wythnos neu lai	Cyn-filwyr	7,105	96.2	8,415	96.9	9,525	98.1	9,475	98.5	9,820r	98.7	9,710	98.7
	Ddim yn gyn-filwyr	438,255	94.9	505,400	96.2	541,615	98.0	533,830	98.8	559,640r	99	580,385	98.3
	Targed		95		95		95		95		95		95

Ffynhonnell: Daeth y data a ddadansoddiwyd o'r Ystorfa Ddata Gomisynnu Genedlaethol (NCDR). Mae'r NCDR yn cael ei weinyddu gan Arden & Gem CSU, ei redeg gan NHS England a NHS Improvement, ac NHS Digital sy'n berchen ar y data.

1. IAPT – Gwella mynediad at therapïau seicolegol, NHS England & NHS Improvement
 2. Ar gyfer atgyfeiriadau newydd a orffennodd gwrs triniaeth yn y flwyddyn, yr amser aros rhwng dyddiad derbyn yr atgyfeiriad a'r asesiad therapiwtig cyntaf.
 3. Dylid nodi bod y wybodaeth yn cynnwys ffigurau wedi'u cywasgu (wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf) yn unol ag adroddiad NHS Digital.
- p Mae'r data gan NHS England ac NHS Improvement yn ddata dros dro a gallai newid pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror.
 Nid yw'r data wedi'i gysoni â phrif ddata IAPT felly gallai fod mân wahaniaethau o ganlyniad i ddiffiniadau a ddefnyddir yn y data a gyflwynir.
- r Niferoedd wedi eu diwygio ers adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog 2019..

Tabl 6: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, amseroedd aros IAPT1 ar gyfer atgyfeiriadau'n dechrau a chwblhau triniaeth2, Lloegr, niferoedd a chanrannau3 2014/15 – 2019/20

	2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19		2019/20	
	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%
Atgyfeiriadau'n dechrau triniaeth												
Cyn-filwyr	12,310	79.4	15,265	80.2	15,770	78.8	16,690	79.7	17,420r	76.4r	17,790	76.8
Ddim yn gyn-filwyr	803,185	63.6	938,175	67.1	948,270	68.7	990,505	70.9	1,071,615r	67.6r	1,145,095	68.0
Cyn-filwyr	7,380	47.6	8,680	45.6	9,695	48.4	9,615	45.9	9,940r	43.6r	9,835	42.4
Ddim yn gyn-filwyr	461,460	36.5	524,935	37.5	552,110	40.0	539,920	38.7	565,240r	35.6r	590,020	35.0

Ffynhonnell: Daeth y data a ddadansoddiwyd o'r Ystorfa Ddata Gomisïynu Genedlaethol (NCDR). Mae'r NCDR yn cael ei weinyddu gan Arden & Gem CSU, ei redeg gan NHS England a NHS Improvement, ac NHS Digital sy'n berchen ar y data.

1. IAPT – Gwella mynediad at therapïau seicolegol, NHS England & NHS Improvement.
 2. Dylid nodi bod y wybodaeth yn cynnwys ffigurau wedi'u cywasgu (wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf) yn unol ag adroddiadau NHS Digital.
 3. Mae atgyfeiriad wedi dechrau triniaeth os yw'r claf yn mynychu un apwyntiad neu fwy. Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau'n gorffen wrth i'r claf gwblhau cwrs o driniaeth, ond mae rhai cleifon yn gwrthod triniaeth, yn cael eu trin ddim ond unwaith, yn cael eu gweld ond nid eu trin, neu'n cael eu rhyddhau.
- p Mae'r data gan NHS England ac NHS Improvement yn ddata dros dro a gallai newid pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror. Nid yw'r data wedi'i gysoni â phrif ddata IAPT felly gallai fod mân wahaniaethau o ganlyniad i ddiffiniadau a ddefnyddir yn y data a gyflwynir.
- r Niferoedd wedi eu diwygio ers adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog 2019.

Tabl 7: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, atgyfeiriadau IAPT1 yn dangos gwelliant dibynadwy2, adferiad3 ac adferiad dibynadwy4, Lloegr, niferoedd a chanrannau5

2014/15 – 2019/20

	2014/15		2015/16		2016/17		2017/18		2018/19		2019/20	
	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%	nifer	%
Gwelliant dibynadwy												
Cyn-filwyr	4,600	62.3	5,535	63.7	6,495	66.5	6,495	67.5	6,770	68.1	6,710	68.2
Ddim yn gyn-filwyr	280,445	60.7	325,845	62	359,775	65.1	359,500	66.5	382,135r	67.6	397,465	67.3
Cyn-filwyr	3,070	41.5	3,820	44.0	4,325	44.6	4,525	47.0	4,785	48.1	4,690	47.6
Ddim yn gyn-filwyr	186,065	40.3	221,015	42.1	247,625	44.8	250,120	46.3	267,725r	47.3	272,460	46.1
Cyn-filwyr		50		50		50		50		50		50
Ddim yn gyn-filwyr	2,945	39.9	3,660	42.1	4,140	42.7	4,325	44.9	4,565	45.9	4,450	45.2
Cyn-filwyr	177,340	38.4	210,345	40.0	235,750	42.6	237,855	44.0	254,465r	45.0	258,360	43.7

Ffynhonnell: Daeth y data a ddadansoddiwyd o'r Ystorfa Ddata Gomisïynu Genedlaethol (NCDR). Mae'r NCDR yn cael ei weinyddu gan Arden & Gem CSU, ei redeg gan NHS England a NHS Improvement, ac NHS Digital sy'n berchen ar y data.

1. IAPT – Gwella mynediad at therapïau seicolegol, NHS England & NHS Improvement.
 2. Gwelliant dibynadwy – pan fydd sgôr AD5M y claf ar ôl ei ryddhau wedi lleihau o 4 neu fwy, neu pan fydd eu sgôr PHQ-9 wedi lleihau o 6 neu fwy, ac nid yw'r ddau wedi lleihau o'r un rhif.
 3. Adferiad = os oedd y claf yn 'achos clinigol' pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf ac wedi sgorio llai na'r sgoriau trothwy ar gyfer AD5M a PHQ-9 pan gawsant eu rhyddhau.
 4. Adferiad dibynadwy – cyfuniad o'r uchod, lle dangosodd atgyfeiriad welliant dibynadwy mewn sgoriau asesu AD5M a PHQ-9 gan newid o achos clinigol i achos heb fod yn glinigol rhwng yr apwyntiad cyntaf ar un olaf.
 5. Dylid nodi bod y wybodaeth yn cynnwys ffigurau wedi'u cywasgu (wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf) yn unol ag adroddiadau NHS Digital.
- p Mae'r data gan NHS England ac NHS Improvement yn ddata dros dro a gallai newid pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror. Nid yw'r data wedi'i gysoni â phrif ddata IAPT felly gallai fod mân wahaniaethau o ganlyniad i ddiffiniadau a ddefnyddir yn y data a gyflwynir.
- r Niferoedd wedi eu diwygio ers adroddiad Cyfamod y Lluoedd Arfog 2019.

Tabl 8: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, atgyfeiriadau TILS1 yn derbyn asesiad, triniaeth a chael eu rhyddhau, Lloegr, niferoedd a chanrannau 2017/18 – 2019/20

	2017/18		2018/19		2019/20	
	nifer	%	nifer	%	nifer	%
Nifer yr atgyfeiriadau	2,879		3,913		4,660	
Addas i dderbyn asesiad	2,414	83.9	2,684	69	3,496	75
Wedi mynychu apwyntiad asesiad3	1,649	68.3	2,120	79	2,569	73
O'r rhai a aseswyd, wedi derbyn triniaeth yn TILS4,	581	35.2	613	29	585	23

Ffynhonnell: NHS England ac NHS Improvement

1. Gwasanaethau Pontio, Ymyrraeth a Chyswllt
2. Nid oedd data 'addas i dderbyn asesiad' ar gael ar gyfer pob rhanbarth cyn Medi 2017; rhoddir amcanffiguraa am y cyfnod hwn
3. Aseiad wyneb yn wyneb
4. Wedi eu gweld mewn apwyntiad clinigol / TILS
5. Dalier sylw: Gallai asesiad arwain at atgyfeiriad priodol at wasanaethau Iechyd Meddwl allanol eraill fel Gwella Mynediad at Therapiau Seicolegol (IAPT), y Gwasanaeth Triniaeth Gymhleth (CTS) neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT).

Tabl 9: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, amseroedd aros TILS12 am asesiad a thriniaeth3, Lloegr, diwrnodau 2018/19 – 2019/20

	2018/19		2019/20	
	Arhosiad cyfartalog (diwrnodau)	Arhosiad cyfartalog (diwrnodau)	Arhosiad cyfartalog (diwrnodau)	Arhosiad cyfartalog (diwrnodau)
Apwyntiad wyneb yn wyneb	Wedi cynnig4	39		37
	Wedi mynychu	47		39
Triniaeth	Wedi cynnig4	55		68
	Wedi mynychu	57		70

Ffynhonnell: NHS England ac NHS Improvement

1. Gwasanaethau Pontio, Ymyrraeth a Chyswllt
2. Amser aros rhwng atgyfeiriad a chael asesiad a rhwng atgyfeiriad a derbyn triniaeth.
3. Wedi eu gweld mewn apwyntiad clinigol / TILS.
4. Targed: 14 diwrnod.

Tabl 10: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU, atgyfeiriadau CTS1 a dderbyniwyd ac apwyntiadau wedi eu darparu, Lloegr, niferoedd a chanrannau 2018/19 – 2019/20

	2018/19		2019/20	
	nifer	%	nifer	%
Nifer yr atgyfeiriadau	648		714	
Atgyfeiriadau a dderbyniwyd	617	95.2	691	96.7
